



Y PANEL TROSOLWG ANNIBYNNOL AR WASANAETHAU MAMOLAETH

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Adroddiad Cynnydd Chwarterol
Y gwanwyn 2020

RHAGAIR

Ar 30 Ebrill 2019, yn dilyn cyhoeddi adolygiad a gynhaliwyd ar y cyd rhwng Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a Choleg Brenhinol y Bydwagedd, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei fod yn rhoi'r gwasanaethau mamolaeth yng nghyn Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf mewn 'mesurau arbennig'.

Fel rhan o becyn o fesurau a luniwyd i gefnogi'i ymyriad, penododd y Gweinidog banel annibynnol i ddarparu'r oruchwyliaeth sy'n angenrheidiol i sicrhau bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn mynd i'r afael â'r methiannau a ganfuwyd gan y Colegau Brenhinol mewn modd amserol, agored a thryloyw sy'n rhoi'r menywod a'r teuluoedd yr effeithiodd yr adolygiad arnynt wrth galon y broses.

Ar hyn o bryd mae'n ofynnol i'r Panel adrodd ar gynnydd i'r Gweinidog bob chwarter. Mae'r adroddiad yma, y trydydd a gyhoeddwyd hyd yma, yn cynnwys misoedd Ionawr, Chwefror a Mawrth 2020.

Mick Giannasi (Cadeirydd)

Cath Broderick (Aelod Lleyg)

Alan Cameron (Arweinydd Obstetreg)

Christine Bell (Arweinydd Bydwreigiaeth)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg Y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth



Mae **Mick Giannasi** (Cadeirydd) yn Gadeirydd Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae ganddo brofiad helaeth o arwain ar lefel uwch, ac roedd yn arfer bod yn Gadeirydd Bwrdd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Bu'n Gomisiynydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn ac yn Brif Gwnstabl Heddlu Gwent.



Mae **Cath Broderick** (Aelod Lleyg) yn Gymrawd Anrhydeddus o Goleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr, a hi yw awdur yr adroddiad *Gwrando ar Farn Menywod a Theuluoedd am Ofal Mamolaeth Cwm Taf* a gyhoeddwyd yn 2019. Mae ganddi brofiad helaeth o ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd, ac roedd wedi cefnogi'r ymateb i Ymholiad Kirkup ym Mae Morcambe.



Mae gan **Alan Cameron** (Arweinydd Obstetreg) 26 mlynedd o brofiad fel Obstetregydd Ymgynghorol, a chafodd ei benodi'n Arweinydd Clinigol Cenedlaethol Obstetreg a Gynaecoleg ar gyfer Grŵp Cydweithredol yr Alban ar Wella Ansawdd Gwasanaethau Mamolaeth a Phlant yn ddiweddar.



Mae gan **Christine Bell** (Arweinydd Bydwreigiaeth) dros 30 mlynedd o brofiad o weithio fel bydwraig yn Lloegr. Am ddeg o'r rheini bu'n Bennaeth Bydwreigiaeth, ac mae'n Asesydd Bydwreigiaeth dynodedig gyda Choleg

TABL CYNNWYS

1 Crynodeb Gweithredol.....	1
1.1 COVID-19	1
1.2 Crynodeb o Gynnydd Cynnar.....	1
1.3 Cynnydd Pellach yn erbyn y Cynllun Gwella Mamolaeth	2
1.4 Arwyddion Eraill o Welliant.....	5
1.5 Adolygiad Clinigol Annibynnol.....	6
1.6 Ymgysylltu â Menywod a Theuluoedd	7
1.7 Datblygu'r IPAAF a'r Cynllun Gwella Mamolaeth	8
1.8 Ymateb y Bwrdd Iechyd	10
1.9 Crynodeb o'r Casgliadau a'r Camau Nesaf.....	11
1.10 Argymhellion	12
2 Pwrpas a Fformat yr Adroddiad.....	13
3 Cefndir a Chyd-destun	16
4 Adolygiad Clinigol Annibynnol	18
4.1 Grŵp y Prosiect Adolygiadau Clinigol	19
4.2 Rhaglen Gynefino i Dimau Adolygu Clinigol.....	19
4.3 Rhaglen ar gyfer Adolygu Clinigol.....	19
4.4 Adborth o'r Ymarferiad Peilot.....	20
4.5 Amserlenni ar gyfer Cyflawni	21
4.6 Y Panel Sicrwydd Ansawdd	21
4.7 Y Tîm Sicrwydd Ansawdd	21
4.8 Digwyddiadau Difrifol ar ôl Hydref 2018.....	22
4.9 Hunanatgyfeiriadau	22
5 Ymgysylltu â Menywod a Theuluoedd.....	24
5.1 Cynllunio, Dylunio a Chyflawni Strategol.....	25
5.2 Digwyddiadau Ymgysylltu â'r Gymuned.....	25
5.3 Defnyddio'r gwersi a ddysgwyd o'r Digwyddiadau Ymgysylltu	27
5.4 Mesur Llwyddiant.....	28
5.5 Cwynion, Pryderon a Chefnogaeth i Deuluoedd	29
5.6 Cydgynhyrchu â Menywod a Theuluoedd.....	30
5.7 Ymgysylltu Staff	32
6 Y Fframwaith Sicrwydd a'r Matrics Aeddfedrwydd	33
6.1 Datblygiadau yn Ystod y Cyfnod Adrodd Presennol	33

6.2 Sefydlu Trothwyon a Thargedau Perfformiad.....	34
6.3 Cymhwyso'r IPAAF	36
6.4 Asesu Presennol yn Erbyn y Matrics Aeddfedrwydd.....	37
6.5 Datblygu'r IPAAF – Y Camau Nesaf	38
7 Ymateb y Bwrdd Iechyd	40
7.1 Datblygiadau yn Ystod y Cyfnod Adrodd Presennol	40
7.2 Cynnydd yn erbyn y 'Camau Nesaf'	42
7.3 Cynllun i Ddatblygu'r Bwrdd Iechyd yn Ehangach.....	44
8 Asesiad o'r Cynnydd yn erbyn y Cynllun Gwella Mamolaeth	47
8.1 Mwy o Gynnydd yn Erbyn y MIP	47
8.2 Arwyddion Eraill o Welliant.....	49
8.3 Cynnydd yn Erbyn Camau 'Gwneud yn Ddiogel' RCOG.....	50
8.4 Asesiad o'r Sefyllfa Bresennol	53
8.5 Datblygu'r Cynllun Gwella Mamolaeth	54
8.6 Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru– Rhaglen Archwilio	55
9 Casgliadau, Camau Nesaf ac Argymhellion	58
9.1 Asesiad Cyffredinol o'r Sefyllfa Bresennol	58
9.2 Y Camau Nesaf.....	59
9.3 Cyfleoedd i Wella Mwy	61
9.4 Argymhellion	62
10 Rhestr o Atodiadau.....	64
11 Rhestr o Dermau.....	81

1 CRYNODEB GWEITHREDOL

1.1 COVID-19

Wrth i'r Panel ddechrau drafftio ei Adroddiad Cynnydd Chwarterol Gwanwyn 2020, roedd maint ac effaith y bygythiad oedd yn gysylltiedig â COVID-19 yn dechrau ymddangos. Hefyd, roedd yn dod yn gynyddol amlwg bod y GIG ar fin wynebu yr her mwyaf sylweddol y mae wedi ei wynebu yn ystod ei hanes o 72 o flynyddoedd. Am y rheswm hwnnw, manteisiodd y Panel ar y cyfle i adolygu ei arferion gweithio mewn ymgynghoriad â'r Bwrdd Iechyd a chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru.

Bydd genedigaethau yn parhau beth bynnag fo'r cyfyngiadau ar weddill ein bywydau, ac mae diogelwch a lles mamau a'u babanod yn dal i fod yr un mor bwysig yn ystod y cyfnod anodd yma ag y mae wedi bod erioed. Oherwydd hynny, cytunwyd y dylai'r Panel barhau i roi elfen gyson o drosolwg a chefnogaeth i'r Bwrdd Iechyd ar ei daith wella, er y byddai hynny yn llawer llai yn ystod y cyfnod yma.

Ond, mae diogelwch a lles y cyhoedd, gweithlu'r GIG a'r rhai y mae'r Panel yn gweithio gyda nhw yn hollbwysig. O ganlyniad i hynny, bydd angen gwneud addasiadau er mwyn adlewyrchu cyngor y llywodraeth ynghylch pellhau cymdeithasol a chyfyngiadau teithio. Yn bwysicach na dim, mae'r Bwrdd Iechyd angen lle i fwrw ymlaen â'r dasg hanfodol o baratoi ar gyfer ac ymateb i'r galwadau cynyddol fydd yn anochel o fod arno.

Yn y tymor byr, mae'r Panel yn edrych ar ffyrdd o barhau i gyflawni ei gylch gorchwyl mewn ffordd gymesur sydd yn destun asesiad risg, drwy leihau'r baich gweinyddol ar y Bwrdd Iechyd a gwneud y defnydd mwyaf posibl o weithio o gartref, cynadledda fideo ac adnoddau cyfathrebu mwy rhyngweithiol eraill megis gweminarau a blogio byw.

Mae benywod a'u teuluoedd yn rhan greiddiol o'r broses wella, a bydd y Panel yn gweithio yn ystod yr wythnosau nesaf ar ganfod gwahanol ffyrdd o sicrhau y gall y drafodaeth ddwy ffordd sydd wedi dechrau yn gallu parhau. Bydd gwaith adolygu clinigol y Panel, sydd erbyn hyn yn mynd rhagddo, yn dal yn flaenoriaeth, er y byddir yn effeithio ar gyflymder y cynnydd os gelwir ar aelodau'r tîm adolygu annibynnol i weithio ar y rheng flaen.

Mae datganiad manylach sydd yn egluro sut mae'r Panel yn ymateb i'r sefyllfa bresennol, a'r egwyddorion sydd yn sail i'w benderfyniadau, wedi ei atodi fel '*Atodiad I*'.

1.2 CRYNODEB O GYNNYDD CYNNAR

Yn adroddiad diwethaf y Panel yn Ionawr 2020, casglodd bod y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael ag argymhellion y Colegau Brenhinol, ac roedd yn bwyllog optimistaidd y byddai gwelliannau cynaliadwy hirdymor mewn gwasanaethau mamolaeth yn cael eu cyflawni wrth i'r rhaglen waith aeddfedu.

Yn benodol cafnwyd tystiolaeth o gynnydd graddol yn erbyn y 79 cam gweithredu a nodwyd yn y Cynllun Gwella Mamolaeth, ac arwyddion clir – a ategir gan wybodaeth o ystod o ffynonellau mewnol ac allanol – fod y gwasanaeth yn gwella yn fwy cyffredinol.

Roedd y gwelliant hwnnw i'w weld nid yn unig yn nhermau diogelwch ac ansawdd y gofal sy'n cael ei ddarparu, ond hefyd yn y ffaith fod y menywod a'r teuluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cael gwell profiad, ac yn y ffordd y mae'r gwasanaeth yn cael ei reoli, ei arwain a'i lywodraethu.

Dywedodd y Panel fod y sylfeini ar gyfer gwella parhaus wedi'u sefydlu'n gadarn; arweinyddiaeth effeithiol, trefniadau priodol i reoli'r rhaglen, llinellau llywodraethu ac atebolrwydd clir ac ymrwymiad gwirioneddol i gyflawni newid ar lefel y Bwrdd a'r uwch arweinwyr. Roedd y Bwrdd lechyd yn cydweithio â'r Panel a rhanddeiliaid eraill i gyflawni ei Gynllun Gwella Mamolaeth¹ mewn amgylchedd o graffu a herio.

Mae'r Bwrdd lechyd hefyd wedi canfod bod materion llywodraethu a nodwyd yn ymestyn y tu hwnt i wasanaethau mamolaeth, ac roedd yn dechrau cyflawni cynllun datblygu sefydliadol ehangach, fydd yn canolbwyntio ar ddatblygu arweinyddiaeth a newid diwylliannol.

Er bod cynnydd yn cael ei wneud yn sicr, adroddodd y Panel bod llawer iawn i'w wneud o hyd, a galwodd am gynyddu cyflymder, cydlyniant a disgyblaeth gweinyddol. Roedd yna hefyd faterion, yn benodol y broses aneffeithiol o ddelio â chwynion a phryderon, oedd yn effeithio ar hyder y cyhoedd, ac roedd angen mynd i'r afael â'r rhain ar fyrder ar lefel sefydliadol.

Nododd y Panel nifer o feysydd ble roedd yn disgwyl gweld cynnydd erbyn yr adroddiad nesaf, yn cynnwys datblygu mwy ar y Fframwaith Integredig ar gyfer Asesu Perfformiad a Sicrwydd a datblygu mwy ar y Cynllun Gwella Mamolaeth, er mwyn cynnwys cerrig milltir a thargedau mwy eglur.

Mae'r materion hyn a chrynodeb o'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn eu herbyn wedi'u nodi yn fanylach yn Adran 7 yr adroddiad.

1.3 CYNNYDD PELLACH YN ERBYN Y CYNLLUN GWELLA MAMOLAETH

Gan adeiladu ar y sylfeini cadarn hynny, mae'r Panel yn falch o adrodd bod y Bwrdd lechyd wedi gwneud **mwya o gynnydd graddol** yn ystod Ionawr, Chwefror a Mawrth 2020.

O ganlyniad i hynny, mae'r Panel yn credu bod y Bwrdd lechyd erbyn hyn **bendant ar y llwybr iawn**, nid yn unig i gyflawni argymhellion y Colegau Brenhinol, ond hefyd, ymhen amser, i ddarparu gwasanaeth mamolaeth y gallan nhw, eu staff a'u cymunedau fod yn falch ohono.

¹ Cynllun gweithredu cyfunol yw'r Cynllun Gwella Mamolaeth, sy'n cynnwys 79 o gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r 70 o argymhellion a ddeilliodd o adolygiad y Colegau Brenhinol, a'r naw argymhelliad arall a ddeilliodd o adolygiadau mewnol cysylltiedig.

Nid yw hynny yn awgrymu bod y gwaith wedi ei gwblhau, a bydd yn anochel y bydd mwy o heriau a rhwystrau yn ymddangos ar hyd y ffordd. Ond, mae'r Panel yn credu bod gan y Bwrdd lechyd erbyn hyn yr adnoddau priodol, y mecanweithiau priodol a'r bobl briodol er mwyn cyflawni'r gwelliant parhaus sydd ei angen er mwyn cyflawni hynny.

Prif bryder y Panel yn ystod y cyfnod yma o ansicrwydd mawr yw a fydd y Bwrdd lechyd yn gallu cynnal y ffocws a'r ymrwymiad hirdymor sydd ei angen nawr er mwyn adeiladu ar y sylfeini cadarn a grëwyd. Archwilir y pryderon yma yn fanylach yn Adran 7 yr adroddiad.

Yn ystod y cyfnod a adolygir, mae'r Panel wedi asesu tystiolaeth sydd yn rhoi sicrwydd rhesymol iddynt y cyflawnwyd 16 argymhelliaid arall ers yr adroddiad diwethaf, sydd yn golygu bod cyfanswm o 41 wedi eu cyflawni erbyn hyn. Mae hynny yn cynnwys y datblygiadau canlynol:-

- adolygwyd y gwasanaeth profedigaeth ac mae gwelliannau wedi cael eu gwneud er mwyn sicrhau bod cymorth a chwrsela priodol ar gael i bob teulu, er bod grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi cael ei sefydlu erbyn hyn gan y fforwm 'My Maternity My Way' er mwyn cynhyrchu mwy o welliannau ar y cyd;
- erbyn hyn mae gan dîm Llywodraethu a Risg mamolaeth adnoddau priodol er mwyn sicrhau y gellir rheoli llwythi gwaith a bod cofnodion Datix (system ar gyfer cofnodi digwyddiadau cysylltiedig ag iechyd a diogelwch) yn cael eu hadolygu a'u graddio, ac y gweithredir arnynt yn briodol a phrydlon;
- erbyn hyn mae holl Aelodau Annibynnol y Bwrdd wedi cael hyfforddiant ar oblygiadau Deddf Dynladdiad Corfforaethol a Lladdiad Corfforaethol 2007, er mwyn deall yn well beth yw eu rôl o ran sicrhau diogelwch y gwasanaethau a ddarperir gan y Bwrdd;
- dyluniwyd a darparwyd rhaglen hyfforddiant orfodol (yn cynnwys hyfforddiant mewn CTG, PROMPT, GAP a GROW²) i'r holl staff meddygol a bydwreigiaeth a llwyddwyd i gyrraedd lefel uchel o gydymffurfiaeth³.

Mae hynny'n golygu bod y Bwrdd lechyd erbyn hyn wedi cyflawni hanner y 79 o argymhellion y Cynllun Gwella Mamolaeth, ac mae gweddill y gwaith yn mynd rhagddo.

Mae hon yn garreg filltir arwyddocaol, yn benodol oherwydd bod cynifer o'r argymhellion a gyflawnwyd, megis y fframwaith llywodraethu clinigol adolygedig a'r rhaglen archwilio clinigol, yn gonglfeini sylfaenol ar gyfer cyflawni'r gweddill.

² Gweler y rhestr termau yn Adran 11 yr adroddiad.

³ Dyluniwyd cynllun hyfforddiant fyddai wedi arwain at gydymffurfiaeth lawn erbyn 31 Mawrth 2020. Ond gohiriwyd yr hyfforddiant yng nghanol Mawrth o ganlyniad i'r ymateb i COVID-19, a bydd y nifer fechan o staff meddygol yn Ysbyty Tywysog Siarl, oedd i fod i gael hyfforddiant ar ddiwedd Mawrth, yn derbyn hyfforddiant ar ôl i bethau ddod yn ôl i'r arfer. Mae yna hefyd nifer fechan o staff meddygol yn Ysbyty Tywysog Siarl sydd yn dal heb gwblhau eu hyfforddiant, er bod hynny y tu allan i gylch gorchwyl y Panel. Er hynny, mae'r Panel yn ystyried bod y camau a argymhellwyd gan RCOG wedi cael eu cyflawni'n llawn.

Hefyd, mae'n bwysig pwysleisio, er nad ydynt yn barod ar hyn o bryd i gael eu llofnodi'n derfynol, bod cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud yn erbyn nifer o'r 38 argymhelliaid arall. Er enghraifft:-

- mae'r 'Weledigaeth Mamolaeth' (cynllun sydd yn nodi amcanion strategol hirdymor sydd wedi eu halinio â Gweledigaeth Mamolaeth Cymru Gyfan) ac erbyn hyn yn destun ymgynghoriad gydag amrywiaeth o randdeiliaid yn cynnwys cynrychiolwyr benywod a theuluoedd;
- mae rhaglenni arweinyddiaeth, ymwybyddiaeth ofalgar a gwerthoedd corfforaethol (sydd yn rhan o'r cynllun datblygu sefydliadol ehangach) yn cael eu cyflwyno, ac mae lefel y presenoldeb a chyfranogiad wedi bod yn galonogol.

Yn ystod y tri mis diwethaf, mae'r Panel hefyd wedi ailasesu nifer o argymhellion a lofnodwyd yn ystod chwarteri blaenorol er mwyn sicrhau bod cynnydd wedi cael ei gynnal a bod newid wedi cael ei ymgorffori mewn ymarfer. Mae hynny yn cynnwys, er enghraifft, mwy o wiriadau ynghylch argaeledd meddygon ymgynghorol ac amseroedd ymateb a chadarnhad bod aelodau staff allweddol yn cyfranogi mewn cyfarfodydd a digwyddiadau sydd yn gysylltiedig â'r llywodraeth.

Hefyd, cynhaliwyd ymarferiad triongli ar ôl cyhoeddi adroddiad Arolygiaeth Iechyd Cymru (HIW) ar yr archwiliad tridiau dirybudd yn Ysbyty Tywysog Siarl ym mis Tachwedd 2019, er mwyn darparu sicrwydd yr ymdriniwyd â'r materion a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw.

Er y cynnydd amlwg sydd wedi cael ei wneud, mae yna nifer fechan o argymhellion y byddai'r Panel wedi disgwyl gweld mwy o gynnydd yn eu herbyn, a bydd y rhain yn destun ffocws newydd yn ystod y cyfnod nesaf. Yn benodol:-

- er bod yr adolygiad Birthrate Plus® wedi cadarnhau bod lefelau staffio presennol yn briodol, mae'r Panel yn disgwyl i gynllun gweithredu gweithlu mwy hirdymor gael ei ddatblygu fydd yn dangos sut y bydd yr adnoddau hynny yn cael eu hoptimeiddio (er enghraifft, drwy leihau salwch a lleihau'r defnydd o oramser) a sut y bydd adleoliadau yn cael eu haddasu er mwyn adlewyrchu patrymau newidiol y galw a ffyrdd newydd o weithio;
- er bod cynnydd wedi cael ei wneud o ran sicrhau bod polisïau, protocolau a chanllawiau ar gael ac yn hygyrch i staff, erbyn hyn mae nifer sylweddol o bolisïau angen eu hadolygu a'u diweddarau. Cytunwyd ar amserlen flaenoriaethol a bydd y Panel yn monitro sut y bydd hynny yn cael ei roi ar waith yn ystod y cyfnod nesaf.

Mae asesiad manylach o'r cynnydd a wnaethpwyd yn ystod y tri mis diwethaf o ran cyflawni'r Cynllun Gwella Mamolaeth, ac yn fwy penodol yn erbyn argymhellion y Colegau Brenhinol, ar gael yn Adran 8 yr adroddiad.

1.4 ARWYDDION ERAILL O WELLIANT

Yn ystod y tri mis diwethaf bu llai o adolygu allanol a gweithgaredd archwilio mewn perthynas â gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol y Bwrdd Iechyd o'i gymharu â chyfnodau adrodd blaenorol. Oherwydd hynny, bu llai o gyfle i driongli asesiad y Panel yn erbyn mathau eraill o dystiolaeth.

Ond mae yna wybodaeth arall sydd yn cefnogi asesiad y Panel bod gwasanaethau yn gwella a bod yn hynny yn effeithio'n gadarnhaol ar brofiadau benywod a theuluoedd. Er enghraifft, mae'r arolygon ddwywaith yr wythnos a gynhaliwyd gan y Gwasanaeth Cynghori a Chydgysylltu Cleifion (PALS) wedi parhau i ddangos lefelau uchel cyson o fodlonrwydd ymysg benywod a theuluoedd sydd yn ddefnyddio'r gwasanaethau yn Ysbyty Tywysog Siarl.

Ar bob taith wella mae yna ddigwyddiadau symbolaidd sydd yn dylisu'r canfyddiad bod carreg filltir wedi ei chyrraedd; nid yw'n bosibl eu mesur bob amser na'u troi yn fetrig perfformiad, ond maent yn darparu gwir deimlad bod pethau yn newid er gwell. Roedd agoriad swyddogol Canolfan Eni Tirion yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ar 9 Mawrth 2020 yn un digwyddiad o'r fath.

Nid yn unig mae'r cyfleusterau arloesol wedi eu dylunio'n benodol ar gyfer anghenion benywod a'u partneriaid, mae'r cysylltiadau cryf sydd wedi cael eu meithrin rhwng y staff a'r benywod sydd wedi rhoi genedigaeth yno yn gwbl amlwg a phwerus. Mae hynny yn gwbl wahanol i'r sefyllfa yr adroddwyd amdani gan y Colegau Brenhinol dros 12 mis yn gynharach.

Ers ei chreu ym mis Mawrth 2019, mae Canolfan Eni Tirion wedi dod yn hyb i ferched, babanod a theuluoedd, a daeth nifer sylweddol allan i ymuno â'r staff er mwyn dathlu ei llwyddiant cynnar. Mewn gwirionedd, roedd y llinell o fygis a chadeiriau gwthio yn ymestyn ymhell i lawr coridor yr ysbyty! Siaradodd rhai teuluoedd yn angerddol yn y seremoni agoriadol am y ffordd y gofalwyd amdanynt gan y staff, ac roedd yna wir deimlad o falchder a chydberchnogaeth oedd yn galondid rhyfeddol i'r aelodau Panel hynny oedd wedi cael y fraint o fod yn bresennol.⁴

Mae'r Panel yn cydnabod, mewn termau cymharol, bod Tirion ar hyn o bryd yn rhan fechan ond pwysig o'r gwasanaeth cyffredinol a ddarperir; ond mae'n gweld tystiolaeth o newid cyffelyb mewn agweddau a pherthnasoedd mewn lleoliadau gwasanaeth mamolaeth ledled ardal y Bwrdd Iechyd.

⁴ O ganlyniad i oblygiadau COVID-19 mewn perthynas â chapasiti staffio, penderfynodd Trefn Reoli Aur Y Bwrdd Iechyd i ddigomisiynu Canolfan Eni Tirion yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg dros dro o 19:00 ar 19 Mawrth 2020 ymlaen. Bydd y sefyllfa yma yn cael ei hadolygu'n fanwl. Ers hynny mae'r staff mamolaeth o'r uned hon wedi cael eu symud er mwyn cefnogi gwasanaethau bydwreigiaeth ar safleoedd eraill y Bwrdd Iechyd.

1.5 ADOLYGIAD CLINIGOL ANNIBYNNOL

Pan adroddodd y Panel ddiwethaf yn Ionawr 2020, roedd cam cyntaf y Rhaglen Adolygu Clinigol newydd ddechrau. Roedd y timau amlddisgyblaethol o fydwragedd, obstetregwyr, anesthetyddion a neonatolegyddion sydd yn cynnal yr adolygiadau wedi cael eu hanwytho a'u hyfforddi ynghylch defnyddio'r adnodd adolygu dynodedig. Mae astudiaeth beilot hefyd wedi cael ei chynnal er mwyn 'profi'r' systemau a'r prosesau sydd wedi cael eu datblygu er mwyn sicrhau cysondeb.

Er bod cynnydd cyson wedi cael ei wneud, roedd yna ychydig o lithro, yn bennaf oherwydd diffyg capasiti yn y Bwrdd Iechyd er mwyn cefnogi'r prosesau gweinyddol sydd yn tanategu'r rhaglen, a diffyg parodrwydd i ddarparu gwybodaeth a chymorth i'r benywod a'r teuluoedd yr effeithiwyd arnynt. Roedd y Panel hefyd yn bryderus bod y broses hunangyfeirio yn cymerwyd gormod o amser i'w chwblhau ac roedd yna ddiffyg trylwyrdd ynghylch prosesau gweinyddol y Bwrdd Iechyd oedd yn aml yn arwain at ail weithio a dyblygu ymdrechion.

Codwyd y materion hynny gyda'r Bwrdd Iechyd, ac er tegwch cafwyd ymateb cadarnhaol ar unwaith. Aildrefnwyd y tîm gwella yn gynnar ym mis Ionawr er mwyn darparu cymorth gyda mwy o ffocws i'r broses adolygu clinigol, a darparwyd capasiti ychwanegol er mwyn golygu nodiadau achos a phapurau cefnogol.

Hefyd, mae'r gronfa ddata benywod a theuluoedd, sydd yn gritigol ar gyfer ymgysylltu effeithiol, wedi cael ei hailddatblygu ar fformat mwy cydnherth tra cytunwyd a llofnodwyd y broses hunangyfeirio hefyd.

Mae'r staff newydd sydd yn ymuno â'r tîm, yn benodol yr Arweinydd Bydwreigiaeth, wedi dod â sgiliau a mewnwleidiad newydd i'r rhaglen, ac o ganlyniad i hynny, mae'r cymorth a ddarperir i'r Bwrdd Iechyd erbyn hyn yn fwy trylwyr, amserol ac effeithlon. Mae'r Panel yn teimlo ei fod yn cael gwell cymorth mewn perthynas â hyn, ac o ganlyniad i hynny, mae'r gwaith yn cael ei wneud yn gyflymach ac mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud.

Yn y cyfamser, mae tri thîm adolygu clinigol amlddisgyblaethol arall wedi cael eu creiwrtio, eu hyfforddi a'u hanwytho, sydd yn golygu bod chwech ar gael erbyn hyn. Mae hynny wedi galluogi dechrau ar yr ail gymal (babanod a oedd wedi marw cyn cael eu geni yn anffodus) a chysylltir â'r merched y bydd y gofal a roddwyd iddynt yn cael ei adolygu er mwy eu galluogi i adrodd eu stori os byddant yn dymuno gwneud hynny.

Yn ogystal â creiwrtio mwy o dimau adolygu clinigol amlddisgyblaethol, sefydlwyd Tîm Sicrwydd Ansawdd a Phanel Sicrwydd Ansawdd er mwyn goruchwyllo'r adolygiadau unigol a chanfod y themâu a'r materion allweddol fydd yn sail ar gyfer adrodd yn ôl i'r Bwrdd Iechyd. Bydd y Tîm Sicrwydd Ansawdd hefyd yn sicrhau cysondeb o ran dull ac yn sicrhau y byddir yn adrodd yn ôl ar y canfyddiadau i fenywod a theuluoedd mewn ysbryd o ddidwylledd a thryloywder.

Bydd COVID-19 yn achosi heriau newydd i'r gwaith adolygu clinigol, ac mae'r Panel yn gorfod addasu ei arferion gweithio yn unol â hynny. Er bod y fethodoleg adolygu clinigol wedi cael ei dylunio i weithredu mewn amgylchedd rhithwir, mae'n bwysig cydnabod y byddir yn effeithio ar gyflymder y cynnydd os gelwir ar aelodau'r tîm adolygu clinigol neu staff cynorthwyol y Bwrdd Iechyd i gefnogi gwaith rheng flaen.

Mae Adran 4 yr adroddiad yn cynnwys crynodeb mwy manwl o'r cynnydd a wnaed i gyflwyno'r strategaeth ar gyfer adolygiadau clinigol.

1.6 YMGYSYLLTU Â MENYWOD A THEULUEDD

Yn adroddiad diwethaf y Panel yn Ionawr 2020, casglodd bod y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd da o ran gwella'r ffordd mae'n ymgysylltu â menywod a theuluoedd. Roedd Aelod Lleyg y Panel wedi chwarae rôl allweddol o ran arwain a chydlynu gweithgareddau yn ystod camau cychwynnol y broses wella. Ond, erbyn hynny roedd yn gallu camu'n ôl yn gynyddol i rôl ymgynghorol, a'r Bwrdd Iechyd yn cymryd mwy o berchnogaeth ar arweiniad a chyfeiriad strategol elfennau ymgysylltu a chyfathrebu y Cynllun Gwella Mamolaeth.

Roedd y cynnydd cynnar wedi cael ei gyfuno yn ystod y chwarter diwethaf, ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd mwy o gamau ymlaen ac mae hynny yn amlwg yn dechrau newid natur a naws y berthynas rhwng y bobl sydd yn defnyddio'r gwasanaeth a'r rhai sydd yn ei ddarparu ar hyn o bryd.

Erbyn hyn mae'r rhaglen ymgysylltu gychwynnol wedi ei chwblhau, a llwyddwyd i gynnal trydydd digwyddiad ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ac mae yna gynlluniau amlwg yn ymddangos ar gyfer gweithgareddau yn ystod y 12 mis diwethaf. Yn y cyfamser, mae'r rhai sydd yn arwain y rhaglen wedi meithrin hyder a gallu ac erbyn hyn maent yn dechrau pennu eu hagenda eu hunain.

Mae yna lawer i'w wneud eto, yn benodol er mwyn sicrhau bod yr hyn a ddysgir o ymgysylltu yn cael ei adlewyrchu yn nyluniad y gwasanaeth a'r ffordd gaiff ei ddarparu, ac mae yna faterion gweddilliol yn bodoli o hyd ynghylch rheoli cwynion, pryderon ac adborth. Ond, yn gyffredinol, mae'r Bwrdd Iechyd mewn lle gwahanol iawn i ble yr oedd flwyddyn yn ôl o ran y ffordd mae'n ymgysylltu ac yn cyfathrebu â benywod a theuluoedd.

Yn dilyn y digwyddiad ymgysylltu cymunedol diweddaraf ym Mhen-y-bont ar Ogwr, sef yr un mwyaf cynhyrchiol ac a fynychwyd orau hyd yma, ysgrifennodd un o'r mamau a oedd yn bresennol:-

“Rwyf eisiau diolch i chi (i gyd) am eich amser ac am werthfawrogi a gwrando ar fy meddyliau, teimladau a safbwyntiau. Roedd hynny yn help mawr i mi ac fe gododd fy ysbryd. Dyna'r peth gorau yr wyf wedi ei wneud hyd yma yn 2020, sef dod i'r sesiwn heddiw. Diolch eto”.

Mae'r safbwynt yma yn nodweddiadol o'r safbwyntiau a fynegwyd gan bobl eraill ac mae'n adlewyrchu newid sylweddol o brofiadau'r teuluoedd hynny a rannodd eu pryderon yn ystod adolygiad y Colegau Brenhinol.

Roedd y sylfeini yn eu lle, ac roedd hynny wedi creu'r amodau i wneud mwy o ddatblygiadau yn y maes yma. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cwblhau ei ddadansoddiad o'r adborth a gasglwyd yn ystod cam cyntaf y broses ymgysylltu, a bydd cynlluniau manylach yn ymddangos yn ystod y misoedd nesaf. Bydd y cynlluniau yma yn egluro sut fydd yr adborth a gasglwyd yn ystod y cam cyntaf yn dechrau ysgogi newid o ran dyluniad y gwasanaeth a'r ffordd gaiff ei ddarparu. Yn y pen draw, bydd angen i hynny gael ei adlewyrchu yn natblygiad metrigau perfformiad priodol yn y Fframwaith Integredig ar gyfer Asesu Perfformiad a Sicrwydd (IPAAF).

O edrych ymlaen, bydd y Panel yn monitro ac yn cefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Ymgysylltu 2020/21, er bydd raid i ddisgwyliadau fod yn realistig o ystyried effaith sefyllfa COVID-19 ar y GIG ac ar allu benywod a theuluoedd a phartner asiantaethau i gyfranogi. Hefyd bydd yna ffocws parhaus ar ddarparu elfen gwasanaethau mamolaeth y cynllun gweithredu ar gwynion a phryderon corfforaethol, ble mae angen gwneud mwy o waith.

Mae Adran 5 yr adroddiad yn cynnwys crynodeb mwy manwl o'r cynnydd a wnaed yn yr elfen hon, a pheth o'r gwaith sydd ar ôl i'w wneud.

1.7 DATBLYGU'R IPAAF A'R CYNLLUN GWELLA MAMOLAETH

Mae'r Panel a'r Bwrdd Iechyd yn gwbl rwymedig i fodel y Fframwaith Integredig ar gyfer Asesu Perfformiad a Sicrwydd (IPAAF). Mae'r IPAAF yn elfen bwysig o'r broses drosolwg oherwydd mae'n galluogi i welliannau perfformiad gael eu monitro a'u hasesu ac i adrodd arnynt yn wrthrychol, ar sail tystiolaeth a deilliannau.

Bydd hefyd, yn yr hirdymor, yn darparu ffordd i'r Bwrdd Iechyd allu cael y sicrwydd y mae ei angen bod y gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol y mae'n eu darparu yn ddiogel ac effeithiol, yn cael eu rheoli a'u harwain yn dda gyda ffocws cadarn ar brofiad menywod a theuluoedd y maent yn gofalu amdanynt.

Yn adroddiad y Panel yn Ionawr 2020, mynegodd siom ynghylch cyflymder y gwaith o ddatblygu'r IPAAF. Hefyd roedd yna ddiffyg cynnydd diriaethol o ran gwella'r Cynllun Gwella Mamolaeth presennol er mwyn cynnwys cerrig milltir, targedau a chyflawniadau cliriach.

Ym mis Ionawr, daethpwyd ag adnoddau ychwanegol i'r Tîm Gwella Mamolaeth a bu newid yn y strwythur a gynyddodd gapasiti ac a roddodd fwy o ffocws ar feysydd allweddol.

O ganlyniad i hynny, mae'r Cyfarwyddwr Gwella Mamolaeth wedi gallu canolbwyntio mwy o amser ac egni ar faterion datblygiadol, ac er clod iddi, mae cynnydd sylweddol wedi ei wneud mewn amser cymharol fyr.

Arweiniodd hynny at gynnal gweithdy ar 9 Mawrth ble cytunwyd yn gyffredinol ar y metrigau fydd yn cael eu defnyddio i boblogi tri maes perfformiad yr IPAAF a'r fethodoleg fydd yn cael ei defnyddio er mwyn cynnal asesiadau rhesymegol yn erbyn lefelau amrywiol y Matrics Aeddfedrwydd y cytunwyd fydd yn sail ar gyfer adrodd ar gynnydd i Weinidogion.

Er y bydd angen mireinio ac addasu'r IPAAF yn raddol yn ystod y misoedd nesaf, mae hynny yn cynrychioli cynnydd da, ac mae'r Panel yn fodlon bod fframwaith asesu perfformiad a sicrwydd ymarferol wedi ei sefydlu.

Arwyddocâd hynny yw bod y Bwrdd Iechyd, am y tro cyntaf, yn gallu hunanasesu yn erbyn y Matrics Aeddfedrwydd, ac mae wedi casglu bod y sefyllfa bresennol fel a ganlyn:-

Ffigwr 1: Asesiad Aeddfedrwydd - Ebrill 2020

	LEFEL AEDDFEDRWYDD				
	Elfennol	Cynnydd Cynnar	Canlyniadau	Aeddfedrwydd	Enghreifftiol
Gofal Diogel ac Effeithiol					
Ansawdd Profiadau Menywod a Theuluoedd					
Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth					

Mae'r Panel wedi adolygu sail resymegol y Bwrdd Iechyd ar gyfer asesu ac mae'n cytuno â'r casgliadau, h.y. bod y Bwrdd Iechyd erbyn hyn yn gwneud 'Cynnydd Cynnar' ac yn symud tuag at 'Ganlyniadau' ym mhob un o'r tri maes perfformiad.

Mae eglurhad manylach o'r IPAAF, y Matrics Aeddfedrwydd a'r sail resymegol ar gyfer asesu yn Adran 6 yr adroddiad.

Yn ogystal â gwneud cynnydd o ran datblygu'r IPAAF, mae'r Cynllun Gwella Mamolaeth wedi cael ei ddatblygu hefyd er mwyn cynnwys amserlenni a cherrig milltir clir ar gyfer cyflawni. Er bod y cysylltiad ag argymhellion y Colegau Brenhinol wedi cael eu cynnal, erbyn hyn mae'n gynllun sydd yn ymwneud â gwella cynaliadwy dros gyfnod o amser, yn hytrach na chyflawni rhestr hir o gamau sydd ar brydiau yn gorgyffwrdd.

Mae eglurhad manylach ynghylch sut mae'r Cynllun Gwella Mamolaeth wedi esblygu ar gael yn Adran 6 yr adroddiad, ac mae copi o'r cynllun lefel uchel sydd yn dangos cerrig milltir ac amserlenni ar gael yn 'Atodiad G'.

1.8 YMATEB Y BWRDD IECHYD

Yn ystod y tri mis diwethaf mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i weithio'n adeiladol gyda'r Panel er mwyn gyrru'r rhaglen wella yn ei blaen, ac er gwaetha'r holl heriau eraill sydd yn wynebu'r sefydliad ar hyn o bryd, mae yna wir deimlad o berchnogaeth o hyd ar lefel y Cadeirydd, Prif Weithredwr a'r Bwrdd. Mae'r fframwaith gwella a sefydlwyd drwy'r Bwrdd Gwella Mamolaeth (MIB), y Tîm Gwella Mamolaeth (MIT) a'r tri Bwrdd Prosiect yn parhau i esblygu, ac yn amlach na pheidio mae'n parhau i weithio'n dda.

Roedd yna broblemau capasiti a gallu yn y MIT cyn Nadolig 2019, ac roedd hynny yn effeithio ar gyflymder y cynnydd. Ond, aeth y Bwrdd Iechyd i'r afael â'r materion yn gyflym a chadarnhaol drwy ailstrwythuro'r tîm a chyflwyno mwy o gapasiti, yn benodol er mwyn cefnogi'r Rhaglen Adolygu Clinigol.

Ers diwedd Ionawr, mae'r MIT wedi bod yn gweithio gyda chapasiti llawn ac mae hynny wedi gwella effeithlonrwydd gweinyddol ac wedi rhyddhau capasiti'r Cyfarwyddwr Gwella er mwyn canolbwyntio ar faterion datblygiadol. Mae hynny wedi galluogi bwrw ymlaen gyda nifer o ddarnau o waith pwysig yn ystod y chwarter, sydd yn cynnwys:-

- cytuno a llofnodi'r broses hunangyfeirio;
- ailddatblygu cronfa ddata benywod a theuluoedd;
- datblygu mwy ar yr IPAAF;
- diweddarau'r Cynllun Gwella Mamolaeth;
- cyflwyno tystiolaeth i'r Panel yn fwy amserol;
- cyflawni cymal arall o argymhellion RCOG.

Dechreuodd y Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth newydd yn ei swydd yn gynnar ym mis Ionawr. Dyma'r tro cyntaf i uwch swydd bydwreigiaeth gael ei chynnig ar lefel Cyfarwyddwr, ac mae manteision hynny yn amlwg yn barod. Mae gan y Cyfarwyddwr brofiadau a mewnwleidiad perthnasol eang sydd eisoes yn creu mwy o fomentwm, syniadau newydd a dull mwy strategol.

Mae'r penodiad hefyd yn golygu bod y triawd o arweinwyr meddygol, clinigol a rheolaethol wedi ei sefydlu am y tro cyntaf ers dechrau ar y rhaglen wella. Sylwir bod y tîm arweiniol erbyn hyn yn ymddwyn mewn ffordd fwy cydlynol ac mae'n dechrau rheoli'r agenda wella ac mae'r MIT yn gynyddol yn cymryd rôl gefnogol. Mae'r cynnydd hwnnw mewn perchnogaeth yn benodol yn cael ei groesawu.

Yn ystod yr wythnosau diweddar, mae'r Panel wedi bod yn gynyddol ymwybodol nad yw wedi rhoi cymaint o sylw i'r gwasanaethau newyddenedigol ag y mae wedi ei roi i'r gwasanaeth mamolaeth.

Rhoddwyd gwahoddiad i'r Arweinydd Newyddenedigol fynychu cyfarfod ffurfiol nesaf y Panel er mwyn rhoi trosolwg o'r gwasanaeth, a bydd hynny nawr yn dod yn faes ffocws yn ystod y cyfnod adrodd nesaf, yn ddibynol ar effaith sefyllfa COVID-19.

Mae'r Panel yn parhau i weithio'n agos gyda'r Prif Weithredwr er mwyn sicrhau bod yna synergedd rhwng yr hyn sydd yn digwydd yn y gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol a'r cynllun corfforaethol ehangach. Yn ystod yr wythnosau diwethaf, yn ogystal â chyflwyno'r model gweithredu newydd, cyhoeddwyd fframwaith rheoli perfformiad corfforaethol newydd, ac mae strategaeth ymgysylltu a chyfathrebu ehangach y sefydliad yn agos at gael ei gwblhau. Bydd hyn oll yn helpu i sicrhau bod y gwelliannau sydd yn cael eu cyflawni yn y gwasanaethau mamolaeth yn gynaliadwy yn yr hirdymor.

Bu peth cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu ar gwynion a phryderon gyda strwythur adolygedig, adnoddau ychwanegol a pholisi cwynion a phryderon newydd yn cael ei sefydlu yn ystod y chwarter olaf. Mae yna arwyddion o wella mewn perfformiad, yn benodol o ran gwelliannau i amseroldeb cwynion newydd a gostyngiad yn nifer y cwynion gaiff eu hailagor.

Ond, mae adborth diweddar gan fenywod a theuluoedd yn awgrymu bod datrys cwynion hanesyddol yn parhau i fod yn broblem a bydd y Panel yn parhau i ganolbwyntio ei sylw ar y mater hwn yn ystod y cyfnod nesaf. Mae yna hefyd heriau ynghylch ansawdd yr ymatebion gaiff eu darparu ac mae'n galonogol gweld y Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth yn cymryd perchnogaeth bersonol ar hynny mewn perthynas â gwasanaethau mamolaeth.

Yng nghasgliad ei adroddiad blaenorol, mae'r Panel yn enwi wyth elfen lle'r oedd yn disgwyl gweld y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd yn ystod chwarter cyntaf 2020. Mae'r rhain yn cael eu nodi yn Adran 7 yr adroddiad ynghyd ag asesiad cryno o'r hyn sydd wedi ei gyflawni.

1.9 CRYNODEB O'R CASGLIADAU A'R CAMAU NESAF

Gan adeiladu ar y sylfeini cadarn a nodwyd yn ei adroddiadau blaenorol, mae'r Panel yn credu bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud **mwya o gynnydd** yn ystod chwarter cyntaf 2020. Yn benodol:-

- mae yna dystiolaeth o gyflawni mwya yn erbyn y Cynllun Gwella Mamolaeth;
- mae yna arwyddion amlwg bod y gwasanaeth yn gwella;
- mae cam cyntaf ymgysylltu wedi cael ei gwblhau gyda deilliannau cadarnhaol;
- mae'r Rhaglen Adolygu Clinigol yn mynd rhagddi erbyn hyn;
- mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ymgysylltu'n adeiladol yn y broses;
- mae'r fframwaith gwella sydd wedi ei sefydlu yn gweithio'n dda;
- datblygwyd mwya ar yr IPAAF a'r MIB;
- erbyn hyn mae asesiad gwaelodlin cychwynnol wedi cael ei gynnal;
- mae yna dystiolaeth o 'Gynnydd Cynnar' yn erbyn pob un o dri maes IPAAF.

Yn seiliedig ar hynny, mae'r Panel yn credu bod y Bwrdd Iechyd erbyn hyn yn bendant ar y llwybr iawn, nid yn unig i gyflawni argymhellion y Colegau Brenhinol, ond hefyd, ymhen amser, i ddarparu gwasanaeth mamolaeth y gallan nhw, eu staff a'u cymunedau fod yn falch ohono.

Mae yna lawer iawn o waith i'w wneud o hyd ac enwyd nifer o 'gampau nesaf' fydd yn darparu ffocws ar gyfer y cyfnod nesaf, a bydd hynny yn cael ei fonitro drwy'r broses sicrwydd, sydd erbyn hyn wedi ei sefydlu. Mae'r camau yma wedi eu crynhoi yn Adran 9 yr adroddiad.

Prif bryder y Panel yn ystod y cyfnod yma o ansicrwydd mawr yw a fydd y Bwrdd lechyd yn gallu cynnal y ffocws a'r ymrwymiad hirdymor sydd ei angen nawr er mwyn adeiladu ar y sylfeini cadarn a grëwyd.

1.10 ARGYMHELLION

Wrth ystyried y cynnydd sy'n cael ei wneud, ac ymrwymiad parhaus y Bwrdd lechyd i'r broses wella, nid yw'r Panel yn teimlo bod angen gwneud unrhyw argymhellion penodol i'r Bwrdd lechyd ar hyn o bryd.

Ond, o ystyried y cynnydd sydd yn cael ei wneud, mae'r Panel yn cynnig **ymestyn y cylch adrodd i chwe mis gyda'r adroddiad nesaf i gael ei gyflwyno erbyn diwedd Medi 2020.**

Mae sail resymegol yr argymhelliad yma yn cael ei egluro'n fanylach yn Adran 9 yr adroddiad.

2 PWRPAS A FFORMAT YR ADRODDIAD

Pwrrpas yr adroddiad hwn yw rhoi crynodeb o gynnydd y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth wrth iddo gyflawni'r cylch gorchwyl a bennwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn benodol, mae'r adroddiad yn rhoi asesiad parhaus o gynnydd y Bwrdd Iechyd wrth iddo gyflwyno'r gwelliannau mewn gwasanaethau mamolaeth a nodwyd fel rhai angenrheidiol gan y Colegau Brenhinol ac mewn adolygiadau cysylltiedig eraill. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys asesiadau o'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr adolygiad clinigol a'r elfennau ymgysylltu yng nghyfrifoldebau'r Panel.

Hwn yw trydydd adroddiad chwarterol y Panel, ac mae'n adlewyrchu'r datblygiadau a'r digwyddiadau a fu yn ystod mis Ionawr, Chwefror a Mawrth 2020. At ddiben rhwyddineb cyfeirio, cyfeirir ato fel Adroddiad Cynnydd Chwarterol Gwanwyn 2020. Mae'n adeiladu ar yr adroddiadau chwarterol blaenorol a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2019 ac Ionawr 2020. Er byrder, ni ailadroddir gwybodaeth gefndirol na'r cyd-destun a ddarparwyd yn yr ddau adroddiad cyntaf oni bai bod angen gwneud hynny er mwyn hwyluso dealltwriaeth.

Yn ogystal â thynnu sylw at yr elfennau hynny lle gwelwyd cynnydd amlwg, mae'r adroddiad hefyd yn nodi'r materion a heriau allweddol sydd yn dal i fodoli, ac mae'n crynhoi'r camau y mae'r Bwrdd Iechyd a/neu'r Panel yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r rhain. Mae'n anochel bod yr adroddiad yn sôn am faterion sefydliadol ehangach y rhoddir sylw iddynt, er mwyn sicrhau bod y gwelliannau y mae angen eu gwneud yn y gwasanaethau mamolaeth yn cael eu darparu yn y tymor hir.

Mae'r adroddiad wedi cael ei ddylunio i fod yn ddogfen ar gyfer y cyhoedd. Cyn belled ag y bo modd mewn dogfen o'r natur yma, mae'r adroddiad wedi cael ei ysgrifennu mewn iaith syml sy'n osgoi defnyddio termau technegol a gwybodaeth fanwl am berfformiad. Mae'n bwysig pwysleisio bod y Panel a'r Bwrdd Iechyd yn mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a bod y casgliadau sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad yn cael eu hategu gan ddadansoddiad a gwybodaeth fwy manwl. Fodd bynnag, er mwyn cadw'r adroddiad yn fyr, mae'n bosibl na fydd y dystiolaeth ategol honno yn cael ei hamlinellu'n llawn bob tro yn yr adroddiad.

Erbyn hyn mae trefniadau rheoli rhaglen a pherfformiad y Bwrdd Iechyd yn dechrau aeddfedu a bu mwy o gynnydd o ran datblygu'r Fframwaith Integredig ar gyfer Asesu Perfformiad a Sicrwydd (IPAAF) yn ystod y tri mis diwethaf. Mae hynny nawr yn dechrau galluogi'r Bwrdd Iechyd i ganolbwyntio mwy ar ddeilliannau yn ei drefniadau rheoli perfformiad a llywodraethu corfforaethol.

Hefyd mae datblygu'r IPAAF wedi galluogi i'r Panel, am y tro cyntaf, ddarparu asesiad seiliedig ar dystiolaeth o ble mae'r Bwrdd Iechyd arni ar hyn o bryd o ran ei daith wella yn erbyn y Matrics Aeddfedrwydd sydd wedi cael ei ddatblygu fel ffordd o asesu cynnydd. Bydd hynny yn dod yn fwy soffistigedig wrth i'r IPAAF esblygu, ond mae cael gwaelodlin i weithio arni yn ddatblygiad pwysig. Trafodir hyn ymhellach yn Adran 6 yr adroddiad.

Mae'r adroddiad wedi'i rannu'n nifer o adrannau ar wahân:-

- Mae **Adran 3 (Y Cefndir a'r Cyd-destun)** yn crynhoi cefndir penderfyniad y Gweinidog i roi'r gwasanaethau mamolaeth mewn mesurau arbennig, ac yn egluro'n fyr iawn sut mae'r Panel wedi cael ei sefydlu i gyflawni ei gylch gorchwyl. Mae'r adran hon yn gryno yn fwiadol, gan fod adroddiadau chwarterol blaenorol y Panel wedi sôn am hyn yn fanwl;
- Mae **Adran 4 (Adolygiadau Clinigol Annibynnol)** yn egluro'r cynnydd a wnaed yn ystod y tri mis diwethaf yn erbyn y Strategaeth ar gyfer Adolygiadau Clinigol, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r adroddiad chwarterol cyntaf ym mis Hydref 2019;
- Mae **Adran 5 (Ymgysylltu â Menywod a Theuluoedd)** yn cynnwys asesiad o gynnydd y Bwrdd Iechyd wrth iddo barhau i ddatblygu ei allu a'i gapasiti i ymgysylltu â menywod a theuluoedd sy'n defnyddio gwasanaethau mamolaeth, ac erbyn hyn mae'n dechrau adlewyrchu hynny yn nyluniad a datblygiad gwasanaethau;
- Mae **Adran 6 (Y Fframwaith Sicrwydd a'r Matrics Aeddfedrwydd)** yn esbonio'r cynnydd a wnaed i ddatblygu'r Fframwaith Integredig ar gyfer Asesu Perfformiad a Sicrwydd (IPAAF), a gytunwyd rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Panel, fel sail i asesu cynnydd a'r lefelau sicrwydd presennol. Mae hefyd yn egluro sut mae'r IPAAF yn llywio'r Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Gwella Gwasanaethau Mamolaeth, ac am y tro cyntaf mae'n darparu asesiad gwaelodlin o gynnydd y Bwrdd Iechyd yn erbyn y Matrics;
- Mae **Adran 7 (Ymateb y Bwrdd Iechyd)** yn cynnwys asesiad parhaus o'r trefniadau mae'r Bwrdd Iechyd wedi'u rhoi ar waith i ymateb i ymyriad y Gweinidog, ac mae'n sôn am yr elfennau y mae angen eu datblygu ymhellach er mwyn manteisio'n llawn ar y potensial i wella;
- Mae **Adran 8 (Asesiad o'r Cynnydd yn erbyn y Cynllun Gwella Mamolaeth)** yn cynnwys asesiad y Panel o'r cynnydd a wnaed hyd yma i gwblhau'r 79 o gamau gweithredu a nodwyd yn y Cynllun Gwella Mamolaeth (MIP) ac mae'n egluro sut mae'r MIP wedi esblygu er mwyn cynnwys cerrig milltir mwy diffiniedig ac amserlenni cyflawni;
- Mae **Adran 9 (Y Casgliadau a'r Camau Nesaf ac Argymhellion)** yn egluro asesiad cyffredinol y Panel, ac yn datgan disgwyliadau'r Gweinidog o ran yr hyn a fydd yn cael ei gyflawni yn ystod y cyfnod adrodd nesaf.

Wrth ystyried y cynnydd sy'n cael ei wneud, ac ymrwymiad parhaus y Bwrdd Iechyd i'r broses wella, nid yw'r Panel yn teimlo bod angen gwneud unrhyw argymhellion penodol i'r Bwrdd Iechyd yn yr adroddiad yma.

Ond mae yna nifer o feysydd ble mae angen gwneud mwy yn ystod y cyfnod adrodd chwarterol nesaf er mwyn cynnal ac adeiladu ar y cynnydd sydd wedi cael ei wneud. Tynnir sylw at y 'camau nesaf' yma yn yr adroddiad, a byddir yn bwrw ymlaen gyda hynny gyda'r Bwrdd Iechyd drwy gylch busnes arferol y Panel.

Mae'r adroddiad yn rhoi un argymhelliad i'r Gweinidog ei ystyried sydd yn gysylltiedig ag amseru ac amledd y cylch adrodd ar gynnydd. Trafodir hyn yn fanylach yn Adran 9 yr adroddiad.

3 CEFNDIR A CHYD-DESTUN

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb byr iawn o gefndir ymyriad y Gweinidog, esboniad cryno o rôl y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth, a throsolwg o'r fframwaith gwella y mae'r Bwrdd Iechyd wedi ei sefydlu fel ymateb.

Mae'r adran hon yn gryno yn fwriadol, oherwydd cafodd y cefndir ei egluro'n fanwl yn Adroddiad Cynnydd Chwarterol Hydref 2019 a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2019. Gellir gweld yr adroddiad yn y fan yma os bydd angen mwy o eglurhad, ond yn gryno, y prif faterion yw.

Ym mis Hydref 2018, yn dilyn pryderon cynyddol am ddiogelwch ac ansawdd y gofal yn yr unedau mamolaeth yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac yn Ysbyty'r Tywysog Siarl, cafodd Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a Choleg Brenhinol y Bydwagedd eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad annibynnol.

Cyhoeddwyd adroddiad y Colegau Brenhinol, sydd yn nodi canfyddiadau'r adolygiad, ar 30 Ebrill 2019. Roedd yn tynnu sylw at bryderon difrifol ynghylch ansawdd a diogelwch, oedd yn cael eu gwaethygu gan ddiffygion o ran llywodraethu corfforaethol, cysylltiadau aneffeithiol, a diwylliant ac ymddygiad amhriodol.

Roedd adroddiad atodol, a oedd yn cynnwys storiâu rhai o'r menywod a'r teuluoedd a oedd wedi defnyddio'r gwasanaeth, yn cyfleu darlun pryderus o brofiadau cleifion a gwasanaeth a oedd yn bell iawn o'r safon dderbyniol.

Roedd adroddiad y Colegau Brenhinol yn cynnwys 70 o argymhellion i wella'r sefyllfa, a chafodd pob un ohonynt eu derbyn gan Lywodraeth Cymru, a'r Bwrdd Iechyd. Roedd hyn yn cynnwys argymhellion y dylid cynnal adolygiad clinigol annibynnol ar nifer o ddigwyddiadau a oedd wedi digwydd rhwng mis Ionawr 2016 a Medi 2018, ac y dylid edrych yn ôl i 2010 a chyn hynny o bosibl, os byddai angen.

Yn sgil canfyddiadau'r Colegau Brenhinol, ac fel rhan o becyn ehangach o ymyriadau, cafodd y gwasanaethau mamolaeth yng nghyn Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf eu rhoi mewn 'Mesurau Arbennig' gan y Gweinidog.

Ar yr un pryd, cafodd y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth ei benodi gan y Gweinidog i geisio cael sicrwydd pendant gan y Bwrdd Iechyd bod yr argymhellion yn adroddiad y Colegau Brenhinol yn cael eu rhoi ar waith yn brydlon, ac mewn ffordd agored a thryloyw sy'n gofalu bod y menywod a'r teuluoedd yr effeithiodd yr adolygiad arnynt yn rhan ganolog o'r broses.

Mae copi o gylch gorchwyl y Panel i'w weld yn 'Atodiad A'.

Mae'r Panel wedi meithrin perthynas o gydweithio â'r Bwrdd Iechyd o'r dechrau, er mwyn lleihau unrhyw fiwrocratiaeth ddiangen ac osgoi dyblygu gwaith, gan gynnal amgylchedd o graffu trylwyr a herio ar yr un pryd.

Mae cylch busnes y Panel wedi'i sefydlu erbyn hyn, ac mae'n seiliedig ar gyfarfod misol ffurfiol y Panel ag amrywiaeth o randdeiliaid, a'r rheini'n sylwedyddion sy'n cymryd rhan yn y broses. Mae hyn yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Cyngor Iechyd Cymuned a'r Undebau Llafur. Mae'r asiantaethau eraill yn cynnwys Uned Gyflawni'r GIG, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru⁵.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymateb yn gadarnhaol ac yn adeiladol i ymyriad y Gweinidog, ac wedi cyflwyno fframwaith gydnerth a fydd yn sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol yn y gwasanaethau mamolaeth. Mae hyn yn cynnwys penodi Uwchswyddog Cyfrifol ar lefel Bwrdd, sefydlu Bwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a fydd yn adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd drwy ei Bwyllgor Ansawdd a Diogelwch, a chreu Tîm Gwella Mamolaeth sy'n rheoli'r broses o gyflawni'r Cynllun Gwella Mamolaeth, gyda chymorth tri grŵp prosiect sydd yn seiliedig ar feysydd.

Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi cydnabod bod rhai o'r materion a'r heriau sylfaenol a nodwyd gan y Colegau Brenhinol yn ymestyn y tu hwnt i'r gwasanaethau mamolaeth. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu rhaglen ddatblygu gorfforaethol er mwyn ailddiffinio gweledigaeth a gwerthoedd corfforaethol, a gwella'r arweinyddiaeth a'r gwaith ymgysylltu ar bob lefel – o lefel Bwrdd i lefel weithredol.

Mae mwy o wybodaeth am adolygiad y Colegau Brenhinol, ymyrraeth y gweinidog, y broses oruchwylio, cylch gorchwyl y Panel a'r fethodoleg weithredu a fframwaith gwella'r Bwrdd Iechyd ar gael yn Adroddiad Cynnydd Chwarterol Hydref 2019 y Panel.

⁵ Er hynny mae'r Panel yn cydnabod y bydd angen addasu ei ddulliau gweithredu presennol efallai yn ystod y misoedd nesaf er mwyn adlewyrchu effaith sefyllfa COVID-19.

⁶ Dylid nodi bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi newid ei enw yn swyddogol i Archwilio Cymru ar 1 Ebrill 2020.

4 ADOLYGIAD CLINIGOL ANNIBYNNOL

Cyhoeddwyd Strategaeth ar gyfer Adolygiadau Clinigol y Panel am y tro cyntaf ym mis Hydref 2019. Yn ddiweddar fe'i diweddarwyd er mwyn adlewyrchu mân addasiadau mewn terminoleg a phroses ers cynhyrchu'r ddogfen wreiddiol, er nad yw'r sylwedd wedi newid yn arwyddocaol. Gellir gweld y ddogfen adolygedig yma os bydd angen mwy o wybodaeth gefndirol.

Pan adroddodd y Panel ddiwethaf yn Ionawr 2020, roedd cam cyntaf y Rhaglen Adolygu Clinigol newydd ddechrau. Roedd y timau amlddisgyblaethol o fydwragedd, obstetregwyr, anesthetyddion a neonatolegyddion sydd yn cynnal yr adolygiadau wedi cael eu hanwytho a'u hyfforddi, ac roedd astudiaeth beilot wedi cael ei chynnal er mwyn 'profi'r' systemau sydd wedi'u sefydlu a sicrhau cysondeb.

Mae'r menywod y mae eu gofal yn cael ei adolygu wedi cael gwybod am hynny, ac wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan yn y broses os ydynt yn dymuno. Cadarnhawyd y byddai'r Cyngor Iechyd Cymuned (CHC) yn darparu gwasanaethau eirioli i'r benywod hynny sydd yn dymuno cael cefnogaeth yn ystod y broses.

Er bodd cynnydd cyson yn cael ei wneud, roedd yna ychydig o lithro yn y rhaglen. Roedd hynny yn bennaf oherwydd diffyg capasiti yn y Bwrdd Iechyd er mwyn cefnogi'r prosesau gweinyddol sydd yn tanategu'r Rhaglen Adolygu Clinigol a diffyg parodrwydd i ddarparu gwybodaeth a chymorth i'r benywod a'r teuluoedd yr effeithiwyd arnynt. Roedd y Panel hefyd yn bryderus bod y broses hunangyfeirio yn cymryd gormod o amser i'w chwblhau ac roedd yna ddiffyg trylwyrdd ynghylch prosesau gweinyddol y Bwrdd Iechyd oedd yn aml yn arwain at ail weithio a dyblygu ymdrechion.

Codwyd y materion hynny gyda'r Bwrdd Iechyd ar lefel y Bwrdd yng nghanol Rhagfyr, ac er tegwch cafwyd ymateb cadarnhaol ar unwaith. Aildrefnwyd y Tîm Gwella Mamolaeth er mwyn darparu cymorth gyda mwy o ffocws i'r broses adolygu clinigol, a darparwyd capasiti ychwanegol er mwyn golygu nodiadau achos a phapurau cefnogol.

Mae'r staff newydd sydd yn ymuno â'r tîm, yn benodol yr Arweinydd Bydwreigiaeth, wedi dod â sgiliau a mewnwelediad newydd i'r ac o ganlyniad i hynny, mae'r cymorth a ddarperir erbyn hyn yn fwy trylwyr, amserol ac effeithlon. Mae'r Panel nawr yn teimlo ei fod yn cael llawer gwell cymorth mewn perthynas â hyn, ac o ganlyniad i hynny, mae'r gwaith yn cael ei wneud yn gyflymach ac mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud. Ar yr un pryd, mae'r gronfa ddata benywod a theuluoedd, sydd yn gritigol ar gyfer ymgysylltu effeithiol, wedi cael ei hailddatblygu ar fformat mwy cydnherth tra cytunwyd a llofnodwyd y broses hunangyfeirio hefyd.

Bydd COVID-19 yn achosi heriau newydd i'r gwaith adolygu clinigol, ac mae'r Panel yn gorfod addasu ei arferion gweithio yn unol â hynny. Er bod y fethodoleg adolygu clinigol wedi cael ei dylunio i weithredu mewn amgylchedd rhithwir, mae'n bwysig cydnabod y byddir yn effeithio ar gyflymder y cynnydd os gelwir ar aelodau'r tîm adolygu clinigol neu staff cynorthwyol y Bwrdd Iechyd i gefnogi gwaith rheng flaen.

Mae gweddill yr adran hon yn crynhoi datblygiadau pellach a ddigwyddodd yn ystod Ionawr, Chwefror a Mawrth 2020.

4.1 GRŴP Y PROSIECT ADOLYGIADAU CLINIGOL

Mae aelodau Grŵp y Prosiect Adolygiadau Clinigol yn cynnwys Arweinwyr Obstetreg a Bydwreigiaeth y Panel, yn ogystal â chynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd, Uned Gyflawni GIG Cymru a'r Cyngor Iechyd Cymuned.

Y Grŵp Prosiect sydd yn gyffredinol gyfrifol am gynnal yr ymarferiad adolygu clinigol edrych yn ôl. Mae'n sicrhau bod y timau adolygu clinigol yn cael y wybodaeth gywir ar gyfer cynnal yr adolygiad, ac y cynigir cyfle i fenywod a theuluoedd gyfranogi yn yr adolygiad os byddant yn dymuno gwneud hynny.

Mae'r Grŵp Prosiect yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn rheoli prosiect a mireinio'r rhaglen, ac ar hyn o bryd mae'n canolbwyntio ar ddatblygu fformat a dyluniad y broses adrodd ac adborth.

4.2 RHAGLEN GYNEFINO I DIMAU ADOLYGU CLINIGOL

Ar ôl llwyddo i recriwtio obstetregwyr, bydwragedd, anesthetyddion a neonatolegyddion ar ddiwedd 2019, cynhaliwyd dwy raglen gynefino arall yn Ionawr a Chwefror. Mae'r rhain wedi cael eu harwain gan glinigwyr y Panel gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru ac Uned Gyflawni'r GIG. Nod y rhaglen gynefino oedd sicrhau bod yr adolygwyr yn llwyr ymwybodol o gefndir yr adolygiad, ac yn deall eu rôl wrth gefnogi'r broses adolygu. O ganlyniad i hynny, erbyn hyn mae yna chwe thîm o glinigwyr sgiliedig a phrofiadol iawn ar gael i gefnogi'r rhaglen.

4.3 RHAGLEN AR GYFER ADOLYGU CLINIGOL

Mewn adroddiadau blaenorol, mae'r Panel wedi egluro sut y bydd y gwaith adolygu clinigol yn cael ei wneud fesul cam ac yn cael ei gyflawni dros gyfnod o amser. Mae'r wybodaeth honno ar gael hefyd yn y Strategaeth ar gyfer Adolygiadau Clinigol sydd ar gael [yma](#).

Ar hyn o bryd, mae'r gwaith adolygu clinigol yn canolbwyntio ar⁶ 140 o benodau gofal a ddarparwyd rhwng Ionawr 2016 a Medi 2018. Mae hynny yn cynnwys 43 o ddiwyddiadau a enwyd yn wreiddiol yn adolygiad y Colegau Brenhinol.

Mae llwybr wedi cael ei ddatblygu er mwyn egluro i fenywod a theuluoedd sut fydd y broses adolygu yn gweithio. Mae copi o'r llwybr wedi ei atodi yn 'Atodiad B' yr adroddiad.

⁶ Nodir bod nifer yr achosion sy'n cael eu hadolygu ychydig yn is na'r nifer a nodwyd yn wreiddiol (tua 150) yn Adroddiad Chwarterol yr Hydref. Y rheswm am hynny yw bod mwy a mwy o wybodaeth fwy cywir yn dod ar gael, ac mae nifer o achosion dyblyg wedi dod i'r amlwg yn sgil hynny. Mae'n bwysig nodi y gallai'r ffigur hwn newid wrth i waith yr adolygiad clinigol ddatblygu, ac wrth i wybodaeth bellach ddod ar gael. Pan fo achosion ychwanegol yn cael eu henwi sydd yn bodloni'r meini prawf cynhwysiant, bydd y benywod a theuluoedd yn cael eu hysbysu.

At ddibenion neilltuo'r adolygiadau unigol i'r Timau Adolygiadau Clinigol, mae'r achosion wedi cael eu rhannu'n dri chategori fel y dangosir hynny yn y tabl isod.

Ffigwr 2: Categoriâu Adolygiadau Clinigol

CATEGORIÂU	DISGRIFIAD
1. Morbidrwydd a marwolaethau ymysg mamau	Y gofal a roddwyd i famau, gan gynnwys y rheini yr oedd angen eu hanfon i'r uned gofal dwys (ICU) o bosibl.
2. Morbidrwydd a marwolaethau ymysg babanod newyddenedigol	Babanod a fu farw yn dilyn yr enedigaeth yn anffodus, neu a oedd angen gofal arbenigol.
3. Marw-enedigaethau	Babanod a oedd wedi marw cyn cael eu geni yn anffodus.

Erbyn hyn cysylltwyd â'r holl fenywod hynny yr adolygir y gofal a roddwyd iddynt, er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o hynny, ac mae gwybodaeth fwy penodol yn cael ei rhoi iddynt pan fo'u hadolygiad unigol ar fin dechrau. Os bydd achosion eraill yn cael eu henwi wrth i'r gwaith fynd rhagddo, byddir yn hysbysu'r benywod a'r teuluoedd yn unol â hynny.

Ar amrywiol adegau, mae'r Bwrdd Iechyd wedi darparu gwasanaeth ffôn ac e-bost er mwyn cynnig gwybodaeth a chymorth i'r rhai y cysylltir â nhw, er bod lefel y defnydd wedi bod yn is na'r disgwyl. Mae hynny yn tueddu i awgrymu bod y wybodaeth gychwynnol a ddarperir yn bodloni anghenion y merched a'r teuluoedd dan sylw.

4.4 ADBORTH O'R YMARFERIAD PEILOT

Yn ystod Rhagfyr 2019, a Ionawr a Chwefror 2020 cynhaliwyd ymarferiad peilot gan dri thîm adolygu clinigol gyda nifer fechan o achosion oedd yn ymwneud â mamau oedd wedi cael cymhlethdodau cyn, yn ystod neu ar ôl beichiogrwydd, yn cynnwys cael eu derbyn i ICU.

Mae'r adborth gan y timau adolygu clinigol oedd yn ymwneud â'r ymarferiad peilot wedi arwain at rai newidiadau i'r adnodd adolygu er mwyn sicrhau ei fod mor gydnerth â phosibl. Yn benodol, mae adborth gan yr Arweinydd Newyddenedigol ar y Panel Sicrwydd Ansawdd wedi arwain at ddatblygu adnodd adolygu mwy pwrpasol ar gyfer achosion newyddenedigol, ac erbyn hyn mae hynny yn cael ei gynnwys yn y fersiwn adolygedig o'r Strategaeth ar gyfer Adolygiadau Clinigol. Mae hynny yn dangos gwir werth y dull amlddisgyblaethol sydd yn cael ei fabwysiadu.

4.5 AMSERLENNI AR GYFER CYFLAWNI

Fel y nodwyd eisoes, nid yw'n bosibl rhagweld ar hyn o bryd pa mor hir fydd proses yr adolygiad. Erbyn hyn mae'r tri thîm adolygu clinigol sydd yn ymwneud â'r achosion peilot yn y broses o adolygu gweddill yr achosion pan dderbyniwyd mamau i ICU neu pan roeddent angen math arall o fewnbwn arbenigol ar ryw adeg yn ystod eu beichiogrwydd.

Mae'r achosion nesaf fydd yn cael eu hadolygu yn rhai sydd yn cynnwys merched a theuluoedd yr oedd eu babanod wedi mawr cyn cael eu geni yn anffodus. Mae'r Panel wedi dechrau ysgrifennu at y teuluoedd yma er mwyn eu hysbysu bod y gofal a roddwyd iddynt yn cael ei adolygu, ac er mwyn eu gwahodd i gyfranogi os byddant yn dymuno gwneud hynny. Dechreuwyd adolygu'r achosion yma ar ddiwedd mis Mawrth.

4.6 Y PANEL SICRWYDD ANSAWDD

Mae'r Panel Sicrwydd Ansawdd wedi cael ei sefydlu, ac mae'n cynnwys Arweinwyr Obstetreg a Bydwreigiaeth IMSOP, Neonatolegydd annibynnol ac Anesthetydd, ynghyd â chynrychiolaeth o Uned Gyflawni'r GIG a'r Cyngor Iechyd Cymuned. Cyfarfu'r Panel am y tro cyntaf ar 24 Mawrth 2020.

Rôl y Panel Sicrwydd Ansawdd, fel mae ei enw yn ei awgrymu, yw darparu sicrwydd ansawdd o ran y broses a deilliant yr adolygiadau clinigol unigol. Er mwyn cyflawni'r swyddogaeth honno, bydd y Panel Sicrwydd Ansawdd yn annibynnol yn adolygu:-

- pob achos sydd yn gysylltiedig â gofal i famau;
- yr achosion hynny sydd yn gysylltiedig â marw-enedigaethau a marwolaethau ymysg babanod newyddenedigol pan enwyd problemau mawr ynghylch gofal.

Hefyd, bydd y Panel Sicrhau Ansawdd yn adolygu cyfran o weddill yr achosion ar hap er mwyn sicrhau cysondeb a chywirdeb o ran adrodd.

Bydd y broses sicrwydd ansawdd yn hysbysu adborth unigol i fenywod a theuluoedd a'r gwaith o ddatblygu argymhellion mwy generig i'r Bwrdd Iechyd.

4.7 Y TÎM SICRWYDD ANSAWDD

Mae Tîm Sicrwydd Ansawdd hefyd wedi cael ei sefydlu sydd yn cynnwys dwy uwch fydwaig o du allan i'r Bwrdd Iechyd. Rôl y Tîm Sicrwydd Ansawdd yw rhoi cymorth i'r Panel Sicrwydd Ansawdd er mwyn sicrhau cysondeb drwy gydol y broses adolygu, yn ogystal ag enwi unrhyw feysydd ble mae angen mwy o fanylder gan y timau adolygu cyn i'r Panel Sicrwydd Ansawdd eu trafod.

Cyfarfu'r Tîm Sicrwydd Ansawdd am y tro cyntaf ar 16 Mawrth 2020, ac mae'r sgiliau a'r arbenigedd maent yn ei gyfrannu i adolygu allanol eisoes yn dylanwadu'n gadarnhaol ar y rhaglen.

4.8 DIGWYDDIADAU DIFRIFOL AR ÔL HYDREF 2018

Yn ogystal â'r ymarferiad 'edrych yn ôl', mae'r Panel hefyd yn cynnal proses sicrwydd ansawdd mewn perthynas â digwyddiadau difrifol a ddigwyddodd yn y Bwrdd Iechyd ers 1 Hydref 2018. Mae'r Panel wedi cynnal nifer o adolygiadau o'r digwyddiadau hynny ac wedi rhoi argymhellion i'r Bwrdd Iechyd y maent yn cael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd.

Erbyn hyn mae'r broses hon wedi cael ei datblygu ar sail fwy strwythuredig er mwyn cynnwys cyfranogiad yr Arweinydd Newyddenedigol y Panel Sicrwydd Ansawdd a chynrychiolaeth o Lywodraeth Cymru ac Uned Gyflawni'r GIG. Cynhaliwyd yr ymarferiad sicrwydd diweddaraf ar 6 Ebrill 2020.

4.9 HUNANATGYFEIRIADAU

Mae'r Rhaglen ar gyfer Adolygu Clinigol Annibynnol yn cynnwys proses ar gyfer adolygu achosion o hunangyfeirio gan fenywod a theuluoedd. Mae hynny yn seiliedig ar ymrwymiad a wnaed gan y Gweinidog ar yr adeg y cyhoeddodd y trefniadau 'Mesurau Arbennig'.

Wrth i'r broses hunangyfeirio gael ei datblygu, mae wedi dod yn gynyddol amlwg, er y bydd angen adolygu'r holl achosion o hunangyfeirio, na fydd pob un ohonynt angen adolygiad clinigol llawn ac ni fydd angen cynnal pob un yn annibynnol. Oherwydd hynny, bydd yr union fethodoleg adolygu fydd yn cael ei mabwysiadu ym mhob achos yn dibynnu ar natur y pryderon a godwyd a dealltwriaeth o anghenion a dymuniadau'r benywod a'r teuluoedd dan sylw, a bydd hynny yn seiliedig ar ymgynghori unigol.

Boed yr achosion hunangyfeirio unigol yn rhai addas ar gyfer adolygiad clinigol ai peidio, bydd y Panel yn dal i fonitro pob achos unigol er mwyn sicrhau – pan fo modd – ateb boddhaol sy'n rhoi sylw i anghenion y menywod a'u teuluoedd.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu proses ar gyfer rheoli hunanatgyfeiriadau a lofnodwyd yng nghyfarfod ffurfiol IMSOP ym mis Chwefror 2020. Mae'r broses yn dweud yn gwbl glir pa ddigwyddiadau sydd yn cael eu categorio'n rhai hunangyfeirio, ac mae'n egluro sut mae'r wybodaeth honno'n cael ei chroesgyfeirio ag elfennau eraill yn y broses adolygiadau clinigol. Mae llwybr a baratowyd ar gyfer egluro i fenywod a theuluoedd sut mae'r broses hunangyfeirio yn gweithio wedi ei atodi yn 'Atodiad C' ar fformat poster.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal ymarferiad brysbennu yn ystod Mawrth ac Ebrill 2020 er mwyn enwi'r datrysiad mwyaf priodol ar gyfer pob achos unigol o hunangyfeirio. Bydd y Bwrdd Iechyd yn cysylltu â'r holl deuluoedd sydd wedi hunangyfeirio er mwyn deall eu dyheadau a'u cynnwys yn y broses brysbennu.

Erbyn hyn mae'r Bwrdd Iechyd yn adrodd i'r Panel yn fisol, gan amlinellu nifer y benywod a theuluoedd sydd wedi cysylltu, nifer yr achosion sydd wedi eu brysennu a throsolwg o ddeilliant pob achos. Pan gytunir ar adolygiad ffurfiol o ofal gyda benywod a theuluoedd ar ôl cwblhau'r broses brysennu, trafodir pob achos yn unigol mewn cyfarfod ar y cyd rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Panel er mwyn cytuno ar ffordd ymlaen.

Yna bydd y Panel yn monitro'r broses er mwyn sicrhau bod deilliannau priodol yn cael eu cyflawni yn amserol, sydd yn sicrhau bod benywod yn rhan greiddiol o'r broses. Os cytunir bod yr achos angen adolygiad clinigol annibynnol llawn, bydd y Panel yn sicrhau bod hynny yn cael ei adolygu fel rhan o'r categori priodol ynghyd ag adolygiadau edrych yn ôl 2016-2018.

5 YMGYSYLLTU Â MENYWOD A THEULUEDD

Yn ei Adroddiad Cynnydd Chwarterol y Gaeaf 2019, casglodd y Panel bod y Bwrdd lechyd yn gwneud cynnydd da o ran gwella'r ffordd mae'n ymgysylltu â menywod a theuluoedd. Hefyd, roedd yn falch o adrodd bod Aelod Lleyg y Panel, ar ôl iddo chwarae rôl allweddol o ran arwain a chydlynu gweithgareddau yn ystod camau cychwynnol y broses wella, yn gynyddol yn gallu camu'n ôl i rôl ymgynghorol, a bod y Bwrdd lechyd yn gynyddol yn cymryd mwy o berchnogaeth.

Roedd y cynnydd cynnar wedi cael ei gyfuno yn ystod Ionawr, Chwefror a Mawrth 2020, ac mae'r Bwrdd lechyd wedi cymryd mwy o gamau ymlaen ac mae hynny yn amlwg yn dechrau newid natur a naws y berthynas rhwng y bobl sydd yn defnyddio'r gwasanaeth a'r rhai sydd yn ei ddarparu ar hyn o bryd. Mae hynny yn dal yn cael ei adlewyrchu mewn lefelau uchel cyson o adborth cadarnhaol o arolygon PALS ac adborth o ffynonellau allanol.

Erbyn hyn mae'r rhaglen ymgysylltu gychwynnol wedi ei chwblhau, a llwyddwyd i gynnal trydydd digwyddiad ymgysylltu ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ac mae yna gynlluniau amlwg yn ymddangos yn ystod y 12 mis diwethaf. Yn y cyfamser, mae'r rhai sydd yn arwain y rhaglen yn amlwg wedi meithrin hyder a gallu ac yn gynyddol yn dechrau pennu eu hagenda eu hunain wrth symud ymlaen.

Roedd hynny yn benodol amlwg yn y fforymau cyfathrebu a drefnwyd gan y Panel ar gyfer benywod a theuluoedd ynghylch cyhoeddi Adroddiad Cynnydd Chwarterol Gaeaf 2019. Roedd y digwyddiadau wedi eu rheoli yn dda, ac wedi eu trefnu yn sensitif, ac roedd y gofal a'r cydymdeimlad a ddangoswyd gan staff y Bwrdd lechyd ar bob lefel yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan y rhai a'u mynychodd.

Mae yna lawer i'w wneud eto, yn benodol er mwyn sicrhau bod yr hyn a ddysgir o ymgysylltu yn cael ei adlewyrchu yn nyluniad y gwasanaeth a'r ffordd gaiff ei ddarparu, ac mae yna faterion gweddilliol yn bodoli o hyd ynghylch rheoli cwynion hanesyddol, pryderon ac adborth. Hefyd, mae'n rhaid i'r Bwrdd a'r Panel ganfod ffordd effeithiol o fesur effaith ei waith ymgysylltu.

Ond, mae'r gwasanaeth mamolaeth mewn lle gwahanol iawn i ble yr oedd flwyddyn yn ôl o ran y ffordd mae'n ymgysylltu ac yn cyfathrebu â benywod a theuluoedd a'r gymuned ehangach. Mae hynny wedi cael ei ddangos yn eithaf clir y ystod yr wythnosau diwethaf yn y ffordd y mae'r tîm gwasanaethau mamolaeth wedi ymateb i'r sefyllfa COVID-19 ddiweddar, drwy ddarparu negeseuon cydymdeimladol clir ac amserol i fenywod a theuluoedd allai fod yn bryderus.

Roedd hynny hefyd yn amlwg yn ymateb mamau a theuluoedd i agoriad ffurfiol Canolfan Eni Tirion yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ar 9 Mawrth 2020. Ar bob taith wella mae yna ddigwyddiadau symbolaidd sydd yn dangos bod carreg filltir wedi ei chyrraedd; nid yw'n bosibl eu mesur na'u troi yn fetrig perfformiad, ond maent yn darparu gwir deimlad bod pethau yn newid er gwell. Roedd hwn yn un o'r digwyddiadau hynny.

Nid yn unig mae'r cyfleusterau arloesol yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg wedi cael eu dylunio'n bwrpasol o gwmpas anghenion benywod, eu partneriaid a'u teuluoedd, ond hefyd mae'r cysylltiadau cryf sydd wedi cael eu meithrin rhwng staff a defnyddwyr y gwasanaeth yn amlwg. Mae hynny yn gwbl wahanol i'r sefyllfa yr adroddwyd amdani gan y Colegau Brenhinol dros 12 mis yn ôl.

Ers ei chreu ym mis Mawrth 2019, mae Canolfan Eni Tirion wedi dod yn hyb i ferched, babanod a theuluoedd, a daeth nifer sylweddol allan i ymuno â'r staff er mwyn dathlu ei llwyddiant cynnar. Siaradodd rhai yn angerddol am y ffordd y gofaliwyd amdanynt gan y staff, ac roedd yna wir deimlad o falchder a chydberchnogaeth oedd yn galonidd rhyfeddol i'r aelodau Panel hynny oedd wedi cael y fraint o fod yn bresennol.

Mae'r Panel yn cydnabod, mewn termau cymharol, bod Tirion ar hyn o bryd yn rhan fechan ond pwysig o'r gwasanaeth cyffredinol a ddarperir; ond mae'n gweld tystiolaeth o newid cyffelyb mewn agweddau a pherthnasoedd mewn lleoliadau gwasanaeth mamolaeth ledled ardal y Bwrdd Iechyd.

Mae crynodeb manylach o'r datblygiadau allweddol sydd wedi digwydd yn ystod y cyfnod a adolygir yn cael ei nodi yn y paragraffau canlynol, yn ogystal ag asesiad o beth arall sydd i'w wneud o ran ymgysylltu a chyfathrebu.

5.1 CYNLLUNIO, DYLUNIO A CHYFLAWNI STRATEGOL

Mae Grŵp y Prosiect Ymgysylltu â Menywod a Theuluoedd yn parhau i arwain gweithgareddau ymgysylltu a chyfathrebu â menywod a theuluoedd yng nghyswllt gwasanaethau mamolaeth. Mae gan y grŵp gadeirydd cryf ac arloesol ar ffurf Bydwraig Ymgynghorol sydd hefyd yn arwain llif gwaith Ansawdd Profiadau Menywod a Theuluoedd.

Mae gan y Grŵp aelodaeth amlddisgyblaethol cyson sydd yn cynnwys cynrychiolwyr benywod a theuluoedd, obstetregwyr a bydwagedd ymrwymedig iawn yn ogystal ag arweinwyr ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd.

Mae'r dull cydweithredol yma o ymgysylltu yn parhau i dalu ar ei ganfed ac mae hynny wedi bod yn ffactor ysgogol o ran datblygu proses o fireinio'n raddol y tri digwyddiad ymgysylltu cymunedol sydd yn rhan greiddiol o ddull y Bwrdd Iechyd.

5.2 DIGWYDDIADAU YMGYSYLLTU Â'R GYMUNED

Yn dilyn y rhai a gynhaliwyd ym Merthyr Tydfil a Llantrisant yn Nhachwedd 2019, cynhaliwyd y trydydd digwyddiad ymgysylltu cymunedol ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar 25 Chwefror 2020. Roedd yna awyrgylch arbennig o gadarnhaol ac ymlaciol yn y digwyddiad, a hynny yn rhannol oherwydd ei fod wedi ei gynnal yn y ganolfan hamdden leol. Yn ychwanegol i'r rhai a fynychodd yn ôl y bwriad, bu i fenywod a theuluoedd oedd yn ymweld â'r ganolfan hamdden at ddibenion eraill ymuno yn y sgysiau yn y caffi.

Roedd y gymysgedd o staff a sefydliadau oedd yn gweithio mewn partneriaeth ar y diwrnod yn adlewyrchu natur amlddisgyblaethol y digwyddiad; roedd y rhai oedd yn bresennol yn gallu siarad yn anffurfiol gydag obstetregwyr ymgynghorol, bydwagedd ac uwch arweinwyr y Rhaglen Gwella Mamolaeth. Hefyd roedd y tîm ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd yn bresennol ynghyd â chynrychiolwyr o Sands, y Cyngor Iechyd Cymuned a Chaplaniaeth y Bwrdd Iechyd.

Mae rhannu profiadau drwy gyfathrebu wyneb yn wyneb wedi bod yn nodwedd arwyddocaol o raglen ymgysylltu y gwasanaethau mamolaeth, ac erbyn hyn mae'n cael ei ddefnyddio yn fwy eang gan y Bwrdd Iechyd mewn amryw o leoliadau iechyd a gofal.

Hefyd, mae baneri, posterï a chymhorthion gweledol eraill wedi cael eu datblygu er mwyn dangos sut y mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd yn erbyn argymhellion y Colegau Brenhinol. Mae cyfryngau cymdeithasol a deunyddiau cyhoeddusrwydd eraill wedi cael eu defnyddio hefyd, a hynny wedi arwain at fwy o ddiddordeb a mwy o gyfranogiad.

Mae amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu er mwyn caffael mewnwelediad, profiad a meddyliau ynghylch cyfranogiad yn y digwyddiadau wedi cael eu datblygu, a bydd hynny yn werthfawr iawn ar gyfer digwyddiadau ymgysylltu i'r dyfodol ac adnabod a mesur arferion effeithiol.

Yn gryno, mae hwn yn wasanaeth mamolaeth gwahanol iawn i'r un a welodd y Panel am y tro cyntaf 12 mis yn ôl. Erbyn hyn mae'n hyderus o ran ymgysylltu â benywod a theuluoedd sydd yn defnyddio'r gwasanaeth ac mae ganddo amrywiaeth o adnoddau a sgiliau sydd yn galluogi i hynny ddigwydd; bydd hynny yn talu ar ei ganfed i'r gwasanaeth i'r dyfodol.

Mae'r adborth o'r tri digwyddiad datblygu wedi gwella wrth i'r digwyddiadau esblygu ac aeddfedu, ac yn y digwyddiad mwyaf diweddar ym Mhen-y-bont ar Ogwr cafwyd yr adborth mwyaf cadarnhaol hyd yma.

Fel mewn digwyddiadau eraill, defnyddiwyd techneg fapio weledol ddifyr, sy'n creu darlun thematig trawiadol o'r blaenoriaethau a'r negeseuon a glywyd gan y menywod a'r teuluoedd a oedd yn bresennol. Mae'r dechneg yn ysgogi trafodaeth a rhannu profiadau.

Mae myfyrdod gan un o'r merched a gyfranogodd yn dangos pwysigrwydd trafodaethau dwfn, cyfleoedd i rannu profiadau, a chadarnhad bod benywod a theuluoedd yn teimlo bod tîm y Bwrdd Iechyd yn eu gwerthfawrogi ac yn gwrando arnynt, ac mae hynny yn bwysig iawn. Mae hynny yn adlewyrchu newid sylweddol o brofiadau'r teuluoedd hynny a rannodd eu pryderon yn ystod adolygiad y Colegau Brenhinol.

"Rwyf eisiau diolch i chi (i gyd) am eich amser ac am werthfawrogi a gwrando ar fy meddyliau, teimladau a safbwyntiau. Roedd hynny yn help mawr i mi ac fe gododd fy ysbryd. Dyna'r peth gorau yr wyf wedi ei wneud hyd yma yn 2020, sef dod i'r sesiwn heddiw. Diolch eto."

5.3 DEFNYDDIO'R GWERSI A DDYSGWYD O'R DIGWYDDIADAU YMGYSYLLTU

Erbyn hyn mae'r cofnodion gweledol a gynhyrchwyd yn ystod y digwyddiadau ymgysylltu yn cael eu harddangos yn nhri uned mamolaeth y Bwrdd Iechyd, ynghyd â chofnodion gweithredu sydd yn tynnu sylw at y gwelliannau sydd eisoes wedi eu gwneud fel ymateb i'r adborth a ddarparwyd.

Mae'r cofnodion gweledol yn darparu naratif gweledol gwerthfawr o welliant y Bwrdd Iechyd yn erbyn rhai o'r materion allweddol a amlygwyd gan fenywod a theuluoedd yr ymgysylltwyd â nhw yn ystod adolygiad y Colegau Brenhinol, yn cynnwys cyfathrebu gwael, methu â gwrando a diffyg ffocws ar brofiadau benywod. Mae'r diagram isod yn gopi o'r map gweledol o'r ail ddigwyddiad yn Llantrisant.

Ffigwr 3: Cofnodion Gweledol - Digwyddiad Ymgysylltu â'r Gymuned Llantrisant



Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod mai'r cam cyntaf yn unig yw cynnal digwyddiadau ymgysylltu yn y broses o gydgyhyrchu. Nid oes fawr o ddiben gwrando ar fenywod a theuluoedd os nad yw'r hyn sydd ganddynt i'w ddweud yn arwain at newidiadau i'r ffordd y darperir y gwasanaeth. Oherwydd hynny, mae dadansoddiad thematig manwl o'r adborth a dderbyniwyd o'r ddau ddigwyddiad ymgysylltu cyntaf wedi cael ei gynnal, ac mae dadansoddiad o'r trydydd digwyddiad ar y gweill.

Mae'r Panel yn edrych ymlaen at dderbyn yr adroddiad thematig llawn ynghyd â'r strategaeth ymgysylltu a'r cynllun gweithredu fydd yn deillio o'r adroddiad hwnnw.

Mae'n bwysig bod Adroddiad Ymgysylltu Crynodol 2019/20 yn cael ei fwydo'n ôl i'r benywod hynny sydd wedi cyfrannu, ac i'r gymuned ehangach er mwyn dangos sut mae eu cyfraniadau wedi dylanwadu ar newid a gwelliant. Bydd y Panel yn chwilio am dystiolaeth o sut y cyflawnwyd hynny.

Y CAMAU NESAF - Cam 1: Mae'r Panel yn disgwyl i ddadansoddiad thematig o ddeilliant y tri digwyddiad ymgysylltu a gynhaliwyd yn ystod 2019/20 gael ei gyhoeddi, ynghyd â chynlluniau gweithredu manwl fydd yn deillio ohono.

Mae'n galonddid i'r Panel bod yr hyn a ddysgwyd gan y gwasanaethau mamolaeth yn gynnyddol yn dylanwadu ar ddull y Bwrdd lechyd ar lefel sefydliadol. Mae strategaeth ymgysylltu a chyfathrebu corfforaethol wedi cael ei ddrafftio a bydd hynny yn cael ei rhannu â'r Panel erbyn diwedd Mawrth. Mae dull ymgysylltu'r gwasanaeth mamolaeth wedi dylanwadu'n fawr ar hynny.

5.4 MESUR LLWYDDIANT

Yn Adroddiad Cynnydd Chwarterol Gaeaf 2019, amlygodd y Panel bryderon parhaus ynghylch diffyg capasiti a gallu i ddatblygu strategaeth a systemau ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd ar draws y sefydliad. Mae'r Panel yn falch o gydnabod bod y sefydliad yn ystod y tri mis diwethaf wedi dyrannu mwy o gapasiti yn y maes yma ac wedi gwella sgiliau staff mamolaeth presennol, ac mae hynny wedi arwain at gynnydd parhaus. Ond, mae'r oedi o ran penodi arweinydd strategol ar lefel gorfforaethol yn achos pryder.

Gan adeiladu ar y gweri a ddysgwyd yn y digwyddiadau ymgysylltu cymunedol, mae Grŵp Prosiect Profiadau Menywod a Theuluoedd nawr yn datblygu mecanweithiau eraill ar gyfer casglu ac ymateb i straeon benywod, ac mae'n amlinellu lwyddiannau mewn adroddiad rheolaidd i'r Panel.

Mae hynny yn cynnwys y datblygiad canlynol sydd naill ai yn y broses o gael eu cyflawni neu y cynllunnir eu cyflawni yn ystod y cyfnod adrodd nesaf:-

- Mae'r Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion yn cael ei gyflwyno er mwyn casglu profiadau menywod ar y cam cyn geni. Bydd hyn yn galluogi'r Bwrdd lechyd i nodi a datrys problemau neu bryderon yn y ffynhonnell, ac i leddfu pryderon a ddaw i'r amlwg am roi genedigaeth. Bydd dadansoddiad o themâu sydd yn ymddangos, ynghyd â'r materion a godir yn gyson mewn cwynion a phryderon yn hysbysu'r agenda 'My Maternity, My Way' ac yn darparu tystiolaeth ar gyfer gweithredu a gwella.
- Mae taflenni a deunydd hyrwyddo arall ar gyfer 'My Maternity, My Way' wedi cael eu dylunio, ac mae mwy o gymorth yn cael ei gynllunio. Mae rhwydweithio gyda benywod a theuluoedd wedi parhau ac anogir aelodaeth ychwanegol;
- Mae trafodaethau yn cael eu cynnal ynghylch y ffordd y gall y teuluoedd hynny sydd wedi bod yn rhan o ddull cydgynhyrchu'r Panel er mwyn gwella ymgysylltu a chyfathrebu weithio gyda'r Bwrdd lechyd ar faterion megis cymorth profedigaeth cydlynol a ffordd effeithiol o ddelio â chwynion a phryderon;
- Mae straeon benywod wedi cael eu rhannu â chlinigwyr yn y tri Diwrnod Llywodraethu diwethaf, ac mae hynny wedi arwain at ddyrannu camau gweithredu i fforymau perthnasol;

- Dechreuodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar waith ym mis Mawrth, yn seiliedig ar egwyddorion cydgynhyrchu, er mwyn archwilio un o'r materion allweddol sydd yn ymddangos o'r digwyddiadau ymgysylltu (cynnwys partneriaid yn ystod y cyfnod esgor a darparu lle penodol ar gyfer teuluoedd);
- Hefyd, mae aelodau'r tîm yn cael hyfforddiant ar Gyd-ddylunio Seiliedig ar Brofiad er mwyn gweithio gydag aelodau teulu ar ddylunio proses gydylmeimladol ac effeithiol o ddelio â chwynion a phryderon.

Mae caffael adnodd safonol, a ddefnyddir yn eang, i gael adborth ystyrlon ac wedi'i drefnu ar brofiadau o ofal mamolaeth yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Mae'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru a phartneriaid academiaidd yn ei ddatblygu mewn perthynas â Mesurau Adrodd ar Ddeilliannau (PROMS) a Mesurau Adrodd ar Brofiadau Cleifion (PREMS) o ddiddordeb sylweddol, ac mae'r Bwrdd Iechyd a'r Panel yn monitro'r datblygiad yma yn fanwl.

Y CAMAU NESAF - Cam 2: Mae'r Panel yn edrych ymlaen at gyhoeddi Cynllun Ymgysylltu'r Gwasanaethau Mamolaeth ar gyfer 2020/21, ac yn benodol at lansio'r adnodd monitro adborth sydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

5.5 CWYNION, PRYDERON A CHEFNOGAETH I DEULUOEDD

Yn ystod digwyddiadau ymgysylltu a chyfathrebu, a thrwy gyswllt uniongyrchol â'r Panel, mae menywod a theuluoedd yn parhau i fynegi eu bod yn anfodlon â'r ymateb maen nhw wedi'i gael i gwynion, pryderon ac ymchwiliadau hirdymor. Nid yw'r trefniadau presennol yn cael eu cydlynu'n dda bob amser ac ni chadwir at addewidion a therfynau amser bob amser.

Yn ei adroddiad diwethaf roedd Bwrdd Iechyd wedi datblygu cynllun i fynd i'r afael â'r materion hyn ar lefel drefniadaethol, ac mae capasiti ychwanegol wedi cael ei nodi – i ddelio â'r casgliad o hen gwynion sydd wedi cronni ynghylch y gwasanaethau mamolaeth. Roedd y Panel yn credu ei fod yn ymateb priodol i'r mater, a bydd adroddiadau chwarterol dilynol yn ymrwymo i ganolbwyntio ar y ffordd mae'r cynllun yn cael ei gyflwyno.

Yn ystod y tri mis diwethaf, mae cynnydd yn sicr wedi cael ei wneud o ran ymateb i atgyfeiriadau newydd yn unol ag amserlenni mwy priodol. Mae gwaith ailstrwythuro yn cael ei wneud hefyd, er mwyn i staff allu ymateb i bryderon ar lefel y gyfarwyddiaeth mewn achosion priodol, yn hytrach nag aros am gymeradwyaeth gorfforaethol sy'n achosi oedi. Ond, mae heriau sylweddol yn bodoli o hyd o ran mynd i'r afael â'r casgliad o hen gwynion sydd wedi cronni ac mae'r Panel wedi gofyn i'r uwch dîm rheoli adolygu'r ffordd y mae'r cynllun yn mynd i'r afael â chysondeb, cydlynu ac amserlenni ymatebion.

Er gwaetha'r cynnydd sydd wedi cael ei wneud, mae'r Panel yn teimlo bod angen pwysleisio, unwaith eto, bod raid cyflawni'r Cynllun Gwellu Cwynion a Phryderon yn gyflym ac effeithiol os yw'n dymuno adennill ymddiriedaeth a hyder benywod a theuluoedd yr effeithiwyd arnynt gan eu profiadau yn y gorffennol.

Er nad yw hynny yn rhan o gylch gorchwyl uniongyrchol y Panel, mae'n rhwystyr rhag cynnydd a bydd y Panel yn parhau i fonitro cynnydd yn erbyn y cynllun corfforaethol a sut y cymhwysir y cynllun ar lefel gwasanaethau mamolaeth. Mae'r Panel hefyd wedi annog y Bwrdd lechyd i gynnwys metrigau perfformiad penodol yn yr IPAAF er mwyn sicrhau y gellir monitro deilliannau yn rheolaidd.

Y CAMAU NESAF - Cam 3: Ar ôl i hynny gael ei gymeradwyo, bydd y Panel yn disgwyl y bydd y Cynllun Gwella Cwynion a Phryderon yn rhan reolaidd o adroddiadau'r Bwrdd lechyd ar berfformiad, a bydd eisiau gweld metrigau perfformiad perthnasol yn cael eu cynnwys yng nghamau nesaf y gwaith o ddatblygu'r IPAAF.

5.6 CYDGYNHYRCHU Â MENYWOD A THEULUEDD

Ar ddiwedd 2019 clywodd y Panel gan fenywod a theuluoedd oedd wedi mynychu ei ddiweddariadau rheolaidd, nad oedd y fformat ar gyfer rhannu gwybodaeth a'r cyfleoedd yr oedd hynny yn ei roi i'r Panel glywed eu profiadau, yn bodloni anghenion pawb oedd yn cyfranogi.

O ganlyniad i hynny, sefydlodd y Panel ei Grŵp Gorchwyl a Gwaith Ymgysylltu ei hun er mwyn archwilio'r ffordd orau o ymgysylltu â chyfathrebu â benywod a theuluoedd ynghylch gwaith y Panel. Ers hynny mae'r grŵp wedi esblygu'n sylweddol ac erbyn hyn mae'n fforwm cydgynhyrchu gwirioneddol ble mae'r benywod a'r teuluoedd yn dod at ei gilydd mewn partneriaeth gyfartal â'r Panel, y Bwrdd lechyd a chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru er mwyn datblygu amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu sydd yn bodloni gwahanol anghenion a disgwyliadau.

Mae eu syniadau a'u safbwyntiau a fynegir yn rymus nid yn unig yn cyfrannu'n sylweddol at arddull a siâp proses gyfathrebu ac ymgysylltu'r Panel, ond maent hefyd yn dylanwadu'n fawr ar waith y Bwrdd lechyd a'u dealltwriaeth o anghenion y rhai sydd yn cyfranogi. Er enghraifft:-

- dywedodd benywod a theuluoedd wrthym bod dull briffio'r Panel yn rhy ffurfiol a'u bod eisiau sesiynau 'galw heibio' ar adegau gwahanol ac mewn lleoliadau gwahanol fel y gallai mwy o bobl eu mynychu;
- dylid cael cyfleoedd i fenywod a theuluoedd symud o gwmpas yr ystafell i wahanol ardaloedd gyda gwybodaeth glir ynghylch beth sydd ar gael a gyda phwy y gallent siarad;
- roeddent yn pwysleisio bod gan fenywod a theuluoedd wahanol anghenion a'u bod ar wahanol gamau ar eu taith yn dilyn profiadau beichiogrwydd a geni;
- awgrymwyd ganddynt y dylid cynnig cyfleoedd i gynnal sgwrsiau un i un, a dylid brysennu wrth i fenywod a theuluoedd gyrraedd er mwyn sicrhau eu bod yn cael cymorth i siarad â'r *"person priodol am y mater priodol"*;
- roeddent eisiau i wybodaeth am faterion cymhleth megis y broses adolygu clinigol a'r broses hunangyfeirio fod yn glir, a hynny mewn iaith annhechnegol pryd bynnag fo'n bosibl, ac wedi ei gyflwyno yn weledol;

- roeddent eisiau gwybodaeth weledol glir gan y Bwrdd Iechyd am welliant a newid yn y gwasanaethau mamolaeth, yn ogystal â gwybodaeth glir er mwyn dangos beth oedd yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn adolygiad y Colegau Brenhinol, megis cymorth mewn profedigaeth, delio â chwynion, ac ymgysylltu.

Mae'r holl awgrymiadau wedi cael eu rhoi ar waith, ac ym mis Chwefror cynhaliwyd cyfarfod er mwyn gwerthuso'r fformat diwygiedig y dilyn y sesiynau gyda menywod a theuluoedd ym Merthyr a Llantrisant.

Dywedodd un o gynrychiolwyr benywod a theuluoedd bod y mapiau gweledol, y poster a'r baneri, y canllawiau a'r llwybrau gweledol yn *"gan gwaith gwell"*, bod yr awyrgylch yn *"groesawgar, mwy hamddenol ac ymlaciol"* a bod benywod a theuluoedd yn gallu *"gwneud y cysylltiad priodol - pwy oedd orau i ddelio â'r mater"* ac roedd yn *"hawdd siarad am bethau"*.

Roedd y cynrychiolwyr benywod a theuluoedd wedi siarad ag eraill a fynychodd, ac roedd adborth anffurfiol yn cefnogi'r safbwynt bod y fformat diwygiedig yn fwy effeithiol.

Roeddent yn *"teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt"* gan ddweud ei bod yn bwysig bod y Gweinidog yn rhan o'r sesiwn a'i fod wedi ymuno â theuluoedd mewn sgysrsiau. Roeddent yn teimlo ei fod wedi gwrando ar eu profiadau a'u safbwyntiau ac wedi eu deall, yn benodol pan siaradodd yn ystod sesiwn yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y pethau yr oeddent wedi ei ddweud yn *"cael eu hidlo'n ôl"*.

Mae cynrychiolwyr y benywod a theuluoedd wedi bod yn ddylanwadol iawn hefyd o ran siapio sut maent eisiau i'w straeon ddylanwadu ar y broses adolygu clinigol, a hefyd o ran y ffordd y maent eisiau cael cymorth yn annibynnol. Maes o law, bydd angen gwerthuso sut mae hyn wedi gweithio i'r grŵp ehangach sydd wedi cyfranogi at y broses adolygu clinigol ac a gefnogwyd i adrodd eu straeon.

Mae'r cynrychiolwyr benywod a theuluoedd hefyd wedi bod yn glir ynghylch eu hangen am gymorth gan sefydliadau annibynnol megis SANDS, ynghyd â'r gwasanaethau profedigaeth a chwnsela yn ystod y sesiynau. Hefyd mae ganddynt syniadau pendant ynglŷn â'r ffordd ygallant ddefnyddio eu profiad o brofedigaeth er mwyn ail siapio a chydlynu'r amrywiaeth o gymorth a gwasanaethau ar gyfer y rhai sydd wedi dioddef colled, yn arbennig yn ystod cyfnod cynnar profedigaeth.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gobeithio gweithio gyda benywod a theuluoedd er mwyn adolygu'r gwahanol fodolau cymorth cydlynol hynny, ac edrych ar eu hawgrymiadau ar gyfer datblygu rolau Cyswllt Teuluol ar gyfer teuluoedd newydd sydd yn mynd drwy brofedigaeth.

Mae parhad y dull cydgynhyrchu yn bwysig, ac mae'r benywod a theuluoedd wedi awgrymu y gallent gysylltu gydag eraill sydd yn cyfranogi drwy rannu eu profiad personol o fod yn rhan o sesiynau diweddarau'r Panel mewn cyfweiliad ar gyfer cylchlythyr 'benywod a theuluoedd'. Maent eisiau myfyrio ar *"beth mae cael rhywun i wrando arnoch yn ei olygu - nid gwrando yn unig, ond deall hefyd"* a *"sut mae'r Panel yn gwneud pethau yn wahanol o ganlyniad i'n safbwyntiau"*.

O ganlyniad i'r adborth gan gynrychiolwyr benywod a theuluoedd yn y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, bydd sesiynau'r Panel yn y dyfodol gyda benywod a theuluoedd yn cael eu disgrifio fel 'Fforwm' sydd yn rhoi "*cyfle i siarad*" yn ogystal â chyfle i wrando.

Wrth i sefyllfa COVID-19 ddatblygu, mae mwy o angen am wybodaeth ac mae'n bwysicach nag erioed bod lleisiau benywod a theuluoedd yn cael eu clywed. Mae dulliau cyfathrebu arloesol, yn cynnwys opsiynau ar y we, yn cael eu harchwilio gyda'r benywod a'r teuluoedd dan sylw.

5.7 YMGYSYLLTU STAFF

Mae'r Panel wedi parhau i ymgysylltu mwy â'r staff fel rhan o'i ymweliadau sicrwydd misol ag unedau mamolaeth ar draws ardal y Bwrdd Iechyd. Ond roedd yn anodd cael niferoedd mawr o staff at ei gilydd oherwydd ymrwymïadau gwaith. Oherwydd hynny, nid yw lefel yr ymgysylltu wedi bod mor sylweddol ag yr oedd y Panel yn ei obeithio.

Mae hynny wedi golygu bod y Panel wedi gorfod archwilio amrywiaeth o ddulliau newydd er mwyn ymgysylltu mewn trafodaethau ystyrlon gyda staff ar bob lefel, o gefndiroedd meddygol, bydwreigiaeth ac eraill, a ledled safleoedd y tri ysbyty.

Yn hytrach na bod staff yn dod i gyfarfodydd y Panel, y bwriad oedd y byddai'r Panel yn ymuno â staff mewn fforymau rheolaidd yn cynnwys Dyddiau Llywodraethu a chyfarfodydd clinigol. Ond, mae'n amlwg na fydd hynny yn opsiwn yn y tymor byr o ystyried sefyllfa COVID-19. Fel dewis arall, mae'r Panel ar frys yn archwilio atebion technolegol posibl yn cynnwys defnyddio cynadledda fideo, gweminarau a blogio byw.

Mae'n benodol bwysig bod gan y Panel ffordd effeithiol o driongli'r dystiolaeth y mae'n ei chasglu o ffynonellau eraill gyda safbwyntiau a barn staff. Ar hyn o bryd nid yw hynny wedi digwydd i'r graddau sydd ei angen, a chyn belled â bod y sefyllfa bresennol yn ei ganiatáu, bydd hynny yn ffocws penodol i'r Panel yn ystod y misoedd sydd i ddod.

6 Y FFRAMWAITH SICRWYDD A'R MATRICS AEDDFEDRWYDD

Yn Adroddiad Cynnydd Chwarterol Hydref 2019, eglurodd y Panel ei fwriad i ddefnyddio Fframwaith Integredig ar gyfer Asesu Perfformiad a Sicrwydd (IPAAF), sy'n seiliedig ar dystiolaeth, fel sail i'r broses o adrodd yn ôl i'r Gweinidog yn y dyfodol.

Mae fframwaith IPAAF wedi cael ei amlinellu ar ffurf sgematig yn '*Atodiad E*', ac mae eglurhad manylach o'r fframwaith ar gael yn Adran 6 adroddiad Hydref 2019. Nid yw'n fwriad gan y Panel i ailadrodd y wybodaeth honno yma, dim ond yn gryno.

Mae'r Panel a'r Bwrdd Iechyd yn gwbl rwymedig i fodel y Fframwaith Integredig ar gyfer Asesu Perfformiad a Sicrwydd (IPAAF). Mae'r IPAAF yn elfen bwysig o'r broses drosolwg oherwydd bydd yn galluogi i welliannau perfformiad gael eu monitro a'u hasesu yn erbyn matrices aeddfedrwydd, ac i adrodd arnynt yn wrthrychol, ar sail tystiolaeth a deilliannau. Mewn gwirionedd mae'r Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu dull cyffelyb o fonitro ac asesu perfformiad ar gyfer ei Gynllun Datblygu Corfforaethol ehangach.

Bydd yr IPAAF hefyd, yn yr hirdymor, yn darparu ffordd i'r Bwrdd Iechyd allu cael y sicrwydd y mae ei angen bod y gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol y mae'n eu darparu yn ddiogel ac effeithiol, yn cael eu rheoli a'u harwain yn dda gyda ffocws ar brofiad menywod a theuluoedd y maent yn gofalu amdanynt. Oherwydd hynny, mae'n fuddsoddiad da o ran amser ac egni, a bydd, os caiff ei ddatblygu'n llawn, yn creu gwaddol fydd yn ymestyn y tu hwnt i'r broses drosolwg.

6.1 DATBLYGIADAU YN YSTOD Y CYFNOD ADRODD PRESENNOL

Yn adroddiad y Panel diwethaf yn Ionawr 2020, mynegodd beth rhwystredigaeth ynghylch cyflymder y gwaith o ddatblygu'r IPAAF.

Ym mis Ionawr, daethpwyd ag adnoddau ychwanegol i'r Tîm Gwella Mamolaeth a bu newid yn y strwythur a gynyddodd gapasiti ac a roddodd fwy o ffocws ar feysydd allweddol. O ganlyniad i hynny, mae'r Cyfarwyddwr Gwella Mamolaeth wedi gallu canolbwyntio mwy o amser ac egni ar faterion datblygiadol, ac er clod iddi, mae gwaith sylweddol wedi ei gwblhau mewn amser cymharol fyr. Arweiniodd hynny at gynnal gweithdy ar 9 Mawrth 2020 ble cytunwyd yn gyffredinol ar:-

- y metrigau perfformiad fydd yn cael eu defnyddio er mwyn poblogi tri maes perfformiad yr IPAAF;
- y fethodoleg fydd yn cael ei defnyddio er mwyn cynnal asesiadau rhesymegol yn erbyn yr amrywiol lefelau sydd yn rhan o'r Matrics Aeddfedrwydd;
- sut y dylid datblygu mwy ar yr IPAAF wrth symud ymlaen, ac yn benodol pa fetrigau ychwanegol fydd angen eu datblygu.


Mynychwyd y gweithdy gan gynrychiolwyr Rhwydwaith Mamolaeth a Newyddenedigol Cymru Gyfan sydd yn datblygu'r fframwaith perfformiad fydd yn rhan o Weledigaeth Mamolaeth Cymru Gyfan.

Bydd hynny yn helpu i sicrhau cysondeb o ran dull ac yn y pen draw yn sicrhau y gellir cymharu perfformiad y Bwrdd Iechyd yn uniongyrchol gyda Byrddau Iechyd yng Nghymru pryd a ble fo hynny'n briodol.

Er y bydd angen mireinio ac addasu'r IPAAF yn raddol yn ystod y misoedd nesaf, mae hynny yn cynrychioli cynnydd da, ac mae'r Panel yn fodlon bod fframwaith asesu perfformiad a sicrwydd ymarferol wedi ei sefydlu.

Mae crynodeb o'r metrigau perfformiad y cytunwyd arnynt ym mhob un o'r tri maes perfformiad wedi eu nodi isod. Mae fersiwn fwy o'r dogfennau wedi ei chynnwys yn 'Atodiad F' er mwyn gallu cyfeirio'n haws.

Ffigwr 4: Metrigau Perfformiad IPAAF yn ôl Maes



Mae gwybodaeth am berfformiad, sydd yn dyddio'n ôl i Ebrill 2019 wedi cael ei choladu ac mae siartiau yn cael eu cynhyrchu. Mae hynny yn cefnogi fframweithiau rheoli perfformiad y Bwrdd Iechyd ynghyd â'r broses monitro perfformiad wythnosol gaiff ei rheoli gan Lywodraeth Cymru ac a fynychir gan Reolwr Busnes y Panel.

6.2 SEFYDLU TROTHWYON A THARGEDAU PERFFORMIAD

Mae'r wybodaeth am berfformiad a flaenoriaethir y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei chasglu yn cael ei defnyddio'n gynyddol i fonitro tueddiadau dros gyfnod o amser, a bydd yn galluogi mireinio mwy ar drothwyon neu dargedau perfformiad pan fo'r rhai hynny yn ychwanegu gwerth.

Ond, ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymwrthod â'r demtiaswn i bennu targedau nes y cynhelir mwy o ddadansoddi er mwyn deall y deiliant y dymunir ei gyflawni, a beth sydd yn cynrychioli mesur ystyrion o welliant.

Mae hynny yn arbennig o wir mewn meysydd megis rhoi'r gorau i ysmegu a phryso'r esgor ble gallai gwelliannau diriaethol gymryd blynyddoedd i'w cyflawni yn hytrach na misoedd.

Mae'r Panel yn cefnogi'r dull yma. Mae yna berygl y gallai pennu targedau mympwyol, heb ddeall y deiliannau a fwriedir yn iawn, fod yn rhwystrol a gall arwain at ymddygiadau gwrthnysig sydd yn effeithio ar ddiogelwch yn hytrach na'i wella, ac yn effeithio ar brofiadau benywod a theuluoedd yn hytrach na'i wella.

Fel cam cyntaf, mae'r Bwrdd Iechyd wedi dadansoddi gwybodaeth a gynhyrchwyd ar lefel genedlaethol drwy arolygon goruchwyllo cenedlaethol MMBRACE a NMPA, ac mae wedi enwi'r meysydd hynny ble mae'n ymddangos bod deiliannau'r Bwrdd Iechyd y tu allan i'r ystod disgwylidig. Bydd pennu terfynau uchaf ac isaf ar gyfer perfformiad disgwylidig dros gyfnod o amser yn annog dull systematig o wella parhaus. Bydd hefyd yn helpu i ddeall a lleihau amrywiadau diangen ac yn gwella diogelwch ac effeithiolrwydd gofal.

Mae yna rai heriau yn gysylltiedig â hynny oherwydd bod y setiau data goruchwyllo cenedlaethol yn hanesyddol, a gall y wybodaeth erbyn hyn fod yn gymaint â phedair blynedd oed. Mae dadansoddi hefyd yn gymhleth oherwydd bod y gwasanaeth wedi cael ei ail ffurfweddu ers i'r data gael ei gasglu.

Er eu cyfyngiadau yn yr amgylchedd presennol, gellir edrych ar y setiau data cenedlaethol yng nghyd-destun gwybodaeth o ffynonellau eraill (meintiol, ansoddol ac anffurfiol). Yn seiliedig ar hynny, mae'r Bwrdd Iechyd wedi enwi nifer o feysydd ble mae angen mwy o ddadansoddi er mwyn penderfynu a oes angen gwella'r amgylchedd presennol, ac os oes, a allai trothwyon neu dargedau perfformiad fod yn fuddiol o ran cyflawni'r gwelliant hwnnw. Mae'r meysydd yr ymchwili'r iddynt ar hyn o bryd yn cynnwys, er enghraifft:-

- cyfraddau prysuro'r esgor;
- cyfraddau toriad cesaraidd;
- genedigaeth offerol;
- gwaedlif obstetreg;
- aildderbyn mamolaeth heb ei gynllunio dros gyfnod o 42 diwrnod.

Sefydlwyd dau grŵp Gorchwyl a Gorffen er mwyn bwrw ymlaen â hyn tra bod gwaith arall yn cael ei wneud gan grwpiau arbenigol sydd yn rhan o'r fframwaith llywodraethu clinigol. Disgwylir y bydd mwy o wybodaeth am hyn yn cael ei darparu yn adroddiad cynnydd nesaf y Panel, yn ddibynnol wrth gwrs ar effaith yr ymateb i COVID-19.

6.3 CYMHWYSO'R IPAAF

Yn ystod y tri mis diwethaf, mae'r Matrics Aeddfedrwydd, sydd yn ategu'r IPAAF, wedi cael ei ddatblygu ymhellach ynghyd â datblygu fframwaith perfformiad corfforaethol y Bwrdd Iechyd, sydd hefyd yn defnyddio kodel y Matrics Aeddfedrwydd fel sail ar gyfer asesu ac adrodd ar berfformiad.


Mae fersiwn gyfredol y Matrics Aeddfedrwydd Gwella Mamolaeth wedi ei atodi yn 'Atodiad G'.

Mae'r Matrics Aeddfedrwydd yn disgrifio pum lefel o gynnydd gan ddefnyddio cyfres o ddisgrifyddion naratif, fel hyn:-

- **Sylfaenol** (Wedi derbyn yr egwyddorion, ac wedi ymrwymo i weithredu)
- **Cynnydd Cynnar** (Tystiolaeth o ddatblygiadau a chynnydd cynnar)
- **Canlyniadau** (Wedi cyflawni canlyniadau a cherrig milltir cychwynnol)
- **Datblygiad** (Sicrhau canlyniadau'n gyson)
- **Esiampl** (Eraill yn dysgu o'n llwyddiannau)

Mae disgrifyddion ar wahân wedi cael eu datblygu ar gyfer tri maes perfformiad yr IPAAF (Gofal Diogel ac Effeithiol, Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth ac Ansawdd Profiadau Benywod a Theuluoedd). Mae maes Ansawdd Profiadau Benywod a Theuluoedd yn cael ei ddangos isod fel esiampl.

Ffigwr 5: Enghraifft o Matrics Aeddfedrwydd



Un datblygiad pwysig sydd wedi digwydd yn ystod y tri mis diwethaf yw bod y Bwrdd Iechyd erbyn hyn wedi dogfennu'r broses IPAAF ac wedi amlinellu'r fethodoleg fydd yn darparu sail ar gyfer asesu lefelau cynnydd.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyfeirio at y fethodoleg yma fel 'fframwaith asesu'. Mewn modelau asesu eraill, cyfeirir at hyn ar brydiau fel 'fframwaith barnu'. Mae'r ddau beth yn union yr un fath yn ei hanfod; dyma'r broses a ddefnyddir ar gyfer 'triongli' amrywiaeth o wybodaeth o nifer o ffynonellau er mwyn darparu dealltwriaeth gynhwysfawr o berfformiad a gwelliant dros gyfnod o amser.

Yn hytrach na dim ond dibynnu ar fesurau meintiol traddodiadol yn unig, mae'r adnodd asesu sydd yn tanategu'r fframwaith wedi ei ddylunio er mwyn creu 'darlun cyfoethog' o berfformiad sefydliad yn seiliedig ar y cydadweithio rhwng pedair elfen, sef:-




- Mesurau (metrigau perfformiad ansoddol a meintiol yn yr IPAAF);
- Adolygiadau Mewnol Rhagweithiol (megis archwiliadau clinigol neu weithgaredd gwella ansawdd);
- Adborth (o ffynonellau ffurfiol ac anffurfiol);
- Cynnydd (yn yr achos yma, cyflawni yn erbyn y Rhaglen Gwella Mamolaeth).

Wrth i fframweithiau llywodraethu'r gwasanaeth mamolaeth aeddfedu mwy a chael eu halinio â fframwaith perfformiad y Bwrdd Iechyd, y bwriad yw y bydd gwaith y Rhaglen Gwella Mamolaeth yn symud o dîm penodol i'r gwasanaeth mamolaeth. Bydd adrodd ar reolaeth yn cael ei wneud y gynyddol drwy brosesau busnes arferol y Bwrdd Iechyd yn hytrach nag i Fwrdd Gwella Mamolaeth penodol, wrth i newid a gwelliant cynaliadwy gael ei ymgorffori mewn arferion gweithredol arferol.

6.4 ASESU PRESENNOL YN ERBYN Y MATRICS AEDDFEDRWYDD

Arwyddocâd y gwaith datblygu sydd wedi cael ei wneud yn ystod y tri mis diwethaf yw bod y Bwrdd Iechyd, am y tro cyntaf, yn gallu hunanasesu yn ffurfiol yn erbyn y Matrics Aeddfedrwydd, ac mae wedi casglu bod y sefyllfa bresennol ym mhob un o'r tri maes fel a ganlyn:-

Ffigwr 6: Asesiad Aeddfedrwydd - 31 Mawrth 2020

	LEFEL AEDDFEDRWYDD				
	Elfennol	Cynnydd Cynnar	Canlyniadau	Aeddfedrwydd	Enghreifftiol
Gofal Diogel ac Effeithiol					
Ansawdd Profiadau Menywod a Theuluoedd					
Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth					

Mae'r Panel wedi adolygu sail resymegol y Bwrdd Iechyd ar gyfer asesu ac mae'n cytuno â'r casgliadau, h.y. bod y Bwrdd Iechyd erbyn hyn yn gwneud 'Cynnydd Cynnar' ac yn symud tuag at 'Ganlyniadau' ym mhob un o'r tri maes perfformiad.

6.5 DATBLYGU'R IPAAF – Y CAMAU NESAF

O ystyried y cynnydd sydd wedi cael ei wneud yn ystod Ionawr, Chwefror a Mawrth 2020, mae'r Panel yn credu bod yr IPAAF erbyn hyn yn darparu sail cynnar ar gyfer fframwaith asesu a sicrwydd perfformiad ymarferol sydd yn galluogi darparu asesu cynnydd dros gyfnod o amser i'r Gweinidog yn wrthrychol ac yn seiliedig ar dystiolaeth.

Ond, mae angen gwneud mwy o waith datblygu er mwyn sicrhau bod y fframwaith mor ystyrlon a dibynadwy ag y gall fod.

Mae'r meysydd hynny sydd angen eu datblygu fwy wedi cael eu henwi mewn amrywiol fannau yn y paragraffau blaenorol, ac yn hytrach na'u hailadrodd, maent wedi eu cynnwys yn y camau nesaf isod.

Bydd y Panel yn gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i fwrw ymlaen gyda'r datblygiadau yma, yn ddibynnol wrth gwrs ar y cyfyngiadau amlwg sydd yn bodoli yn yr amgylchedd gweithredu sydd ohoni.

Y CAMAU NESAF - Cam 4: Mae angen gwneud mwy o waith er mwyn cyfuno'r cynnydd sydd wedi cael ei wneud o ran datblygu metrigau ar gyfer yr IPAAF, yn arbennig o ran (i) enwi trothwyon neu dargedau perfformiad pan fo hynny'n briodol, (ii) ategu meysydd pan fo'r metrigau yn gyfyngedig (yn arbennig Profiadau Menywod a Theuluoedd) a (iii) sicrhau alinio parhaus â'r fframwaith perfformiad Cymru gyfan ymddangosol.

Un maes ychwanegol ble mae angen sylw penodol yw o ran datblygu'r fethodoleg asesu sydd yn ategu'r Matrics Aeddfedrwydd.

Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd Iechyd wedi asesu ei fod yn gwneud 'Cynnydd Cynnar' ym mhob un o'r tri maes perfformiad, ac yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd yn yr adroddiad yma, mae hynny yn amlwg i raddau helaeth. Oherwydd hynny, nid oedd yn anodd i'r Panel wirio hunanasesiad y Bwrdd Iechyd yn wrthrychol.

Yr hyn sydd hefyd yn amlwg yw bod yna gynnydd cyson yn y tri maes, ond yn arbennig ym meysydd Gofal Diogel ac Effeithiol ac Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth, tuag at y cam 'Canlyniadau'. Ond, bydd angen dadansoddi mwy er mwyn barnu a fodlonwyd y meini prawf sydd yn cyfiawnhau'r asesiad hwnnw. Bydd yn anodd iawn penderfynu a yw'r Bwrdd Iechyd yn cyflawni canlyniadau neu a yw wedi cyrraedd ei gerrig milltir cychwynnol, os nad yw'n glir o'r dechrau pa ganlyniadau a cherrig milltir a bennwyd.

Mae'r disgrifyddion yn y matrices yn fuddiol, ond er mwyn bod yn wirioneddol ystyrlon, byddant angen cysylltiad cryf â'r metrigau perfformiad yn yr IPAAF a'r cerrig milltir a'r cyflawniadau yn y Cynllun Gwella Mamolaeth. Bydd hynny yr un mor gymwys, os nad yn fwy cymwys, i lefelau 'Aeddfedrwydd' ac 'Enghreifftiol' y matrices.


Gan ddisgwyl y bydd angen gwneud penderfyniad yn y dyfodol agos ynghylch cynnydd yn y Matrics Aeddfedrwydd drwyddo draw o 'Gynnydd Cynnar' i 'Ganlyniadau', mae'r Panel wedi gofyn i'r Bwrdd lechyd enwi pa ddangosyddion allweddol (yn cynnwys metrigau perfformiad meintiol ac ansoddol, ffactorau sefyllfaol ac adborth ffurfiol ac anffurfiol) a pha rai o gyflawniadau'r MIP fydd yn cael eu defnyddio (i) i wneud yr asesiad hwnnw a (ii) er mwyn darparu'r sicrwydd angenrheidiol bod yr asesiad yn ddilys.

Y CAMAU NESAF - Cam 5: Mae angen gwneud mwy o waith datblygu er mwyn enwi camau seiliedig ar ddeilliannau fydd yn galluogi cynnal asesiad gwrthrychol ynghylch beth, ym mhob un o'r meysydd perfformiad, sydd yn gyfystyr â chyflawni elfennau 'Canlyniadau', 'Aeddfedrwydd' ac 'Enghreifftiol' yn y Matrics Aeddfedrwydd.

7 YMATEB Y BWRDD IECHYD

Cafodd ymateb y Bwrdd Iechyd i adolygiad y Colegau Brenhinol ei archwilio'n fanwl yn adroddiad blaenorol y Panel, ac nid yw hynny yn cael ei ailadrodd yma. Ond er mwyn atgoffa'n sydyn, mae'r diagram isod yn egluro'r fframwaith sydd wedi ei sefydlu er mwyn rheoli'r broses wella.

Ffigwr 7: Strwythur y Rhaglen Gwella Mamolaeth



7.1 DATBLYGIADAU YN YSTOD Y CYFNOD ADRODD PRESENNOL

Yn ystod y tri mis diwethaf mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i weithio'n adeiladol gyda'r Panel er mwyn bwrw ymlaen â'r Rhaglen Gwella Mamolaeth (MIP).

Er gwaetha'r holl heriau eraill sydd yn wynebu'r sefydliad ar hyn o bryd, mae yna wir deimlad o berchnogaeth o hyd ac ymrwymiad ar lefel y Cadeirydd, y Prif Weithredwr a'r Bwrdd. Mae'r SRO yn parhau i weithio'n adeiladol gyda'r Panel mewn awyrgylch o gydgefnogaeth ond awyrgylch o herio hefyd.

Mae'r fframwaith gwella a sefydlwyd drwy'r Bwrdd Gwella Mamolaeth (MIB), y Tîm Gwella Mamolaeth (MIT) a'r tri Bwrdd Prosiect yn parhau i esblygu, ac yn amlach na pheidio mae'n parhau i weithio'n gynyddol dda.

Roedd yna broblemau capasiti yn y MIT cyn Nadolig 2019, ac roedd hynny yn effeithio ar gyflymder y cynnydd. Ond, aeth y Bwrdd Iechyd i'r afael â'r materion yn gyflym a chadarnhaol drwy ailstrwythuro'r MIT a chyflwyno mwy o gapasiti, yn benodol er mwyn cefnogi'r Rhaglen Adolygu Clinigol, a'r broses olygu sydd yn ategu hynny.

Ers diwedd Ionawr, mae'r MIT wedi bod yn gweithio gyda chapasiti llawn bron, ac mae hynny yn amlwg wedi gwella cyflymder ac effeithlonrwydd gweinyddol ac wedi rhyddhau capasiti'r Cyfarwyddwr Gwella Mamolaeth (MID) er mwyn canolbwyntio ar faterion datblygiadol. Mae hynny wedi galluogi bwrw ymlaen gyda nifer o ddarnau o waith pwysig yn ystod y chwarter, sydd yn cynnwys:-

- cytuno a llofnodi'r broses hunangyfeirio;
- ailddatblygu cronfa ddata benywod a theuluoedd yn y system Datix;
- datblygu mwy ar yr IPAAF;
- diweddarau'r Cynllun Gwella Mamolaeth;
- cyflwyno tystiolaeth i'r Panel yn fwy amserol a chywir;
- cyflawni cymal sylweddol arall o gamau gweithredu MIT.

Er y croesawyd y cynnydd hwnnw mewn capasiti a gallu, yn anffodus nid pharodd hynny yn hir. Yn ddiweddar mae'r SRO wedi hysbysu'r Panel bod y Cyfarwyddwr Gwella Mamolaeth wedi cael swydd newydd gyda'r Bwrdd Iechyd a bydd yn symud yn fuan i gefnogi'r ymateb i COVID-19. Ar yr un pryd, bu newidiadau gorfodol eraill yn y MIT fydd yn arwain at golli gwybodaeth a phrofiad yn y tymor byr allai fod yn anodd digolledu amdano, yn arbennig pan fo'r sefydliad yn briodol ddigon yn gorfod dargyfeirio adnoddau ar gyfer ymateb i effeithiau COVID-19.

Mae'r SRO wedi ymrwymo i'r Panel y bydd yn gwneud beth bynnag sydd yn rhesymol bosibl er mwyn sicrhau bod lefelau staffio yn y Tîm Gwella Mamolaeth yn cael eu gwarchod cyhyd â phosibl, yn arbennig y rhai sydd yn ymwneud â chefnogi'r Rhaglen ar gyfer Adolygu Clinigol. Yn y cyfamser, mae cynigion ar gyfer delio ag ymadawiad yr MID ac i liniaru effaith newidiadau eraill yn y MIT yn cael eu datblygu gan yr SRO.

Y CAMAU NESAF - Cam 6: Mae'r Panel yn edrych ymlaen at dderbyn cynigion yr SRO ar gyfer caffael Cyfarwyddwr Gwella Mamolaeth newydd pan fydd yn symud i'w swydd newydd.

Dechreuodd y Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth newydd yn ei swydd yn gynnar ym mis Ionawr. Dyma'r tro cyntaf i i uwch swydd bydwreigiaeth gael ei chynnig ar lefel Cyfarwyddwr, ac mae manteision hynny yn amlwg yn barod. Mae gan y Cyfarwyddwr brofiadau a mewnwleidiad perthnasol eang sydd eisoes yn creu mwy o fomentwm, syniadau newydd a dull mwy strategol.

Mae'r penodiad hefyd yn golygu bod triawd o arweinwyr meddygol, clinigol a rheolaethol wedi ei sefydlu am y tro cyntaf ers dechrau ar y rhaglen wella. Sylwir bod y tîm arweiniol erbyn hyn yn ymddwyn mewn ffordd fwy cydlynol ac mae'n dechrau rheoli'r agenda wella ac mae'r MIT yn gynyddol yn cymryd rôl gefnogol. Mae'r berchnogaeth gynyddol, yn arbennig gyfranogiad cynyddol y Cyfarwyddwr Clinigol, yn cael ei groesawu.

Yn ystod yr wythnosau diweddar, mae'r Panel wedi bod yn gynyddol ymwybodol nad yw wedi rhoi cymaint o sylw i'r gwasanaethau newyddenedigol ag y mae wedi ei roi i elfen gwasanaeth mamolaeth y broses wella.

Rhoddwyd gwahoddiad i Neonatolegydd Ymgynghorol y Bwrdd Iechyd fynychu cyfarfod ffurfiol nesaf y Panel er mwyn rhoi trosolwg o'r gwasanaeth newyddenedigol, a bydd hynny nawr yn dod yn faes ffocws yn ystod y cyfnod adrodd nesaf, yn ddibynnol ar effaith sefyllfa COVID-19.

Y CAMAU NESAF - Cam 7: Yn ystod y cyfnod adrodd nesaf, bydd y Panel yn rhoi mwy o sylw i'r gwasanaeth newyddenedigol, ac fel cam cyntaf bydd yn gwahodd Neonatolegydd Ymgynghorol i fynychu cyfarfod nesaf y Panel er mwyn darparu trosolwg o'r gwasanaeth.

7.2 CYNNYDD YN ERBYN Y 'CAMAU NESAF'

Yn Adran 9 ei adroddiad blaenorol, mae'r Panel yn enwi nifer o feysydd lle'r oedd yn disgwyl gweld y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd yn ystod Ionawr, Chwefror a Mawrth 2020.

Mae'r 'Camau Nesaf' hyn wedi'u nodi yn y tabl isod, gydag asesiad byr o sefyllfa bresennol pob un o'r Camau.

Ffigwr 8: Crynodeb o'r Cynnydd yn erbyn y 'Camau Nesaf' ar 31 Mawrth 2020

Camau Nesaf Cytunedig	Crynodeb o'r Cynnydd ar 31 Mawrth 2020
1. Ymgysylltu â Menywod a Theuluoedd - Cynnal y digwyddiadau ymgysylltu cynlluniedig â menywod a theuluoedd, asesu'r canlyniadau a datblygu cynllun i adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd yn sgil y gwaith. (Camau 1, 2 a 3)	CYNNYDD DA. Erbyn hyn mae cam cyntaf y rhaglen ymgysylltu wedi cael ei gwblhau. Mae angen gwneud mwy o waith, yn benodol er mwyn sicrhau bod yr adborth o'r tri digwyddiad cymunedol yn cael ei werthuso a'i adlewyrchu yn y gwasanaeth a ddarperir. Mae'r gwaith hwnnw ar y gweill a bydd amserlen gyflawni yn cael ei chyhoeddi yn gynnar ym mis Ebrill. Mae hynny hefyd yn cynnwys cynllun ymgysylltu a chyfathrebu newydd ar gyfer 2020/21. Mae crynodeb manylach ar gael yn Adran 4.1.

Camau Nesaf Cytunedig	Crynodeb o'r Cynnydd ar 31 Mawrth 2020
2. Cwynion a Phryderon - Monitro gweithredu'r Cynllun Gwella Cwynion a Phryderon ac ymgorffori metrigau priodol i'r IPAAF. (Cam 4)	PETH CYNNYDD. Mae cynnydd wedi cael ei wneud yn erbyn y cynllun gweithredu ar gwynion a phryderon, yn benodol o ran amseroldeb yr ymateb i gwynion a phryderon newydd. Ond, mae problemau yn dal i fodoli o ran ansawdd, yn arbennig mewn perthynas â chwynion hanesyddol. Mae nifer o fetrigau perfformiad perthnasol wedi cael eu hymgorffori i'r IPAAF. Mae mwy o fanylion ar gael yn Adran 7.3.
3. Adolygiad Clinigol - Bwrw ymlaen â'r broses adolygu clinigol i'r cam rhoi ar waith, gan ganolbwyntio'n benodol ar gefnogi'r menywod a'r teuluoedd perthnasol. (Camau 5 a 6)	CYNNYDD DA. Erbyn hyn mae chwe thîm adolygu clinigol yn weithredol a dechreuwyd ar waith ar y cymal nesaf o adolygiadau. Datblygwyd proses sicrwydd ansawdd. Mae trefniadau wedi cael eu sefydlu, yn cynnwys eiriolaeth CHC, er mwyn cynnwys a chefnogi merched a theuluoedd drwy'r broses os byddant yn dymuno cyfranogi. Mae crynodeb o'r cynnydd a wnaed yn ystod y chwarter olaf ar gael yn Adran 5.
4. Datblygu IPAAF - Datblygu mwy ar Fframwaith Integredig ar gyfer Asesu Perfformiad a Sicrwydd gyda metrigau mwy soffistigedig, blaenoriaethau cliriach a thargedau ymestynnol – ond posibl – dros amser; (Cam 7)	PETH CYNNYDD. Cynhalid gweithdy ym mis Mawrth ble cytunwyd ar set o fetrigau, wedi eu halinio â'r fframwaith perfformiad cenedlaethol. Bydd angen datblygu mwy ar hynny dros amser, yn benodol mewn perthynas â maes Ansawdd Profiadau Menywod a Theuluoedd. Ar hyn o bryd, ni phennwyd targedau oherwydd disgwylir am fwy o ddadansoddi gan nifer o grwpiau Gorchwyl a Gorffen er mwyn canfod beth fyddai'n briodol. Ceir mwy o fanylion yn Adran 6 yr adroddiad.
5. Capasiti MIT - Sicrhau bod yr holl adnoddau sydd eu hangen i ategu'r Cynllun Gwella Mamolaeth yn eu lle erbyn diwedd mis Ionawr 2020, a bod y Tîm Gwella Mamolaeth wedi cael ei ailstrwythuro a'i gynyddu er mwyn sicrhau mwy o gapasiti a chadernid. (Cam 8)	CWBLHAWYD. Ers diwedd Ionawr, mae'r MIT wedi bod yn gweithio gyda chapasiti llawn ac mae hynny wedi gwella cyflymder ac effeithlonrwydd gweinyddol ac wedi rhyddhau capasiti'r MID er mwyn canolbwyntio ar faterion datblygiadol. Mae sgiliau a chapasiti newydd wedi cael eu hychwanegu, ac mae hynny wedi bod yn effeithiol iawn, yn arbennig o ran cefnogi'r broses adolygu clinigol. Ceir mwy o fanylion yn Adran 7 yr adroddiad.

Camau Nesaf Cytunedig	Crynodeb o'r Cynnydd ar 31 Mawrth 2020
6. Adolygiad HIW/WAO Ar y Cyd - Sicrhau bod y cynllun gweithredu a ddatblygwyd i ymateb i Adolygiad HIW/WAO Ar y Cyd o Ansawdd Trefniadau Llywodraethu wedi ei alinio â'r MIP. (Cam 9)	CWBLHAWYD. Datblygwyd cysylltiad ag arweinydd y gwaith datblygu corfforaethol sydd yn arwain y cynllun gweithredu y mae'r Bwrdd lechyd wedi ei ddatblygu mewn ymateb i argymhellion HIW/WAO. Mae'r ddau gynllun wedi cael eu hadolygu. Hefyd mae yna aliniad yn y ffordd y mae'r ddau gynllun gweithredu yn cael eu rhoi ar waith, ac mae'r ymagwedd gorfforaethol yn pwysu'n drwm ar y dull a fabwysiadwyd ar gyfer gwella'r gwasanaethau mamolaeth, yn cynnwys defnyddio IPAAF a matrices aeddfedrwydd0. Ceir mwy o wybodaeth yn Adrannau 6 a 7.
7. Cyflawni mwy yn erbyn y MIP - a chanolbwyntio ar sicrhau bod yr argymhellion hynny sydd eisoes wedi'u cyflawni yn cael eu gwreiddio mewn arferion gweithredol. (Cam 10)	CYNNYDD DA. Llofnodwyd a chwblhawyd 16 o gamau MIP eraill yn ystod y chwarter, ac ailwiriwyd 5 arall ar ôl adolygiad arall o dystiolaeth er mwyn sicrhau eu bod yn dal wedi eu hymgorffori. Mae hynny yn golygu bod y cyfanswm a gwblhawyd erbyn hyn yn 42, sef 52% o'r cyfanswm. Ceir mwy o fanylion yn Adran 8 yr adroddiad.
8. Datblygu MIP - Datblygu'r MIP i fod yn ddogfen sydd yn fwy deinamig ac sydd yn esblygu'n gyson, gyda chamau a cherrig milltir cliriach ar gyfer cyflawni. (Cam 11)	PETH CYNNYDD. Mae'r MIP wedi cael ei wella er mwyn cynnwys cerrig milltir ac amserlenni mwy diffiniedig, ac mae llinell amser lefel uchel ar gael nawr. Ond, bydd angen gwneud mwy o waith yn ystod y cyfnod nesaf er mwyn adolygu a chyfuno'r argymhellion sydd yn dal heb eu cyflawni, ac er mwyn sicrhau bod y cynllun yn fwy ymatebol i faterion newydd ac ymddangosol. Ceir mwy o fanylion yn Adran 8 yr adroddiad.

7.3 CYNLLUN I DDATBLYGU'R BWRDD IECHYD YN EHANGACH

Yn gynnar yn y broses wella, cydnabu'r Bwrdd lechyd ei bod yn annhebygol bod yr hyn a oedd wrth wraidd y methiannau a ganfuwyd gan y Colegau Brenhinol wedi'i gyfyngu i'r gwasanaethau mamolaeth.


O ganlyniad i hynny, dyluniodd y Bwrdd lechyd raglen ddatblygu sefydliadol ehangach, ac erbyn hyn mae'n ei rhoi ar waith. Ymysg materion eraill, mae hynny yn cynnwys rhaglen a ddyluniwyd i wella arweinyddiaeth a llywodraethiant ar bob lefel fydd yn ailddiffinio diwylliant a gwerthoedd y sefydliad. Mae'r rhaglen waith yma'n cael ei llywio gan y gwaith y mae'r Panel yn ei oruchwylio i wella gwasanaethau mamolaeth, ac mae hefyd yn ategu'r gwaith hwnnw.

Mae'r Panel yn parhau i weithio'n agos gyda'r Prif Weithredwr er mwyn sicrhau bod yna synergedd rhwng yr hyn sydd yn digwydd yn y gwasanaethau mamolaeth a'r cynllun corfforaethol ehangach. Yn ystod yr wythnosau diwethaf, yn ogystal â chyflwyno'r model gweithredu newydd, cyhoeddwyd fframwaith rheoli perfformiad corfforaethol newydd, ac mae strategaeth ymgysylltu a chyfathrebu ehangach y sefydliad yn agos at gael ei gwblhau. Bydd hyn oll yn helpu i sicrhau bod y gwelliannau sydd yn cael eu cyflawni yn y gwasanaethau mamolaeth yn gynaliadwy yn yr hirdymor.

O ran gwasanaethau mamolaeth yn benodol, mae dwy raglen ddatblygu yn cael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd. Rhaglen arweinyddiaeth ar gyfer Meddygon Ymgynghorol ac Uwch Dîm Arwain yr adran Bydwreigiaeth yw'r rhaglen gyntaf, a lansiwyd ar 14 Tachwedd 2019. Rhaglen diwylliant a gwerthoedd yw'r ail un, ac mae'n rhaglen i holl staff y gwasanaethau mamolaeth – tua 300 i gyd. Cafodd y rhaglen hon hefyd ei lansio yng nghanol mis Tachwedd. Bydd yn rhoi pwyslais ar ddatblygu meddylfryd sy'n canolbwyntio ar dwf, tosturi, cydweithio a deallusrwydd emosiynol.

Mae'r ddwy raglen hyn yn ddatblygiadau pwysig, a bydd eu llwyddiant yn allweddol wrth fynd i'r afael â rhai o'r problemau sylfaenol o ran diwylliant a welir mewn llawer o argymhellion y Colegau Brenhinol. Oherwydd hynny, mae'r Panel yn monitro'r broses o gyflwyno'r rhaglen. Gellir gweld o'r siartiau isod bod presenoldeb wedi bod yn dda a bod adborth staff wedi bod yn gadarnhaol.

Ffigwr 9: Niferoedd yn mynychu'r Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth



Yn amlwg, bydd ymateb y Bwrdd Iechyd i COVID-19 yn effeithio ar sut y cyflawnir y rhaglen, o ystyried bod pob hyfforddiant nad yw'n hanfodol wedi cael ei ohirio am y dyfodol rhagweladwy. Ond, mae'r rhaglen wedi mynd rhagddi a hyd yma mae wedi cael ei derbyn yn dda gan staff, a byddir yn ailafael ynddi unwaith eto ar ôl i'r sefyllfa bresennol gael ei datrys.

Bu peth cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu cwynion a phryderon corfforaethol gyda strwythur adolygedig, adnoddau ychwanegol a pholisi cwynion a phryderon newydd sydd yn rhoi mwy o bwyslais ar berchnogaeth leol. Mae yna arwyddion o well perfformiad, yn benodol o ran gwelliannau i amseroldeb cwynion newydd a gostyngiad yn nifer y cwynion gaiff eu hailagor.

Ond, mae adborth diweddar gan fenywod a theuluoedd yn awgrymu bod datrys cwynion hanesyddol yn parhau i fod yn broblem a bydd y Panel yn parhau i ganolbwyntio ei sylw ar y mater hwn yn ystod y cyfnod nesaf.

Mae yna heriau ynghylch ansawdd yr ymatebion gaiff eu darparu ac mae'n galonogol clywed bod y Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth yn cymryd perchnogaeth bersonol o hynny mewn perthynas â gwasanaethau mamolaeth. Ond, yn y tymor byr, mae'r angen i ddarparu'r ymateb priodol yn hytrach nag ymateb amserol yn parhau i olygu nad yw rhai ymatebion yn bodloni'r meini prawf mewn perthynas â llinellau amser.

8 ASESAD O'R CYNNYDD YN ERBYN Y CYNLLUN GWELLA MAMOLAETH

Mae Cynllun Gwella Mamolaeth y Bwrdd Iechyd (MIP) yn cynnwys 79 cam gweithredu. Roedd 70 o'r rheini yn deillio'n uniongyrchol o argymhellion y Colegau Brenhinol, a'r gweddill yn deillio o adolygiadau cysylltiedig neu gamau gweithredu a nodwyd gan y Bwrdd Iechyd yn dilyn ei ddadansoddiad ei hun.

Yn adroddiad diwethaf y Panel ar ddiwedd Ionawr 2019, casglodd bod 25 o'r 79 o argymhellion MIP wedi cael eu cyflawni'r llwyr erbyn hynny, er y byddai angen monitro rhai yn barhaus er mwyn sicrhau eu bod yn dal i gael eu hymgorffori mewn ymarfer.

8.1 MWY O GYNNYDD YN ERBYN Y MIP

Yn ystod Ionawr, Chwefror a Mawrth 2020, asesodd y Panel fwy o dystiolaeth a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd, a chytunodd bod 16 o gamau MIP eraill wedi cael eu cwblhau a'u bod yn barod i'w 'llofnodi'. Mae hynny yn golygu y gwiriwyd bod cyfanswm o 41 wedi cael eu cwblhau erbyn hyn.

Hefyd asesodd y Panel 3 argymhelliad arall yr oedd y Bwrdd Iechyd yn ystyried eu bod wedi'u cwblhau. Ond, nid oedd y Panel yn teimlo bod y dystiolaeth a ddarparwyd yn ddigonol er mwyn cyfiawnhau eu llofnodi. Gofynnwyd am fwy o dystiolaeth, a bydd y camau yma yn cael eu cyflwyno ar gyfer eu hailasesu yn ystod y cyfnod adrodd nesaf.

Mae hynny'n golygu bod y Bwrdd Iechyd erbyn hyn wedi cyflawni dros hanner (52%) y 79 o argymhellion y MIP, ac mae gweddill y gwaith yn mynd rhagddo. Mae hon yn garreg filltir arwyddocaol, yn benodol oherwydd bod cynifer o'r argymhellion a gyflawnwyd hyd yma, megis y fframwaith llywodraethu clinigol adolygedig a'r rhaglen archwilio clinigol, yn gonglfeini sylfaenol ar gyfer cyflawni'r gweddill.

Mae rhai o'r argymhellion a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod yma yn arwyddocaol, ac mae eraill yn ganlyniad i ddeuddeng mis o gynllunio a chyflawni. Er enghraifft:-


- mae'r gwasanaeth profedigaeth wedi cael ei adolygu ac mae gwelliannau wedi cael eu gwneud, yn cynnwys darparu gwybodaeth er mwyn sicrhau bod cymorth a chwnsela priodol ar gael i'r holl deuluoedd⁷;
- erbyn hyn mae gan dîm Llywodraethu a Risg Mamolaeth adnoddau priodol er mwyn sicrhau y gellir rheoli llwythi gwaith a bod cofnodion Datix (system ar gyfer cofnodi digwyddiadau cysylltiedig â diogelwch) yn cael eu hadolygu a'u graddio, ac y gweithredir arnynt yn briodol a phrydlon;

⁷ Er bod grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi cael ei sefydlu erbyn hyn gan y fforwm 'My Maternity My Way' er mwyn cynhyrchu mwy o welliannau ar y cyd (gweler adran 4 yr adroddiad i gael mwy o fanylion).

- erbyn hyn mae holl Aelodau Annibynnol y Bwrdd wedi cael hyfforddiant ar oblygiadau Deddf Dynladdiad Corfforaethol a Lladdiad Corfforaethol 2007, er mwyn deall yn well beth yw eu rôl o ran sicrhau diogelwch y gwasanaethau a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd⁸;
- dyluniwyd a darparwyd rhaglen hyfforddiant orfodol (yn cynnwys hyfforddiant mewn CTG, PROMPT, GAP a GROW⁹) i'r holl staff meddygol a bydwreigiaeth a llwyddwyd i gyrraedd lefel uchel o gydymffurfiaeth¹⁰.

Mae'r ffigur isod yn dangos sut mae'r 41 o argymhellion wedi cael eu dosbarthu ar rhwng y Grwpiau Prosiect.

Ffigur 10: Crynodeb o Gynnydd yn erbyn Argymhellion MIP yn ôl Grŵp Prosiect



⁸ Nid oedd un Aelod o'r Bwrdd yn gallu mynychu'r hyfforddiant ac mae wedi derbyn mewnbwn personol gan Gadeirydd y Bwrdd.

⁹ Gweler y rhestr termau yn Adran 11 yr adroddiad.

¹⁰ Dyluniwyd cynllun hyfforddiant fyddai wedi arwain at gydymffurfiaeth lawn erbyn 31 Mawrth 2020. Ond gohiriwyd yr hyfforddiant yng nghanol Mawrth o ganlyniad i'r ymateb i COVID-19, a bydd y nifer fechan o staff meddygol yn Ysbyty Tywysog Siarl, oedd i fod i gael hyfforddiant ar ddiwedd Mawrth, yn derbyn hyfforddiant ar ôl i bethau ddod yn ôl i'r arfer. Er hynny, mae'r Panel yn ystyried bod y camau a argymhellwyd gan RCOG wedi cael eu cyflawni'n llawn.

Mae'r 38 cam arall ar y gweill. Er nad ydynt wedi eu datblygu'n ddigonol i gael eu llofnodi, mae yna nifer ble mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud. Er enghraifft:-

- Mae 'Gweledigaeth Mamolaeth' y Bwrdd Iechyd (sydd yn nodi amcanion strategol hirdymor sydd wedi eu halinio â Gweledigaeth Mamolaeth Cymru Gyfan) wedi cael ei ddatblygu ac erbyn hyn mae'n destun ymgynghoriad gydag amrywiaeth o randdeiliaid yn cynnwys cynrychiolwyr benywod a theuluoedd;
- gyda chymorth Uned Gyflawni'r GIG, mae darn sylweddol o waith yn cael ei wneud ledled y Bwrdd Iechyd er mwyn gwella'r ffordd o reolir broses o adrodd am ddigwyddiadau difrifol, a datblygwyd rhestr wirio safonol er mwyn sicrhau bod yr ymarfer a fabwysiedir gan wasanaethau mamolaeth yn gyson â'r ymarfer mewn rhannau eraill o'r sefydliad;
- mae rhaglenni arweinyddiaeth, ymwybyddiaeth ofalgar a gwerthoedd corfforaethol (sydd yn rhan o'r cynllun datblygu sefydliadol ehangach) yn cael eu cyflwyno, ac mae lefel y presenoldeb a chyfranogiad wedi bod yn galonogol.

Mae'r olaf yn ddatblygiad arwyddocaol ar y daith wella yn gyffredinol. Dyluniwyd a chyflawnwyd y rhaglen yn gorfforaethol er mwyn helpu i greu y newid mwy hirdymor o ran diwylliant ac ymddygiadau a nodwyd yn adroddiad 'Gwrando ar Fenywod a Theuluoedd' a gyhoeddwyd yr un pryd ag adroddiad y Colegau Brenhinol.

Yn ystod y cyfnod presennol, mae'r Panel hefyd wedi ailwirio 5 o argymhellion eraill a lofnodwyd yn ystod y chwarter blaenorol er mwyn sicrhau bod cynnydd wedi cael ei gynnal a bod newid wedi cael ei ymgorffori mewn ymarfer. Roedd hynny yn cynnwys, er enghraifft, mwy o wiriadau ynghylch materion yn ymwneud â diogelwch critigol megis argaeledd meddygon ymgynghorol ac amseroedd ymateb a chadarnhad bod aelodau staff allweddol yn cyfranogi mewn cyfarfodydd a digwyddiadau sydd yn gysylltiedig â'r llywodraeth.

Mae manylion am yr 16 cam sydd newydd gael eu gwirio a'u llofnodi yn ystod y chwarter, a'r 5 cam a ailwiriwyd, i'w gweld yn y tabl yn 'Atodiad H'.

8.2 ARWYDDION ERAILL O WELLANT

Yn ystod y tri mis diwethaf bu llai o adolygu allanol a gweithgaredd archwilio mewn perthynas â gwasanaethau mamolaeth y Bwrdd Iechyd o'i gymharu â chyfnodau adrodd blaenorol. Oherwydd hynny, bu llai o gyfle i driongli asesiad y Panel yn erbyn mathau eraill o dystiolaeth.

Ond mae yna ddarnau eraill o wybodaeth sydd yn cefnogi asesiad y Panel bod gwasanaethau yn gwella a bod hynny yn effeithio'n gadarnhaol ar brofiadau benywod a theuluoedd. Er enghraifft, mae'r arolygon ddwywaith yr wythnos a gynhaliwyd gan y Gwasanaeth Cynghori a Chydgysylltu Cleifion (PALS) wedi parhau i ddangos lefelau uchel cyson o fodlonrwydd ymysg benywod a theuluoedd sydd yn ddefnyddio'r gwasanaethau yn Ysbyty Tywysog Siarl¹¹.

Mae'r Panel hefyd yn dechrau gweld mwy o dystiolaeth o arloesi, yn arbennig yn y ffordd y mae benywod a theuluoedd yn cyfranogi at ddylunio a darparu gwasanaeth.

Un enghraifft o hynny yw'r 'Uned Ganu', sydd yn fenter ar y cyd rhwng y Bwrdd Iechyd a Phrifysgol De Cymru sydd yn archwilio'r defnydd o gerddoriaeth fel ffordd o feithrin cyswllt rhwng babanod a'u rhieni mewn lleoliadau newyddenedigol. Mae nifer o rieni wedi cyfranogi at y rhaglen ymchwil ac mae'r canlyniadau yn galonogol.

Mae yna enghreifftiau eraill sydd wedi dangos mwy o gynnydd o ran ymgorffori ymgysylltu ar wahanol lefelau yn y Bwrdd Iechyd. Er enghraifft, roedd cynrychiolwyr teuluoedd yn rhan o'r broses gyfnewid ar gyfer penodi'r Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth newydd, ac mae dulliau megis recordio gweledol ac adrodd straeon yn cael eu defnyddio'n gynnyddol ar gyfer ymgysylltu â benywod a theuluoedd.

8.3 CYNNYDD YN ERBYN CAMAU 'GWNEUD YN DDIOGEL' RCOG

Pan luniodd y Panel ei adroddiad chwarterol cyntaf ym mis Medi 2019, roedd yn canolbwyntio ar asesu'r cynnydd a wnaed i gwblhau'r un ar ddeg cam gweithredu 'gwneud yn ddiogel' a nodwyd gan y Colegau Brenhinol fel camau a oedd angen sylw ar unwaith oherwydd goblygiadau posibl i ddiogelwch.

Ar ôl asesu ystod eang o dystiolaeth a gyflwynwyd gan y Bwrdd Iechyd, roedd y Panel yn cytuno ag asesiad y Bwrdd Iechyd bod 8 o'r un ar ddeg cam gweithredu 'gwneud yn ddiogel' wedi cael sylw ac wedi'u gwreiddio mewn arferion gweithredol erbyn hyn.

Er bod cynnydd da wedi cael ei wneud ar y tri cham gweithredu arall, roedd y camau hynny'n dal yn waith ar y gweill ar y pryd. Roedd yna resymau dilys am hynny, ac roedd camau lliniaru wedi eu sefydlu er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn ddiogel tra bod gweddill y gwaith yn cael ei wneud.

Yn ystod y cyfnod adrodd presennol mae'r Panel wedi parhau i fonitro cynnydd yn erbyn y 3 argymhelliad oedd yn dal ar y gweill, ac mae diweddariad ar y sefyllfa bresennol yn cael ei nodi yn y tabl dros y dudalen.

¹¹ Hysbyswyd y Panel bod proses arolwg PALS wedi cael ei ohirio dros dro oherwydd effaith yr ymateb i COVID-19, a bod yr estyniad cynlluniedig i'r gwasanaeth ôl-enedigaeith wedi cael ei ohirio.

Ffigwr 11: Cynnydd yn Erbyn Camau ‘Gwneud yn Ddiogel’ Heb eu Cwblhau ar 31 Mawrth 2020

Cam	Diweddariad ar Gynnydd	Statws Presennol
6. Roedd yna ddiffyg ymwybyddiaeth o ganllawiau, protocolau, sbardunau ac uwchgyfeirio a mynediad atynt.	Yn y chwarter blaenorol adroddodd y Bwrdd Iechyd bod protocolau wedi eu sefydlu ar gyfer Ysbyty Tywysog Siarl (PCH) ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg (RGH) a bod mwy o waith i'w wneud ar ôl uno er mwyn alinio ag Ysbyty Tywysoges Cymru (POW). Aeth y Panel ati i wneud peth gwaith sicrhau gan gadarnhau bod hynny yn wir. Adroddodd y Bwrdd Iechyd y bydd y gwaith o alinio ar draws y tri safle yn cael ei gwblhau erbyn Mawrth 2020. Ond, erbyn hyn cydnabyddir bod yr amserlen honno yn rhy uchelgeisiol. Erbyn hyn mae mwy o waith yn cael ei wneud gan y Cyfarwyddwyr Bydwreigiaeth sydd newydd gael ei phenodi er mwyn pennu amserlen mwy realistig ar gyfer alinio. Mae'r Panel yn cydnabod bod bwrw ymlaen ag alinio yn POW gyda brys diangen yn golygu creu mwy o risg o bosibl na dull mwy ystyriol ond arafach.	GWAITH AR Y GWEILL O graffu'n fanylach mae wedi dod i'r amlwg bod cynnydd yn y maes yma wedi bod yn arafach nag a dybiwyd ar y cychwyn. Mae hynny yn rhannol oherwydd pryder dilys ynghylch goblygiadau o ran diogelwch cleifion o ganlyniad i gyflwyno nifer sylweddol o bolisïau diwygiedig yn olynol yn gyflym. Oherwydd hynny, mae yna ôl-groniad o ganllawiau sydd erbyn hyn angen eu diweddarau a'u hail alinio. Ar ddiwedd Mawrth, rhoddwyd i'r Panel amserlen wedi ei blaenoriaethu ar gyfer cwblhau'r holl ddiweddariadau i ganllawiau yn y tri ysbyty. Bydd y Panel yn monitro cynnydd yn erbyn y cynllun yn fanwl yn ystod y cyfnod adrodd nesaf.

Cam	Diweddariad ar Gynnydd	Statws Presennol
10. Nid yw lefelau staffio bydwreigiaeth yn cydymffurfio â chanfyddiadau adolygiad Birthrate plus® yn 2017. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd fonitro hyn mewn amser real ar lefel uwch i asesu a oes angen defnyddio'r protocolau uwchgyfeirio sydd wedi cael eu sefydlu i sicrhau diogelwch cleifion.	Derbyniwyd Adolygiad Birthrate plus® gan y Bwrdd Iechyd yn Nhachwedd 2019. Cymerodd y tîm Mamolaeth beth amser i adolygu'r canfyddiadau. Roedd hynny yn rhannol o ganlyniad i waith ychwanegol a arweiniodd at oedi byr. Mae'r Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth wedi cadarnhau bod yr adolygiad wedi dangos bod lefelau presennol y sefydliad yn gyson ag argymhellion Birthrate plus® ac nad oes angen mwy o adnoddau. Mae'r Cyfarwyddwr hefyd wedi dweud ei bod yn cynnal gwaith diwydrwydd dyledus mewn perthynas â gwerthuso dosbarthiad y gweithlu, ac yn ailymweld â phrotocolau esgoli sefydledig. Bydd cynllun gweithlu cynhwysfawr yn cael ei gynhyrchu yn ystod y cyfnod adrodd nesaf. Cymerir camau i leihau dibyniaeth ar fancio amser a goramser ac i godi lefelau staffio i'r lefel briodol, ac erbyn hyn mae'r rhan fwyaf o swyddi gwag wedi cael eu llenwi ac mae niferoedd yn cael eu cynnal ar sail busnes fel arfer. Mae argaeledd staffio yn parhau i gael ei fonitro'n ddyddiol gan y Bwrdd Iechyd, a gan Lywodraeth Cymru drwy broses fonitro wythnosol.	GWAITH AR Y GWEILL Mae'r Panel yn monitro lefel staffio drwy broses fonitro mamolaeth wythnosol Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r lefelau y cytunwyd arnynt eisoes gyda'r Bwrdd Iechyd, ac sydd erbyn hyn wedi eu cadarnhau fel rhai priodol gan Adolygiad Birthrate plus®. Mae'r Panel wedi gofyn i gael gweld y cynllun gweithredu gweithlu pan fydd wedi ei gwblhau a bydd yn ailasesu a ellir llofnodi'r argymhelliad yn ystod y cyfnod adrodd nesaf. Cydnabyddir y byddir efallai yn cymryd peth amser i ddyblygu'r cynllun oherwydd ei fod yn gysylltiedig a gwaith sydd yn mynd rhagddo ar lefel Cymru gyfan.
11. Mae diwylliant y gwasanaeth yn parhau i gael ei weld fel diwylliant cosbedigol. Mae staff angen cymorth a chefnogaeth gan uwch reolwyr ar yr adeg anodd hon.	Mae gweithgaredd datblygu staff ac arweinyddiaeth yn parhau fynd rhagddo yn gyflym. er ei bod yn ddyddiau cynnar, erbyn hyn mae yna arwyddion o gynnydd mewn gallu a chapasiti staff sydd yn cefnogi dull mwy systematig o ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a gwella ansawdd. Mae newid diwylliant yn cymryd amser ac mae angen ail ddylunio systemau yn ystyriol er mwyn siapio gwerthoedd ac ymddygiad priodol. Hefyd mae'n rhy gynnar i lofnodi bod hyn wedi ei gwblhau.	GWAITH AR Y GWEILL Bydd hyn yn cael ei adolygu'n ffurfiol eto pan fo'r rhaglenni arweinyddiaeth gorfforaethol a datblygiad sefydliadol wedi cael eu sefydlu'n fwy cadarn ledled y Bwrdd Iechyd.

Er bod cynnydd yn cael ei wneud yn erbyn y tri argymhelliad 'gwneud yn ddiogel' sydd ar ôl, roedd y Panel wedi disgwyl gweld mwy o gynnydd yn ystod y chwarter olaf mewn perthynas â Cham 6 (polisiau a gweithdrefnau) a Cham 10 (Birthrate plus®).

Er bod angen bwrw ymlaen â'r materion yma fel blaenoriaeth, mae'n bwysig pwysleisio bod camau lliniaru wedi eu sefydlu er mwyn sicrhau na effeithir ar ddiogelwch. Hefyd byddai ond yn deg cydnabod bod y Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth ond wedi bod yn ei swydd am ychydig dros ddau fis, ac mae'n ddealladwy ei bod yn cymryd ychydig o amser i adolygu beth sydd wedi cael ei wneud hyd yma a beth sydd angen digwydd wrth symud ymlaen. Mae hynny wedi arafu'r cynnydd i raddau, ond yn y pen draw bydd yn talu ar ei ganfed os bydd y deilliannau yn cael eu gwella.

Mae'r Cyfarwyddwr newydd wedi gwneud argraff ar y Panel gyda'i dealltwriaeth a'i gwybodaeth, ac mae'n cynnig mewnwelediadau newydd a gwerthfawr i'r broses o wella.

Hysbyswyd y Bwrdd Iechyd y bydd Camau 'gwneud yn ddiogel' 6 a 10 yn feysydd ffocws penodol yn ystod y cyfnod adrodd nesaf, a bydd a Panel drwy ei gyfarfodydd rheolaidd, yn pwysu am fwy o gyflymder, er y bydd angen i lefel y disgwyliadau fod yn realistig o ystyried effaith COVID-19.

Y CAMAU NESAF - Cam 8: Er bod yr adolygiad Birthrate Plus® wedi cadarnhau bod lefelau staffio presennol yn briodol, mae'r Panel yn disgwyl i gynllun gweithlu mwy hirdymor gael ei ddatblygu fydd yn dangos sut y bydd yr adnoddau hynny yn cael eu hoptimeiddio (er enghraifft, drwy leihau salwch a lleihau'r defnydd o oramser) a sut y bydd adleoliadau yn cael eu haddasu er mwyn adlewyrchu patrymau newidiol y galw a ffyrdd newydd o weithio.

Y CAMAU NESAF - Cam 9: Er bod cynnydd wedi cael ei wneud o ran sicrhau bod polisïau, protocolau a chanllawiau ar gael ac yn hygyrch i staff, erbyn hyn mae nifer sylweddol o bolisïau angen eu hadolygu a'u diweddarau. Ar ddiwedd Mawrth 2020 darparwyd amserlen o adolygiadau wedi eu blaenoriaethu i'r Panel, a bydd yn disgwyl gweld cynnydd sylweddol yn erbyn hynny yn ystod y cyfnod adrodd nesaf.

8.4 ASESAD O'R SEFYLLFA BRESENNOL

O ystyried popeth, mae cynnydd da wedi cael ei wneud yn erbyn yr MIP yn ystod y cyfnod adolygu, ac mae hynny yn golygu bod dros hanner y 79 cam wedi cael eu cyflawni a'u hymgorffori mewn ymarfer gweithredol.

Gellid disgrifio nifer o'r camau hynny fel 'camau arwyddocaol' sydd wedi gosod y sylfaen ar gyfer mwy o welliannau.

Mae'r camau cynnar er mwyn mynd i'r afael â'r materion 'gwneud yn ddiogel' a enwyd gan RCOG fel rhai oedd angen sylw ar unwaith wedi cael eu cyfuno ymhellach, ond fel yr amlinellwyd yn Adran 1.4 uchod, mae angen ymdrech gydunol yn ystod y cyfnod nesaf er mwyn cwblhau'r gwaith sydd wedi cael ei ddechrau mewn perthynas â lefelau staffio a pholisïau, gweithdrefnau a chanllawiau.

Er y dylai'r Bwrdd Iechyd fod yn fodlon gyda'r hyn mae wedi ei gyflawni yn ystod y 12 mis diwethaf, mae yna dal swm sylweddol a waith ar ôl i'w wneud er mwyn cyflawni'r holl gynllun, ac mae nifer o'r camau sydd ar ôl yn ddatblygiadau hirdymor sydd y gysylltiedig â diwylliant sefydliadol a deilliannau.

Realiti y sefyllfa bresennol yw y bydd cyflawni yn gyflym yn her yn ystod y cyfnod nesaf oherwydd bydd y Bwrdd Iechyd yn anochel yn ymateb i COVID-19. Ond, bydd y Panel yn gwneud yr hyn sydd yn bosibl, mewn ffordd gymesur, er mwyn sicrhau bod y ffocws ar gyflawni yn erbyn y MIP yn cael ei gynnal, ac y parheir i ganolbwyntio ar ddiogelwch a lles benywod a theuluoedd.

Yr hyn sydd yn galonogol yw bod yr addasiadau a wnaed i strwythur a capasiti'r Tîm Gwella Mamolaeth ar ddechrau mis Ionawr wedi cael effaith. Erbyn hyn mae yna ymagwedd llawer mwy disgybledig tuag at gasglu a chofnodi tystiolaeth, ac mae hynny yn argoeli'n dda ar gyfer y cyfnod nesaf. Bydd angen monitro'n fanwl p'un a ellir cynnal y capasiti hwnnw yn y tymor byr yng nghyd-destun yr ymateb i COVID-19.

Y CAMAU NESAF - Cam 10: Gan gydnabod y cyfyngiadau presennol, mae'r Panel yn disgwyl gweld mwy o gyflawni yn erbyn gweddill yr argymhellion MIP yn ystod y cyfnod adrodd nesaf, a ffocws parhaus ar ymgorffori a phrofi'r argymhellion hynny sydd eisoes wedi cael eu cyflawni.

8.5 DATBLYGU'R CYNLLUN GWELLA MAMOLAETH

Yn ei adroddiad yn Ionawr 2020, mynegodd y Panel elfen o rwystredigaeth ynghylch cyflymder y cynnydd o ran datblygu mwy ar y Cynllun Gwella Mamolaeth o ran cynnwys cerrig milltir, targedau a chyflawniadau cliriach.

Ym mis Ionawr, daethpwyd ag adnoddau ychwanegol i'r Tîm Gwella Mamolaeth a bu newid yn y strwythur a gynyddodd gapasiti. Yna roedd y Cyfarwyddwr Gwella Mamolaeth yn gallu neilltuo mwy o amser ac egni ar faterion datblygiadol. O ganlyniad i hynny, mae'r Cynllun wedi cael ei wella er mwyn cynnwys amserlenni a cherrig milltir cyflawni clir. Mae sgematig sydd y darparu trosolwg lefel uchel o'r Cynllun diwygiedig wedi ei atodi yn '*Atodiad G*'.

Erbyn hyn mae'r cynllun lefel uchel yn cynnig arwydd o beth mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu ei gyflawni yn ystod y 12 mis nesaf, pryd y bydd darnau unigol o waith yn cael eu hamserlennu a phwy sydd yn gyfrifol am bob elfen o'r cynllun.

Mae'r cynllun lefel uchel yn cael ei ategu gan gyfres o gynlluniau prosiect unigol, un ar gyfer pob un o'r meysydd perfformiad, sydd yn darparu camau ac amserlenni manylach. Ac er bod y cysylltiad ag argymhellion y Colegau Brenhinol wedi cael eu cynnal, erbyn hyn mae'n gynllun sydd yn ymwneud mwy â gwella dros gyfnod o amser, yn hytrach na chyflawni rhestr hir o gamau hanesyddol sydd ar brydiau yn gorgyffwrdd.

Yn ystod y cyfnod nesaf byddai'r Panel yn hoffi gweld y MIP yn cael ei ddatblygu ymhellach gyda ffocws penodol ar ddau fater. I ddechrau mae angen i'r cynllun fod yn fwy deinamig. Mae angen symud y tu hwnt i gyflawni gweddill y 79 o argymhellion, ac i sefyllfa ble gall unrhyw gamau ychwanegol fydd yn deillio o waith gwella parhaus y Bwrdd Iechyd gael eu cymhathu i'r cynllun.

Yn ail, mae yna gyfle i resymoli'r cynllun presennol. Wrth i gyfran fwy o'r 79 o argymhellion gael eu cyflawni, mae wedi dod yn gynyddol amlwg bod yna ychydig o orgyffwrdd a dyblygu yn yr argymhellion sydd ar ôl. Nid yw argymhellion eraill yn berthnasol mwyach o ganlyniad i newidiadau mewn amgylchiadau sydd wedi digwydd ers adolygiad y Colegau Brenhinol. Gallai hynny fod yn fuddiol iawn yn yr amgylchedd sydd ohoni, ac mae'r Panel yn awyddus i gefnogi'r gwaith yma tra bod capasiti yn cael ei herio o ganlyniad i'r ymateb i COVID-19.

I grynhoi, mae'r addasiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r MIP yn ystod y chwarter blaenorol yn gam sylweddol ymlaen. Ond mae'r Panel yn credu bod yna gyfleoedd i wella mwy ar hynny wrth symud ymlaen.

Y CAMAU NESAF - Cam 11: Byddai'r MIP yn elwa o'i ddatblygu ymhellach er mwyn creu cynllun mwy deinamig ac ymatebol sydd yn cael ei ddiweddarau yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni gwelliant parhaus yn hytrach na rhestr o argymhellion.

Y CAMAU NESAF - Cam 12: Dylid adolygu gweddill y camau MIP, a'u rhesymoli, eu cyfuno neu eu grwpio pan fo'n briodol er mwyn osgoi dyblygu ac er mwyn enwi'r argymhellion hynny pan fo newid mewn amgylchiadau yn golygu nad ydynt yn berthnasol mwyach.

8.6 AROLYGIAETH GOFAL IECHYD CYMRU— RHAGLEN ARCHWILIO

Yn ystod y chwarter blaenorol cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ei adroddiad ar arolygiad tridiau dirybudd o Ganolfan Eni Tirion yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ym mis Medi.

Daw'r adroddiad hwn i'r casgliad *'fod gofal diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu'* a bod y staff *'yn dangos brwdfrydedd ac awydd clir i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion, mewn amgylchedd cartrefol, hamddenol'*. Roedd angen gwella nifer fach o elfennau, ond nid oedd hynny'n awgrymu bod gwendidau sylfaenol yn y gwasanaeth.

Roedd archwiliad Tirion yn galonogol yn yr ystyr bod yna elfen sylweddol o driongli rhwng casgliadau tîm archwilio HIW a'r hyn o brofodd y Panel yn ystod ei ymweliadau â'r ganolfan, ac o ran ei asesiad ehangach o dystiolaeth yn erbyn y MIP.

Yn ystod y chwarter presennol, cyhoeddodd HIW ei adroddiad ar archwiliad dirybudd ar y gwasanaeth dan arweiniad meddyg ymgynghorol yn PCH a gynhaliwyd yn gynnar ym mis Tachwedd 2019. Er bod gofal yn cael ei ddarparu 'mewn ffordd barchus ac urddasol, casglodd yr adroddiad bod y tîm archwilio wedi canfod bod 'angen nifer o welliannau er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol bob amser'.

Roedd yna elfennau cadarnhaol yn adroddiad PCH, yn cynnwys tystiolaeth o agweddau ac ymddygiadau cadarnhaol gan staff, adborth cadarnhaol gan fenywod a ddefnyddiodd y gwasanaeth ac adborth cadarnhaol gan staff ynghylch ansawdd yr arweinyddiaeth yr oeddent wedi ei brofi. Roedd yr elfennau hynny yn yr adroddiad yn galonogol oherwydd roeddent yn gyson â phrofiad y Panel, ac yn wahanol iawn i'r hyn a ganfu'r Colegau Brenhinol pan oeddent yn cynnal eu hadolygiad ddeng mis yn gynharach. Ond, roedd elfennau eraill o'r adroddiad yn llai calonogol.

Nid oedd yr holl feysydd i'w gwella a enwyd gan dîm archwilio HIW yn gritigol o ran diogelwch. Mewn gwirionedd cafodd rhai (yn cynnwys absenoldeb gwybodaeth ynghylch rhoi'r gorau i ysmygu a diffyg gwybodaeth am gymorth eiriolaeth) eu cywiro yn syml ac ar unwaith. Roedd eraill (er enghraifft, methu â chofnodi gwiriadau offer rheolaidd a diogelwch meddyginiaeth gwael a chofnodion cleifion) yn dangos yr angen am brosesau archwilio mwy cydnherth a goruchwyliaeth fanylach. Cafodd y rhan fwyaf o'r materion hynny hefyd eu hunioni ar unwaith ar ôl y briffio'n dilyn yr archwiliad a ddarparwyd gan dîm archwilio HIW.

Ond, roedd yna nifer fechan o faterion (megis pryderon am ddigonolrwydd y trefniadau diogelwch, methu â chynnal gwiriadau rheolaidd o offer hanfodol a gwendidau yn y broses drosglwyddo) oedd yn golygu nad oedd tîm archwilio HIW yn gallu rhoi sicrwydd ynghylch diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaeth.

O ganlyniad i hynny, comisiynodd y Panel 'ymarferiad triongli' er mwyn canfod, a phan fo'n briodol, mynd i'r afael ag anghysonderau sylweddol rhwng asesiad y Panel o'r cynnydd a chanfyddiadau HIW. Roedd hynny yn cynnwys adolygu ymateb rheolwyr ac asesu'r cynnydd a wnaethpwyd eisoes yn erbyn y cynllun gweithredu oedd yn ategu ymateb rheolwyr.

Ar ôl adolygu deilliant yr ymarferiad triongli, sicrhawyd y Panel bod yna elfen sylweddol o gydberthynas rhwng ei asesiad ei hun a chanfyddiadau archwiliad dirybudd HIW. Pan roedd yna amrywiadau yn benodol o ran darparu sicrwydd (neu fethu â darparu sicrwydd) bod y gwasanaeth yn ddiogel ac effeithiol, gellid egluro llawer o hynny oherwydd natur wahanol y ddau asesiad¹² ac amrywiad o ran amseru'r asesiad¹³.

Hefyd cafodd y Panel sicrwydd, ar ôl adolygu'r cynlluniau gweithredu yr oedd y Bwrdd Iechyd wedi eu paratoi fel ymateb i adroddiad HIW, y deliwyd â'r rhan fwyaf o'r camau a bod gwaith yn mynd rhagddo ar y nifer fechan o gamau na ddeldid â nhw. Ond, roedd yna ddau faes penodol ble roedd y Panel yn teimlo ei fod angen gofyn am fwy o sicrwydd drwy ei wiriadau sicrwydd rheolaidd yn ystod y cyfnod adrodd nesaf, sef:-

- (i) **Trosglwyddiadau** - nododd archwiliad HIW bryderon ynghylch cydnherthedd y broses drosglwyddo, tra bod y Panel yn flaenorol wedi llofnodi'r broses fel un oedd yn addas i'r diben yn seiliedig ar becyn o dystiolaeth a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd (er nad oedd y Panel wedi cael cyfle i arsylwi yn ymarferol ar gyfarfod trosglwyddo).
- (ii) **Archwiliadau Sicrwydd** - nododd archwiliad HIW wendidau o ran cymhwysu proses archwilio sicrwydd, tra bod y Panel yn flaenorol wedi llofnodi'r broses ei hun fel un oedd yn addas i'r diben yn seiliedig ar ei arsylwadau ei hun ac asesiad o becyn o dystiolaeth a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd.

¹² Yn ei hanfod mae'r Panel yn chwilio am dystiolaeth fydd yn rhoi sicrwydd bod y strategaethau, systemau a phrosesau angenrheidiol wedi cael eu sefydlu er mwyn darparu gwasanaeth diogel ac effeithiol; mae archwiliad HIW yn asesu'r ffordd y mae'r strategaethau, systemau a phrosesau hynny yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol yn seiliedig ar giplun mewn amser.

¹³ Roedd sicrwydd y Panel yn seiliedig ar asesiad o'r dystiolaeth a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd yn Rhagfyr 2019. Cynhaliwyd archwiliad HIW rhwng 2 a 4 Tachwedd 2019.

Mae'r Panel yn ymwybodol o'r angen i osgoi troedio ar dir HIW a bydd yn monitro ymatebion ffurfiol y Bwrdd Iechyd er mwyn cael y sicrwydd sydd ei angen arno yr ymdriniwyd â'r meysydd i'w gwella a enwyd yn yr adroddiad archwilio. Er mwyn cyflawni hynny heb greu dyblygu diangen o ran ymdrech, gofynnwyd i'r Bwrdd Iechyd ddarparu i'r Panel adroddiad eithriad mewn perthynas ag unrhyw gamau sydd yn dal heb eu cyflawni ar ôl diwedd Mawrth 2020.

Y CAMAU NESAF - Cam 13: Fel rhan o'r cylch cyfarfod rheolaidd, gofynnwyd i'r Bwrdd Iechyd ddarparu i'r Panel adroddiad eithriad mewn perthynas ag unrhyw gamau sydd yn deillio o archwiliad dirybudd HIW o Ysbyty Tywysog Siarl fydd yn dal heb eu cyflawni ar ddiwedd Mawrth 2020.

Y CAMAU NESAF - Cam 14: Bydd y Panel yn cynnwys adolygiad arall o drosglwyddiadau ac archwiliadau sicrwydd yn ei raglen o wiriadau sicrwydd ar gyfer y cyfnod adrodd nesaf.

9 CASGLIADAU, CAMAU NESAF AC ARGYMHELLION

9.1 ASESIAID CYFFREDINOL O'R SEFYLLFA BRESENNOL

Gan adeiladu ar y sylfeini cadarn a grëwyd yn ystod 2019, mae'r Panel yn falch o adrodd bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud **mwya o gynnydd** yn ystod chwarter cyntaf 2020.

Mae'r Panel erbyn hyn yn credu bod y Bwrdd Iechyd erbyn hyn bendant ar y llwybr iawn, nid yn unig i gyflawni argymhellion y Colegau Brenhinol, ond hefyd, ymhen amser, i ddarparu gwasanaeth mamolaeth y gallan nhw, eu staff a'u cymunedau eu hunain fod yn falch ohono. Sail resymegol yr asesiad hwnnw yw:-

- ymdriniwyd i raddau helaeth â'r materion 'gwneud yn ddiogel';
- pan fo'r materion 'gwneud yn ddiogel' yn dal yn waith ar y gweill, mae camau lliniaru wedi eu sefydlu;
- mae yna dystiolaeth o gyflawni mwya yn erbyn y Cynllun Gwella Mamolaeth;
- mae yna arwyddion bod y gwasanaeth yn gwella i fenywod a theuluoedd;
- mae yna fwy o arwyddion o newid mewn agweddau ac ymddygiadau staff;
- mae'r arweiniad priodol yn ei le;
- mae gwaith amlddisgyblaethol yn fwy cydlynol;
- mae prosesau llywodraethu clinigol ac archwilio clinigol wedi eu sefydlu;
- mae cam cyntaf ymgysylltu wedi cael ei gwblhau gyda deilliannau cadarnhaol;
- mae'r Rhaglen Adolygu Clinigol yn mynd rhagddi erbyn hyn;
- mae'r Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu'n adeiladol yn y broses o wella;
- mae'r fframwaith gwella sydd wedi ei sefydlu yn gweithio'n dda;
- datblygwyd mwya ar yr IPAAF a'r MIP;
- erbyn hyn mae asesiad gwaelodlin cychwynnol wedi cael ei gynnal;
- mae yna dystiolaeth o 'Gynnydd Cynnar' yn erbyn pob un o dri maes IPAAF.

Er y cynnydd amlwg sydd wedi cael ei wneud, mae yna lawer o waith i'w wneud o hyd. Mae ychydig llai na hanner y 79 o argymhellion yn y Cynllun Gwella Mamolaeth yn dal yn waith ar y gweill ac mae yna fwy i'w wneud drwy'r rhaglen ddatblygu sefydliadol ehangach er mwyn ymgorffori'r newidiadau mewn diwylliant ac ymddygiadau sydd yn ymddangos erbyn hyn.

Yn yr un modd, er y gwyddir erbyn hyn bod lefelau adnoddau yn unol â lefelau disgwyledig, mae yna dal waith i'w wneud er mwyn sicrhau bod yr adnoddau hynny yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol (mae cyfraddau salwch, er enghraifft, yn dal yn rhy uchel). Hefyd, er bod polisiau, protocolau a chanllawiau ar gael i staff, mae'r Panel yn ddiweddar wedi darganfod bod angen adolygu a diweddarau nifer sylweddol ohonynt.

O ran deilliannau, mae gwaith yn dal yn mynd rhagddo er mwyn deall pam, er enghraifft, ei bod yn ymddangos bod cyfraddau prysuro esgor yn uwch nag mewn ardaloedd Byrddau Iechyd eraill, a beth, os o gwbl, sydd angen ei wneud i fynd i'r afael â hynny. Ar yr un pryd, mae cynnydd yn dal wedi cael ei wneud o ran y ffordd y mae'r Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu â benywod a theuluoedd sydd yn defnyddio'r gwasanaeth, er bod llawer o waith i'w wneud er mwyn sicrhau bod yr adborth o ymgysylltu yn dechrau ysgogi newidiadau o ran ymarfer ac yn gwella profiadau defnyddwyr.

Ar lefel gorfforaethol, er bod yna arwyddion o wella o ran y ffordd y rheolir cwynion a phryderon, mae'r anallu i ddatrys cwynion hanesyddol yn effeithiol yn dal i effeithio ar hyder ac ymddiriedaeth benywod yr effeithiwyd yn niweidiol arnynt.

9.2 Y CAMAU NESAF

Mewn amrywiol lefydd yn yr adroddiad, mae'r Panel wedi enwi 'camau nesaf' fydd yn darparu ffocws i'r Panel a'r Bwrdd Iechyd yn ystod y cyfnod nesaf. Mae'r rhain wedi eu nodi isod er hwyluso cyfeirio:-

- **Cam 1: Dadansoddiad Thematig** - Mae'r Panel yn disgwyl i ddadansoddiad thematig o ddeiliant y tri digwyddiad ymgysylltu a gynhaliwyd yn ystod 2019/20 gael ei gyhoeddi, ynghyd â chynlluniau gweithredu manwl fydd yn deillio ohono.
- **Cam 2: Cynllun Ymgysylltu ar gyfer 2020/21** - Mae'r Panel yn edrych ymlaen at gyhoeddi Cynllun Ymgysylltu'r Gwasanaethau Mamolaeth ar gyfer 2020/21, ac yn benodol at lansio'r adnodd monitro adborth sydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd).
- **Cam 3: Cwynion a Phryderon** - Ar ôl i hynny gael ei gymeradwyo, bydd y Panel yn disgwyl y bydd y Cynllun Gwella Cwynion a Phryderon yn rhan reolaidd o adroddiadau'r Bwrdd Iechyd ar berfformiad, a bydd eisiau gweld metrigau perfformiad perthnasol yn cael eu cynnwys yng nghamau nesaf y gwaith o ddatblygu'r IPAAF.
- **Cam 4: IPAAF** - Mae angen gwneud mwy o waith er mwyn cyfuno'r cynnydd sydd wedi cael ei wneud o ran datblygu metrigau ar gyfer yr IPAAF, yn arbennig o ran (i) enwi trothwyon neu dargedau perfformiad pan fo hynny'n briodol, (ii) ategu meysydd pan fo'r metrigau yn gyfyngedig (yn arbennig Profiadau Menywod a Theuluoedd) a (iii) sicrhau alinio parhaus â'r fframwaith perfformiad Cymru gyfan ymddangosol.
- **Cam 5: Matrics Aeddfedrwydd** - Mae angen gwneud mwy o waith datblygu er mwyn enwi camau seiliedig ar ddeiliannau fydd yn galluogi cynnal asesiad gwrthrychol ynghylch beth, ym mhob un o'r meysydd perfformiad, sydd yn gyfystyr â chyflawni elfennau 'Canlyniadau', 'Aeddfedrwydd' ac 'Enghreifftiol' y Matrics Aeddfedrwydd.

- **Cam 6: Tîm Gwella Mamolaeth** - Mae'r Panel yn edrych ymlaen at dderbyn cynigion yr SRO ar gyfer caffael Cyfarwyddwr Gwella Mamolaeth newydd pan fydd yn symud i'w swydd newydd.
- **Cam 7: Gwasanaethau Newyddenedigol** - Yn ystod y cyfnod adrodd nesaf, bydd y Panel yn rhoi mwy o sylw i'r gwasanaeth newyddenedigol, ac fel cam cyntaf bydd yn gwahodd Neonatolegydd Ymgynghorol i fynychu cyfarfod nesaf y Panel er mwyn darparu trosolwg o'r gwasanaeth.
- **Cam 8: Lefelau Staffio** - Er bod yr adolygiad Birthrate Plus® wedi cadarnhau bod lefelau staffio presennol yn briodol, mae'r Panel yn disgwyl i gynllun gweithlu mwy hirdymor gael ei ddatblygu fydd yn dangos sut y bydd yr adnoddau hynny yn cael eu hoptimeiddio (er enghraifft, drwy leihau salwch a lleihau'r defnydd o oramser) a sut y bydd adleoliadau yn cael eu haddasu er mwyn adlewyrchu patrymau newidiol y galw a ffyrdd newydd o weithio.
- **Cam 9: Polisiâu, Protocolau a Chanllawiau** - Er bod cynnydd wedi cael ei wneud o ran sicrhau bod polisiâu, protocolau a chanllawiau ar gael ac yn hygyrch i staff, erbyn hyn mae nifer sylweddol o bolisiâu angen eu hadolygu a'u diweddarau. Ar ddiwedd Mawrth 2020 darparwyd amserlen o adolygiadau wedi eu blaenoriaethu i'r Panel, a bydd yn disgwyl gweld cynnydd sylweddol yn erbyn hynny yn ystod y cyfnod adrodd nesaf.
- **Cam 10: Cynllun Gwella Mamolaeth (Cyflawni)** - Gan gydnabod y cyfyngiadau presennol, mae'r Panel yn disgwyl gweld mwy o gyflawni yn erbyn gweddill yr argymhellion MIP yn ystod y cyfnod adrodd nesaf, a ffocws parhaus ar ymgorffori a phrofi'r argymhellion hynny sydd eisoes wedi cael eu cyflawni.
- **Cam 11: Cynllun Gwella Mamolaeth (Datblygu)** - Byddai'r MIP yn elwa o'i ddatblygu ymhellach er mwyn creu cynllun mwy deinamig ac ymatebol sydd yn cael ei ddiweddarau yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni gwelliant parhaus yn hytrach na rhestr o argymhellion.
- **Cam 12: Cynllun Gwella Mamolaeth (Rhesymoli)** - Dylid adolygu gweddill y camau MIP, a'u rhesymoli, eu cyfuno neu eu grwpio pan fo'n briodol er mwyn osgoi dyblygu ac er mwyn enwi'r argymhellion hynny pan fo newid mewn amgylchiadau yn golygu nad ydynt yn berthnasol mwyach.
- **Cam 13: Archwiliadau Dirybudd HIW** - Fel rhan o'r cylch cyfarfod rheolaidd, gofynnwyd i'r Bwrdd Iechyd ddarparu i'r Panel adroddiad eithriad mewn perthynas ag unrhyw gamau sydd yn deillio o archwiliad dirybudd HIW o Ysbyty Tywysog Siarl fydd yn dal heb eu cyflawni ar ddiwedd Mawrth 2020.
- **Cam 14: Trosglwyddiadau ac Archwiliadau Sicrwydd** - Bydd y Panel yn cynnwys adolygiad arall o drosglwyddiadau ac archwiliadau sicrwydd yn ei raglen o wiriadau sicrwydd ar gyfer y cyfnod adrodd nesaf.

Bydd y camau yma yn cael eu monitro drwy'r broses sicrwydd a sefydlwyd a byddir yn adrodd ar gynnydd pan fo'r Panel yn cynhyrchu ei adroddiad yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Ond, am resymau a archwilir yn y paragraff canlynol, efallai y bydd angen tymheru disgwyliadau'r Panel wrth i oblygiadau hirdymor COVID-19 ddod yn gliriach.

9.3 CYFLEOEDD I WELLA MWY

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi creu platfform cadarn ar gyfer gwella mwy, ac o ran y gwasanaethau mamolaeth, maent mewn lle gwahanol iawn i ble yr oeddent 12 mis yna ôl pan gyhoeddwyd adroddiad y Colegau Brenhinol.

Ond, mae'r Panel yn ymwybodol y bydd y Bwrdd Iechyd efallai, yn y tymor byr o leiaf, yn cael anhawster cynnal y ffocws a'r ymrwymiad sydd ei angen er mwyn adeiladu'n sylweddol ar y platfform y mae wedi ei greu.

Y bygythiad mwyaf i gynnydd yn ystod y misoedd nesaf, heb os, yw'r angen i ymateb i COVID-19. Mae hi bron yn anochel y bydd ffocws, egni ac adnoddau'r Bwrdd Iechyd yn cael ei dynnu oddi wrth flaenoriaethau presennol megis y Rhaglen Gwella Mamolaeth, ac yn cael eu cyfeirio at yr hyn sydd yn amlwg yn fater mwy dyrys.

Mae'r Bwrdd Iechyd eisoes yn gweld effaith salwch cynyddol ar lefelau staffio yn yr unedau mamolaeth a newyddenedigol. Mae uwch reolwyr, am resymau da, eisoes wedi cael eu symud o'u gwaith o ddydd i ddydd ar y broses wella, ac mae rhai gwasanaethau wedi cael eu dargyfeirio dros dro.

Hyd yn oed os bydd effaith y firws yn cael ei gyfyngu o fewn amserlenni byr dymor rhesymol, mae'n amlwg y bydd yn cymryd peth amser i'r sefydliad ddod ato ei hun. Oherwydd hynny, nid oes gan y Panel unrhyw amheuaeth y bydd yn heriol iawn i'r Bwrdd Iechyd yn y tymor byr gynnal lefel y ffocws ac ymrwymiad y mae wedi bod yn ei ddarparu hyd yma.

Ond, mae'n bwysig nad yw'r cynnydd sydd wedi cael ei wneud, yn arbennig o ran ansawdd a diogelwch y gwasanaethau a ddarperir, yn cael ei golli a bydd y Panel yn gwneud popeth o fewn ei allu i sicrhau bod y ffocws ar y meysydd critigol yma yn cael ei gynnal. Er mwyn cefnogi hynny, bydd y Panel yn gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd er mwyn enwi'r agweddau llai critigol hynny o'r Cynllun Gwella Mamolaeth sydd yn dal heb eu cyflawni, y gellir eu gohirio am y tro.

Fel ymateb i hynny, mae'r Uwch-swyddog Cyfrifol wedi ymrwymo y bydd yn gwneud beth bynnag sydd yn rhesymol bosibl er mwyn sicrhau bod lefelau staffio yn y Tîm Gwella Mamolaeth yn cael eu gwarchod cyhyd â phosibl, yn arbennig y rhai sydd yn ymwneud â chefnogi'r Rhaglen ar gyfer Adolygu Clinigol.

Ond nid yw'n ddu i gyd, ac mewn cyfnodau dyrys y gall cyfleoedd ymddangos yn aml. Mae'r Panel eisoes yn gweld peth o'r hyn a ddysgwyd yn ystod y 12 mis diwethaf yn cael ei adlewyrchu yn ymateb y Bwrdd Iechyd. Er enghraifft, roedd y gwersi a ddysgwyd o'r gwaith ymgysylltu a chyfathrebu y mae'r tîm gwasanaethau mamolaeth wedi bod yn ei wneud yn amlwg yn eu hymatebion i COVID-19, yn cynnwys darparu negeseuon clir, amserol a chydymdeimladol i fenywod a theuluoedd sydd efallai yn bryderus ynghylch yr effaith ar eu beichiogrwydd.

Ond er mai COVID-19 heb os yw'r bygythiad mwyaf sylweddol i'r gobeithion o wella mwy, mae yna nifer o ffactorau eraill y bydd angen eu rheoli'n ofalus gan y Bwrdd Iechyd yn ystod y misoedd nesaf er mwyn sicrhau nad yw'r ffocws a'r momentwm a grëwyd yn cael eu colli. Mae hyn yn cynnwys:-

- ymadawiad y Cyfarwyddwr Gwella Mamolaeth sydd wedi cael swydd newydd gyda'r Bwrdd Iechyd a bydd yn symud yn fuan i gefnogi'r ymateb i COVID-19;
- newidiadau gorfodol yn y Tîm Gwella Mamolaeth a cholli gwybodaeth a phrofiad o ganlyniad i hynny allai fod yn anodd digolledu amdano;
- penodi Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth newydd, sydd yn cynnig profiad a mewnwleidiad newydd, ond sydd yn ddealladwy yn cymryd amser i adolygu'r dull presennol.

Mae'r Bwrdd Iechyd yr un mor ymwybodol o'r materion hyn ac mae'n gweithio gyda'r Panel er mwyn canfod ffyrdd o liniaru'r risg o golli momentwm.

Yn benodol, mae cynigion er mwyn mynd i'r afael ag effaith ymadawiad y Cyfarwyddwr Gwella Mamolaeth a newidiadau eraill yn y Tîm Gwella Mamolaeth yn cael eu datblygu ar hyn o bryd.

9.4 ARGYMHELLION

Wrth ystyried y cynnydd sy'n cael ei wneud yn barhaus, ac ymrwymiad parhaus y Bwrdd Iechyd i'r broses wella, nid yw'r Panel yn teimlo bod angen gwneud unrhyw argymhellion penodol i'r Bwrdd Iechyd eu hystyried ar hyn o bryd. Ond mae'r adroddiad yn gwneud un argymhelliad y gwahoddir y Gweinidog i'w ystyried sydd yn ymwneud ag amledd y cylch adrodd.

Pan sefydlwyd y broses oruchwyllo yn Ebrill 2019, ymrwymodd y Panel i adrodd ar gynnydd i'r Gweinidog yn chwarterol. Dyma drydydd adroddiad chwarterol y Panel.

Yn ystod camau cynnar y broses, roedd cylch tri mis yn gwbl briodol o ystyried maint a chymhlethdod y materion dan sylw a lefel y diddordeb cyhoeddus, gwleidyddol a chyfryngol yn y materion. Ond, o ystyried y cynnydd a wneir gan y Bwrdd Iechyd, erbyn hyn mae'n ymddangos ei bod yn briodol adolygu'r amledd.

Erbyn hyn mae'r rhan fwyaf o'r blaenoriaethau tymor byr yn y Cynllun Gwella Mamolaeth wedi cael eu cyflawni, a'r hyn sydd ar ôl yw'r materion hirdymor, megis newid diwylliant ac adfer hyder y cyhoedd, fydd yn cymryd amser i'w cyflawni. Oherwydd hynny, bydd swm y cynnydd y gellir ei ddangos fydd yn cael ei gyflawni yn ystod cyfnod o dri mis yn lleihau gyda threigl amser.

Roedd y Panel yn bwriadu argymhell bod y cylch adrodd yn cael ei ymestyn ymhell cyn i sefyllfa COVID-19 ymddangos. Ond, mae hynny erbyn hyn yn rhoi mwy o sail i'r ddadl o blaid estyniad, o ystyried y pwysau ychwanegol sydd ar y Bwrdd Iechyd a'r angen i leihau llwyth gwaith gweinyddol cyn belled ag sy'n ddiogel a rhesymol. Am y rhesymau hynny, mae'r Panel yn cynnig bod y cylch adrodd yn cael ei ymestyn i chwe mis, a bod yr adroddiad nesaf yn cael ei gyflwyno i'r Gweinidog ar ddiwedd Medi 2020 a'r adroddiad dilynol yn cael ei gyflwyno ddiwedd Mawrth 2021.

Os cytunir ar yr argymhelliad, bydd y Panel yn lleihau ei gylch cyfarfodydd ffurfiol o un misol i un bob dau fis, a'i gylch cyfarfodydd anffurfiol o un wythnosol i un bob pythefnos. Bydd hynny nid yn unig yn rhyddhau capasiti i'r Bwrdd Iechyd ond bydd hefyd yn galluogi'r Panel i ganolbwyntio mwy o'i amser ar fwrw ymlaen â'r Rhaglen ar gyfer Adolygu Clinigol. Os cytunir ar hynny, bydd y Panel hefyd yn parhau â'r ymarfer presennol o ddarparu diweddariad misol anffurfiol i Lywodraeth Cymru ac o gyfarfod â'r SRO, y Prif Weithredwr a'r Cadeirydd yn y cyfnod rhwng y cyfarfodydd ffurfiol. Ar sail hynny, argymhelliad y Panel yw:-

ARGYMHELLIAD 1: Gofynnir i'r Gweinidog gymeradwyo ymestyn y cylch adrodd i chwe mis, a bod yr adroddiad cynnydd nesaf yn cael ei gyflwyno i'r Gweinidog ar ddiwedd Medi 2020 a'r adroddiad dilynol yn cael ei gyflwyno ddiwedd Mawrth 2021.

10 RHESTR O ATODIADAU

Atodiad A: Cylch Gorchwyl

Atodiad B: Llwybr ar gyfer Adolygiadau Clinigol

Atodiad C: Llwybr Hunanatgyfeirio

Atodiad D: Fframwaith Integredig ar gyfer Asesu Perfformiad a Sicrwydd

Atodiad E: Metrigau IPAAF yn ôl Maes

Atodiad F: Matrics Aeddfedrwydd

Atodiad G: Cynllun Gwella Mamolaeth Lefel Uchel

Atodiad H: Rhestr o argymhellion y Cynllun Gwella Mamolaeth

Atodiad I: Datganiad IMSOP - Ymateb i COVID-19

Y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth Cylch Gorchwyl

Pwrpas y Panel Trosolwg Annibynnol


Darparu'r oruchwyliaeth¹ sy'n angenrheidiol i alluogi Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg i roi'r argymhellion yn adroddiad y Colegau Brenhinol ar waith mewn modd amserol, agored a thryloyw.

Cylch Gorchwyl

- Sefydlu trefniadau cadarn sy'n rhoi sicrwydd i randdeiliaid bod y Bwrdd Iechyd yn gweithredu'r argymhellion yn adolygiad y Colegau Brenhinol ac argymhellion eraill cysylltiedig. Pennu a chytuno ar gerrig milltir ac elfennau allweddol i'w cyflawni a thracio cynnydd mewn perthynas â'r rhain;
- Sefydlu a chytuno ar broses amlddisgyblaethol annibynnol i gynnal adolygiad clinigol o'r digwyddiadau difrifol yn 2016-2019 y mae'r Colegau Brenhinol wedi'u nodi fel rhai y mae angen ymchwiliad pellach iddynt. Cynnal ymarfer 'golwg yn ôl' i 2010 a sicrhau bod unrhyw rai sydd â phryderon cyfiawn am eu gofal yn cael cyfle i gael adolygiad o'r gofal hwnnw. Sicrhau bod y Bwrdd Iechyd ac eraill yn gweithredu ar unrhyw wersi i'w dysgu sy'n cael eu hamlygu gan yr adolygiadau hyn;
- Cynghori'r Bwrdd Iechyd ar y camau y mae angen iddo eu cymryd i sefydlu trefniadau ymgysylltu effeithiol sy'n cynnwys cleifion a staff mewn modd gweithredol yn y broses o wella gwasanaethau newyddenedigol a mamolaeth ac adennill ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y Bwrdd Iechyd;
- Uwchgyfeirio unrhyw faterion neu bryderon ehangach sy'n ymwneud â llywodraethu i'r Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru fel sy'n briodol;
- Rhoi gwybod i'r Gweinidog am unrhyw gamau pellach y mae'r Panel yn eu hystyried yn angenrheidiol i sicrhau bod gwasanaethau newyddenedigol a gwasanaethau mamolaeth yn cael eu darparu'n ddiogel, yn gynaliadwy ac i safon uchel, ac yn canolbwyntio ar y claf. Dylai hyn gynnwys cyngor ar yr angen am unrhyw adolygiadau annibynnol dilynol, ac amseru'r rheini, a nodi unrhyw wersi pellach ar gyfer y GIG yng Nghymru.

¹ Ystyr y term 'oruchwyliaeth' yw cyfuniad o fesurau sydd wedi'u pennu'n wrthrychol (gan gynnwys gosod targedau, monitro, craffu, herio, gwerthuso sefyllfaoedd yn wrthrychol a rhoi arweiniad, anogaeth a chymorth) sydd, gyda'i gilydd, yn rhoi sicrwydd i randdeiliaid (gan gynnwys cleifion, staff a'r cyhoedd) bod y Bwrdd Iechyd yn cyflawni'r gwelliannau y mae'n ofynnol iddo eu cyflawni.

Llwybr ar gyfer Adolygiadau Clinigol



Llwybr Hunanatyfeirio

Hunangyfeiriadau



Sut rydyn ni'n delio â Hunangyfeiriadau

Rydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth â menywod a theuluoedd i ateb cwestiynau, gan ganolbwyntio ar ddysgu a gwella.

1. Os oes cwestiynau neu bryderon gyda chi am unrhyw ofal mamolaeth gawsoch chi cyn y 31ain o Hydref 2018, gallwch chi ofyn i hyn gael ei ystyried o dan y Broses Hunangyfeirio. Os cawsoch chi ofal ar ôl y dyddiad hwn, bydd eich pryderon yn cael eu hadolygu yn unol â gweithdrefnau 'Gweithio i Wella', sy'n cael eu rheoli gan y Bwrdd Lechyd.
2. Os yw'r broses hunangyfeirio yn berthnasol i'ch gofal chi, byddwn ni'n edrych yn gyntaf i weld a yw'ch sefyllfa chi'n bodloni meini prawf y Panel Trosolwg Annibynnol ar Famolaeth. Os felly, byddwn ni'n cyfeirio'ch gofal chi at y Panel ac yna byddan nhw'n cysylltu â chi er mwyn esbonio beth fydd yn digwydd nesaf.
3. Os nad yw'ch sefyllfa'n bodloni'r meini prawf, bydd Uwch-Fydwraig yn cysylltu â chi er mwyn trafod eich cwestiynau neu'ch pryderon, naill ai dros y ffôn neu wyneb yn wyneb. Gallai hyn gynnwys mynd trwy gofnodion blaenorol ac adolygiadau i weld a oes modd ateb eich cwestiynau neu'ch pryderon.
4. Mae'n bosibl y byddwch chi'n penderfynu ar ôl y cam hwn bod yr Uwch-Fydwraig wedi mynd i'r afael â'ch cwestiynau a'ch pryderon mewn ffordd sy'n eich bodloni. Os nad ydych chi'n fodlon, a hoffech chi i'r mater gael ei adolygu ymhellach, bydd yr Uwch-Fydwraig yn gwneud argymhelliad i'r Panel Trosolwg Annibynnol ar Famolaeth am y ffordd orau o gynnal yr adolygiad.
5. Gallai'r adolygiad gael ei gynnal gan y Bwrdd Lechyd, neu fel arall gallai trefnu adolygiad annibynnol fod yn addas. Bydd pob adolygiad yn cael ei gynnal yn unol ag egwyddorion 'Gweithio i Wella'. Bydd y Fydwraig Arweiniol yn esbonio'r broses i chi, a bydd hi'n ystyried eich barn chi wrth wneud argymhelliad i'r Panel.
6. Bydd y Panel Annibynnol yn ystyried argymhelliad y Fydwraig Arweiniol, ynghyd â'ch barn chi, ac yn penderfynu ar y ffordd orau o gynnal yr adolygiad. Byddan nhw'n esbonio eu penderfyniad i chi, ynghyd â'r rhesymau dros wneud y penderfyniad.
7. Ar ôl i'r adolygiad gael ei gwblhau, boed hynny gan y Bwrdd Lechyd neu'n annibynnol, bydd y canfyddiadau a'r casgliadau yn cael eu cyfeirio yn ôl at y Panel Annibynnol er mwyn iddyn nhw gael eu hystyried ymhellach. Bydd y canfyddiadau'n cael eu rhannu â chi hefyd, a byddwch chi'n cael y cyfle i ofyn unrhyw gwestiynau eraill sydd gyda chi.
8. Gan weithio gyda'r Panel, byddwn ni'n sicrhau bod unrhyw wersi sydd yn dod o adolygiad eich gofal yn cael eu hystyried yn ofalus, a'u bod yn arwain at welliannau i'r gofal rydyn ni'n ei ddarparu yn y dyfodol.

1

GWEITHIO I WELLA

Y broses ar gyfer delio â chwynion a phryderon yn y 12 mis diwethaf.

2

ADOLYGIAD CLINIGOL ANNIBYNNOL

Adolygu achosion sy'n bodloni meini prawf y cam cyntaf 2016-18.

3

HUNANGYFEIRIO

Er mwyn ateb cwestiynau, pryderon a/neu i gefnogi adolygiadau nad yw 1 a 2 yn delio â nhw.



Tim Hunangyfeirio

Mae Bydwraig Arweiniol newydd yn y swydd. Mae hi yn y broses o benodi mwy o staff i ymateb.



Cefnogaeth Emosiynol

Mae'r Bwrdd Lechyd wedi comisiynu gwasanaethau cwnsela emosiynol i gefnogi menywod a theuluoedd.




Sut i gysylltu
CTUHB_Concerns@
wales.nhs.uk
neu

01443 744915

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Fframwaith Asesu a Sicrhau Perfformiad Integredig



Fframwaith Asesu a Sicrhau Perfformiad Integredig - Metrigau Allweddol yn ôl Maes

Gofal Diogel ac Effeithiol

- Cyfanswm Genedigaethau
- % Asesiadau Cychwynnol erbyn 10 Wythnos
- % Benywod yn Geni gyda Bydwraig / Meddyg Ymgynghorol
- % Prysuro'r Esgor
- Cyfradd Genedigaethau Arferol (SVD)
- % Benywod Risg Isel yn Dechrau/Cwblhau NLP
- % VBACS a Ymdrechwyd / Llwyddiannus
- Nifer y Genedigaethau Offerynnol a Ymdrechwyd / Methodd
- % Toriad Cesaraidd - Dewisol / Brys / Cyfanswm
- % Rhwygiadau Gradd Tri a Phedwar
- % Gwaedlif Mawr ar ôl Geni (>2 Litr)
- Derbyniadau Annisgwyl i Uned newyddenedigol
- Nifer y Marw-enedigaethau
- Nifer y marw-enedigaethau o fewn 24 Awr
- Nifer y Digwyddiadau Difrifol Anfodus
- Cyfradd Mediannaeth Gwelyau Newyddenedigol



Ansawdd Profiadau Menywod

- % Cwynion a Ail agorwyd
- 10 Maes Ymateb Mamolaeth (PALS)
- Sylwadau Cwmwl Geiriau (Mwy o, Llai o)
- PREM Mamolaeth
- % Salwch
- % Cydymffurfio â PDR
- Cydymffurfio â Cynllun Swydd (y Pen)
- % Cydymffurfio â Hyfforddiant Meddygon / Bydwragedd
- % Cwblhau Hyfforddiant Arweinyddiaeth ac OD
- Lles Staff
- Cyfradd Trosiant Staff
- Cynnydd mewn Staffio Bydwreigiaeth
- Cymhareb Staffio Bydwreigiaeth (Cofrestredig / Heb Gofrestru)



Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth

- Cyfanswm Cwynion a Dderbyniwyd
- % Ymateb i Gwynion o fewn y Targed
- % Cwynion a Ail agorwyd
- 10 Maes Ymateb Mamolaeth (PALS)
- Sylwadau Cwmwl Geiriau (Mwy o, Llai o)
- PREM Mamolaeth
- Nifer y Cyfarfodydd My Maternity My Way
- Nifer y Digwyddiadau Ymgysylltu
- Nifer yr Ymatebion ar Gyfryngau Cymdeithasol

Matrics Aeddfedrwydd - Gofal Diogel ac Effeithiol

Lefelau Cynnydd  Elfennau Allweddol 	LEFEL SYLFAENOL Derbyniwyd yr egwyddor ac ymrwymiad i weithredu	CYNNYDD CYNNAR Cynnydd cynnar ar y gweill	CANLYNIADAU Cyflawnwyd y cyraeddiadau cychwynnol	AEDDFEDRWYDD Cyflawnwyd y canlyniadau'n gyson	DANGOS ESIAMPL Eraill yn dysgu o'n cyraeddiadau cyson
GOFAL DIOGEL AC EFFEITHIOL	Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen gwelliannau er mwyn darparu gofal yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae ymrwymiad i ddatblygu systemau a phrosesau i hwyluso'r gwelliant hwn.	Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu strwythur llywodraethu ansawdd ac mae'r holl Dîm Amlddisgyblaethol yn ymgysylltu'n llawn. Mae gan y Bwrdd Iechyd ddangosfwrdd datblygu ansawdd ac mae'n monitro dangosyddion allweddol. Caiff digwyddiadau clinigol eu hadrodd ac ymchwiliir iddynt yn briodol ac mae'r hyn a ddysgir yn canolbwyntio ar ddigwyddiadau unigol. Argymhellir newidiadau mewn ymarfer ond mae tystiolaeth gyfyngedig bod y newidiadau hyn wedi'u rhoi ar waith a/neu eu bod yn effeithio ar ddiogelwch yn y dyfodol. Mae'r cyfrifoldeb am lywodraethiant a diogelwch cleifion wedi'u cyfyngu i ambell unigolyn allweddol yn y Gwasanaeth Mamolaeth. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod pwysigrwydd y cymorth sydd ei angen ar deuluoedd mewn profedigaeth. Mae cyfarfodydd grwp cymorth yn digwydd bob mis.	Mae tystiolaeth bod dadansoddiad thematig o ddigwyddiadau clinigol a bod y gwersi a ddysgir yn sgil hyn yn dylanwadu ar ymarfer clinigol. Mae tystiolaeth bod newidiadau mewn ymarfer yn atal digwyddiadau o natur debyg yn y dyfodol. Caiff y gwersi a ddysgir yn sgil digwyddiadau eu rhannu'n eang ar draws y gwasanaeth a gall clinigwyr a rheolwyr ddangos tystiolaeth o'r ffordd y mae hyn yn dylanwadu ar eu hymarfer eu hunain. Mae rhaglen archwilio dan arweiniad y tîm rheoli ac mae clinigwyr yn cyfranogi yn y gwaith archwilio. Mae tystiolaeth bod y Bwrdd Iechyd yn cymryd camau cywiro pan na chaiff gofal ei ddarparu i'r safonau ymarfer derbyniol. Mae cynllun datblygu i fynd i'r afael ag argymhellion Gweledigaeth Mamolaeth bum mlynedd Llywodraeth Cymru. Mae diddordeb mewn gwella ansawdd yn dod i'r amlwg ac mae'r Gwasanaeth Mamolaeth yn cael rhywfaint o lwyddiant mewn profion newid bach.	Cydnabyddir bod systemau'n cyfrannu at ddigwyddiadau clinigol a bod y Gwasanaeth Mamolaeth yn dangos tystiolaeth o ffactorau dynol a newidiadau mewn systemau i atal digwyddiadau rhag ailadrodd. Mae'r Gwasanaeth Mamolaeth yn eangfrydig a gall ddangos tystiolaeth ei fod yn dysgu o brofiad gwasanaethau eraill. Mae tystiolaeth bod argymhellion y Bwrdd Iechyd yng Ngweledigaeth Mamolaeth Llywodraeth Cymru wedi'u gwreiddio'n dda. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod ymarfer da ac yn lledaenu hyn ar draws pob agwedd ar y gwasanaeth. Mae dull strategol o wella ansawdd ac mae tystiolaeth bod mentrau gwella ansawdd yn effeithio ar fetrigau allweddol. Mae'r holl staff yn cydnabod bod diogelwch cleifion a gwella ansawdd yn rhan o'u rôl. Mae archwiliadau clinigol yn dangos yn gyson fod ymarfer y Bwrdd Iechyd yn darparu gofal i safonau ymarfer derbyniol. Ers datblygu ffolder y canllaw ar brofedigaeth, NI fu gwallau o ran gwaith papur.	Mae diwylliant o wella ansawdd yn barhaus wedi'i wreiddio yn y Bwrdd Iechyd sy'n hanfodol wrth wneud penderfyniadau ar bob lefel. Canolfan ragoriaeth yw'r Gwasanaeth Mamolaeth sy'n asesu ac yn cymharu ei berfformiad yn erbyn gwasanaethau eraill yn gyson, boed hynny yn y gwasanaethau iechyd neu'r tu hwnt iddo. Mae clinigwyr yn y Bwrdd Iechyd yn cymryd rhan mewn ymchwil lleol a chenedlaethol. Mae'r timau'n dylunio ac yn cynnal eu harchwiliad a'u rhaglenni gwella ansawdd eu hunain, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac maent yn cydweithredu â menywod, teuluoedd a'r cyhoedd. Bellach, nid oes angen protocolau a pholisïau gymaint gan fod ymarfer ar sail tystiolaeth yn ail natur erbyn hyn a bod y staff yn effro i risgiau o ran diogelwch.

Matrics Aeddfedrwydd - Ansawdd Profiadau Menywod a Theuluoedd

Lefelau Cynnydd → Elfennau Allweddol ↓	LEFEL SYLFAENOL Derbyniwyd yr egwyddor ac ymrwymiad i weithredu	CYNNYDD CYNNAR Cynnydd cynnar ar y gweill	CANLYNIADAU Cyflawnwyd y cyraeddiadau cychwynnol	AEDDFEDRWYDD Cyflawnwyd y canlyniadau'n gyson	DANGOS ESIAMPL Eraill yn dysgu gan ein cyraeddiadau cyson
ANSAWDD PROFIAD MENYWOD A THEULUOEDD	Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod yr ymgysylltiad a'r cyfranogiad hwn yn ymestyn o gael gwybodaeth i gyfranogi yn y gwaith o gynllunio gofal uniongyrchol unigolyn, a hynny trwy gynllunio gwasanaethau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod ganddo ddull o ymgysylltu sydd heb ei ddatblygu'n ddigonol a'i fod yn datblygu cynllun i wella.	Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhoi gwybod i fenywod a theuluoedd am broblemau sy'n ymwneud â'u gofal neu newidiadau arfaethedig yn y gwasanaeth. Mae'r Bwrdd Iechyd yn awyddus i gael barn menywod a theuluoedd ar bwyntiau allweddol yn y llwybr gofal ac mae'n gweithio i fynd i'r afael â'u problemau unigol. Mae dysgu o brofiad yn canolbwyntio'n bennaf ar Weithio i Wella.	Mae gan y Bwrdd Iechyd sawl modd soffistigedig o geisio barn menywod a theuluoedd ac mae'n casglu ac yn dadansoddi'r farn hon i lywio'r gwasanaeth. Gall y Bwrdd Iechyd ddangos tystiolaeth bod cyfraniad defnyddwyr wedi effeithio ar y gwasanaeth. Mae gan y Bwrdd Iechyd ddull gwerthfawrogol o ymholi ac mae'n lledaenu ymarfer da ar draws y gwasanaeth.	Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio'n rhagweithiol gyda menywod a theuluoedd ar bob agwedd ar y gwasanaeth ac mae menywod a theuluoedd yn cymryd rhan weithredol yng ngweithgareddau'r Bwrdd Iechyd, megis recriwtio, cyfarfodydd pwyllgor ac ati. Mae tystiolaeth bod straeon cleifion yn cael eu defnyddio'n helaeth ar draws yr holl weithgareddau, e.e. hyfforddiant, goruchwyliaeth ac ati. Cydweithredwr allweddol yn natblygiad y Gwasanaethau Mamolaeth yw'r Pwyllgor Cydlynu Gwasanaethau Mamolaeth (MSLC). Mae'r menywod a'r teuluoedd sy'n cwyno am eu profiad yn fodlon bod eu profiad yn effeithio ar ymarfer yn y dyfodol. Mae llai o fenywod yn dewis gofyn i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus adolygu eu cwynion.	Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhannu arferion ymgysylltu a chyfranogi arloesol gydag eraill. Caiff yr arferion ymgysylltu a chyfranogi hyn eu cydgynhyrchu gyda'r bobl sydd wedi cael profiad byw. Mae tystiolaeth gyson fod menywod yn dewis cael eu gofal mamolaeth yng Nghwm Taf Morgannwg. Er bod yr adborth gan fenywod a theuluoedd yn gadarnhaol yn gyson, mae'r Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu'n rhagweithiol gyda menywod a theuluoedd i ystyried gwelliannau pellach yn y gwasanaeth, gan ofyn 'beth yw gwasanaeth rhagorol?' yn lle 'beth yw gwasanaeth da?'

Matrics Aeddfedrwydd - Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Lefelau Cynnydd → Elfennau Allweddol ↓	LEFEL SYLFAENOL Derbyniwyd yr egwyddor ac ymrwymiad i weithredu	CYNNYDD CYNNAR Cynnydd cynnar ar y gweill	CANLYNIADAU Cyflawnwyd y cyraeddiadau cychwynnol	AEDDFEDRWYDD Cyflawnwyd y canlyniadau'n gyson	DANGOS ESIAMPL Eraill yn dysgu gan ein cyraeddiadau cyson
ANSAWDD Y RHEOLI A'R ARWEINYDDIAETH	Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen iddo wella profiad y staff, datblygiad y staff a chyfeiriad yr arweinyddiaeth. Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu cynllun i fynd i'r afael ag ansawdd y rheoli a'r arweinyddiaeth.	Mae'r Bwrdd Iechyd yn monitro lefelau staffio ac yn cymryd camau gweithredu i fynd i'r afael â diffygion. Mae gan y Bwrdd Iechyd gynllun i wella'r prosesau recriwtio ac i gadw mwy o staff. Caiff cyfraddau arfarnu/Adolygiadau Gwerthuso a Datblygu Perfformiad a chydymffurfiaeth hyfforddiant eu monitro. Mae cynlluniau ar waith i wella'r gydymffurfiaeth. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymateb yn rhagweithiol i oruchwyliaeth allanol. Mae tystiolaeth bod y cynllun i wella ansawdd y rheoli a'r arweinyddiaeth yn cael ei dderbyn a'i gymeradwyo gan staff y gwasanaethau mamolaeth a'r cynrychiolwyr ar ochr y staff.	Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â Birthrate+ ac argymhellion cyrff proffesiynol o ran lefelau staffio. Mae gweithdrefnau uwchgyfeirio ar waith pan fydd y lefelau staffio'n cwmpo islaw'r safonau gofynnol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gallu rhyddhau staff ar gyfer hyfforddiant a sesiynau gorfodol/statudol ac mae cyfraddau cydymffurfio'r hyfforddiant yn dda yn gyson. Mae'r Bwrdd Iechyd yn deall cyfrannau allweddol diogelwch seicolegol, diogelwch cleifion a phrofiad da y staff ac yn dechrau dangos gwelliannau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen iddo ddatblygu potensial ei weithlu o ran arweinyddiaeth ac y mae wrthi'n datblygu rhaglenni arweinyddiaeth. Mae rolau, cyfrifoldebau a llinellau atebolrwydd clir ar draws y gwasanaeth. Mae tystiolaeth o waith tîm ar draws disgyblaethau proffesiynol. Mae strategaeth ymgysylltu â'r staff yn dod i'r amlwg yn ogystal â sawl modd i'r staff rannu eu barn a'u profiadau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweithiol o ran darparu sicrwydd.	Mae dull strategol o gynllunio'r gweithlu yn ogystal â thystiolaeth o gynlluniau sydd wedi'u sefydlu ers tro i fodloni gofynion clinigol yn y dyfodol. Mae rhaglenni hyfforddiant mewmol datblygedig. Caiff y dadansoddiad o anghenion hyfforddiant y Bwrdd Iechyd ei adolygu bob blwyddyn yn unol â newidiadau yn y dystiolaeth glinigol ac mae seilwaith hyfforddiant cadarn er mwyn sicrhau bod y staff clinigol yn cael eu datblygu'n briodol. Mae'r staff yn teimlo'n hyderus i herio eu cyfoedion a'r diwylliant sefydliadol yn adeiladol pan fyddant yn cydnabod bod ymarferion yn effeithio ar ddiogelwch seicolegol a phrofiad y staff. Mae'r arweinwyr yn cael cymorth priodol, maent yn bellgyrhaeddol ac maent wedi ymrwymo i ddysgu parhaus. Mae rhwydweithiau o gyfoedion sydd wedi'u datblygu'n briodol ac mae adborth a heriau adeiladol yn gyffredin. Mae tystiolaeth gadarn bod adborth gan y staff yn llywio'r gwaith o gynllunio gwasanaethau a newidiadau mewn ymarfer. Mae gan reolwyr gydberthnasau gweithio adeiladol gyda phartneriaid sydd ar ochr y staff ac maent yn gweithio mewn partneriaeth i gyflawni gwelliannau yn y gweithlu.	Mae tystiolaeth bod clinigwyr yn dewis gweithio yng Nghwm Taf Morgannwg yn sgil ei enw da o ran profiad y staff a gofal o ansawdd uchel. Mae trosiant y staff yn isel. Mae mentrau gwella ansawdd hefyd yn canolbwyntio ar wella profiad y staff yn barhaus. Caiff ymagwedd Cwm Taf Morgannwg at brofiad y staff ei rhannu'n eang gyda gwasanaethau eraill. Mae byrddau iechyd eraill yn modelu eu rhaglenni arwain a hyfforddiant ar dempled Cwm Taf Morgannwg. Mae'r arolwg blynyddol o'r staff yn dangos cyfraddau uchel o foddhad yn gyson.

Cynllun Gwella Mamolaeth - Diwygiedig-Llinell Amser Lefel Uchel

	Ion- Mawrth 2020	Ebrill - Mehefin 2020	Gorffennaf - Medi 2020	Hydref - Rhag 2020	Ion- Mawrth 2021	Ebrill - Mehefin 2021
PROSIECT GWELEDIGAETH MAMOLAETH						
Gweledigaeth Mamolaeth	Datblygu Gweledigaeth Mamolaeth mewn partneriaeth â menywod, teuluoedd a rhanddeiliaid		Cyhoeddi a Gweithredu Gweledigaeth Awst			
Cynllunio Strategol	Cydweithio â'r Grwp Cynllunio Obstetreg Rhanbarthol i gynllunio gwasanaethau yn y rhanbarth	Monitro Parhaus				
PROSIECT GOFAL DIOGEL AC EFFEITHIOL						
Gweithio i Wella	Gwella'r prosesau ar gyfer adrodd am ddigwyddiadau difrifol a chwyno, i atgyfnerthu prosesau adrodd, dysgu gwersi a rhannu, lleiha'r nifer o gwynion sydd heb eu datrys a gwella profiad menywod a'u teuluoedd o'r broses gwyno.	Gwaith monitro parhaus trwy'r Gyfarwyddiaeth a'r Fforwm Ansawdd a Diogelwch, a thrwy Bwyllgor Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd Iechyd.				
	Adolygu, brysennu a dysgu yn sgil Cam 1 o'r Adolygiadau Clinigol - i ddechrau yn Ionawr 2020 - targed i gwblhau'r rhain erbyn Ebrill 2021	Ar y gweill Monitro				
Gwella Ansawdd	Diweddarau a gweithredu canllawiau newydd					
	Prosiectau Gwella Ansawdd: 1. Cyfraddau toriad Cesaraid 2 Prysuro'r Geni 3. Gwasanaethau Profedigaeth 4. Bwydo ar y fron 5. Diogelwch Babanod					
	Gwella amseroedd ymateb brys ymgynghorwyr	Monitro parhaus trwy archwiliadau				
Rheoli Ansawdd	Sicrhau bod y Gofrestr Risg yn cael ei hadolygu yn y Bwrdd	Monitro parhaus				
	Adolygu systemau casglu data ar frys	Datblygu apiau Qilk Sense - Mehefin 2020				
Cynllunio ansawdd	Datblygu achos busnes ar gyfer Gofal Urddasol dros Fenywod Sydd Wedi Colli Babi	Cyflwyno Achos Busnes				
	Gwella'r amgylchfyd ar y wardiau geni a'r amgylchfyd cyn-genï					

Allwedd:

Gweithred Hanfodol

Argymhelliad wedi ei gwblhau

Parhau i wella

Llithro

Atodiad G (2)

	Ion- Mawrth 2020	Ebrill - Mehefin 2020	Gorffennaf - Medi 2020	Hydref - Rhag 2020	Ion- Mawrth 2021	Ebrill - Mehefin 2021
PROSIECT ANSAWDD ARWEINYDDIAETH A RHEOLAETH						
Iechyd a lles staff	Datblygu Cynllun Lles Staff i gynnwys arolwg staff a rhaglen i leihau nifer yr absenoldebau salwch			Cyfraddau salwch o fewn yr	Monitro parhaus	
Cynllunio'r Gweithlu	Lefelau staffio Bydwreigiaeth	Cydymffurfiaeth Birthrate+	Monitro parhaus			
		Datblygu cynlluniau recriwtio a chadw tymor hwy				
Gweithlu medrus	Gwella cydymffurfiaeth o ran hyfforddiant clinigol	Monitro parhaus				
		Dadansoddi anghenion hyfforddiant i gynllunio hyfforddiant a gwella'r nifer o bobl sydd wedi cwblhau				
Gwerthoedd ac Ymddygiad	Gweithredu Rhaglen Datblygu Sefydliadol a Gwerthuso'r Canlyniadau			Cyhoeddi'r gwerthusiad a chynlluniau	Monitro parhaus	
Arweinyddiaeth a Goruchwyliaeth	Penodi Tîm Arweinyddiaeth Newydd					
		Rhoi hyfforddiant datblygu i arweinwyr a'r Bwrdd a datblygu model cynllunio olyniaeth				
PROSIECT ANSAWDD PROFAD MENYWOD A'U TEULOEODD						
Fy Mamolaeth, Fy Ffordd I	Ymgrych recriwtio i recriwtio aelodau lleyg ychwanegol					
		Cryfhau rôl y MMMW fel grwp monitro				
Cyd-gynhyrchu	Ar y gweill - Cydweithio â'r CHC, menywod a theuluoedd - ymgysylltu parhaus trwy nifer o ddigwyddiadau bwrdd prosiect a digwyddiadau ymgysylltu cyhoeddus, a defnyddio adborth i lywio Prosiectau Gwella Answdd					
		Grwp Gorchwyl a Gorffen i wella profiad menywod a'u partneriaid				
Ymgysylltu	3ydd digwyddiad ymgysylltu ym Mhen-y-bont a chynnwys y themâu yn y cynllun gweithredu					
		Datblygu cynllun ymgysylltu cymunedol ar y cyd ar gyfer 2020-2023		Cyhoeddi'r cynllun	Gweithredu	
O Wrando i Weithredu		Peilota adborth mewn amser real i glinigau cyn-geini a gwerthuso				
		Rhaglen i gyflwyno Mesurau Profiadau Mamolaeth a Adroddir gan y Claf (PREMs) i'r gwasanaeth				

Allwedd:

Gweithred Hanfodol

Argymhelliad wedi ei gwblhau

Parhau i wella

Llithro

Rhaglen Gwella Mamolaeth

Argymhellion Ychwanegol a Gofnodwyd fel rhai a Gwblhawyd (Ionawr - Mawrth 2020)

Mae Cynllun Gwella Mamolaeth y Bwrdd Iechyd yn cynnwys 79 cam gweithredu. Roedd 70 o'r rhieni'n deillio'n uniongyrchol o argymhellion y Colegau Brenhinol, a'r gweddill yn deillio o adolygiadau cysylltiedig neu gamau gweithredu a nodwyd gan y Bwrdd Iechyd yn dilyn ei ddadansoddiad ei hun.

Yn ystod y cyfnod adrodd blaenorol (Hydref - Rhagfyr 2019), gwiriwyd bod 25 o'r 79 argymhelliad wedi eu cwblhau. Gellir gweld manylion am yr argymhellion yma yn Adroddiad Cynnydd Chwarterol Gaeaf 2019 y Panel a gyhoeddwyd yn Ionawr 2020. Yn ystod y cyfnod adrodd presennol (Ionawr - Mawrth 2020), mae'r Panel wedi asesu'r dystiolaeth ategol a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd ac wedi cytuno y gwnaethpwyd cynnydd mewn 16 cam arall a'u bod yn barod i gael eu 'lofnodi' fel rhai a gwblhawyd. Mae hynny yn golygu bod cyfanswm yr argymhellion a gwblhawyd ar ddiwedd Mawrth 2020 yn 41.

Noder bod rhai o'r camau yn rhai y gellid cyfeirio atynt fel 'diddymiadau technegol' oherwydd y ffaith eu bod yn dyblygu camau eraill, neu bod digwyddiadau wedi eu disodli. Er enghraifft, roedd gosod 'Camau Arbennig' a datblygu Rhaglen Wella Mamolaeth yn golygu nad oedd nifer o gamau mwy penodol yn berthnasol mwyach.

Mae'r 39 cam arall ar y gweill. Mae hynny yn cynnwys 3 argymhelliad yr oedd y Bwrdd Iechyd y teimlo a gyflawnwyd ond nad oedd y Panel yn gallu cytuno ar hynny. Gofynnwyd am fwy o dystiolaeth, a bydd y camau yma yn cael eu cyflwyno ar gyfer eu hailasesu yn ystod y cyfnod nesaf.

Yn ychwanegol at yr 16 cam a wiriwyd fel rhai a gwblhawyd yn ystod y cyfnod yma, ailaseswyd 5 cam arall a wiriwyd fel rhai a gwblhawyd yn ystod y cyfnod blaenorol er mwyn sicrhau eu bod yn dal wedi eu hymgorffori mewn ymarfer gweithredol ac mae'r rhai hynny wedi cael eu hail ddilysu yn ystod y chwarter yma.

Mae manylion am yr 16 cam a wiriwyd o'r newydd fel rhai a 'lofnodwyd' a'r 5 cam a ailwiriwyd ar gael yn y tabl dros y dudalen, wedi eu grwpio yn ôl tri ffrwd waith y prosiect (sydd yn alinio â thri maes perfformiad yr IPAAF). Mewn rhai achosion, teimlai'r Panel fod angen cynnal adolygiad neu wiriad dilynol er mwyn sicrhau bod y camau gweithredu'n cael eu hymgorffori mewn ymarfer. Yn yr achosion hynny, mae hynny wedi cael ei nodi yn y tabl. Bydd mwy o wiriadau yn cael eu hamserlennu yn rhaglen sicrwydd y Panel wrth symud ymlaen.

Mewn adroddiadau blaenorol, roedd crynodeb o'r dystiolaeth ar gyfer penderfynu 'lofnodi' yr argymhelliad fel un a gwblhawyd wedi ei gynnwys yn y tabl. Roedd hynny yn golygu bod y ddogfen yn rhy gymhleth ac yn anodd i'w chyflwyno. Y tro yma, nid yw'r crynodeb hwnnw wedi cael ei gynnwys. Ond, mae'n bwysig pwysleisio bod yna lwybr archwilio cynhwysfawr ar gael sydd yn darparu cysylltiadau clir â'r dystiolaeth y seiliwyd y penderfyniad arni.

FFRWD WAITH Y PROSIECT: Gofal Diogel ac Effeithiol				
Cyfeirnod y Cam Gweithredu:	Ffynhonnell	Argymhelliad	Cytunwyd bod yr argymhelliad wedi cael ei gyflawni	Angen adolygiad dilynol?
7.11 ADOLYGU	RCOG	Cyfarfodydd Gorfodol – Sicrhau presenoldeb gorfodol mewn cyfarfodydd allweddol ar gyfer yr holl staff priodol.	Gwiriwyd 16.12.19 Ailwiriwyd 18.02.20	Penderfyniad y Bwrdd lechyd.
7.14 ADOLYGU	RCOG	Cyfarfodydd Meddygon Ymgynghorol ar y Cyd - Proses gyfarfod reolaidd i gael ei sefydlu.	Gwiriwyd 16.12.19 Ailwiriwyd 18.02.20	Penderfyniad y Bwrdd lechyd.
7.16 ADOLYGU	RCOG	Argaeledd Obstetregwyr Ymgynghorol - Ymateb ar alw i fod yn uchafswm o 30 munud o'r alwad i fod yn bresennol.	Gwiriwyd 16.12.19 Ailwiriwyd 23.03.2020	Wedi ei fonitro drwy drefniadau perfformiad wythnosol gan adrodd ar eithriadau i'r Panel.
7.21 ADOLYGU	RCOG	Adrodd am Ddigwyddiadau - Gwella'r broses o adrodd am ddigwyddiadau drwy system Datix i'r holl staff.	Gwiriwyd 16.12.19 Ailwiriwyd 18.02.20	Monitro parhaus. Bwrdd lechyd i adolygu'n chwarterol a rhannu â'r Panel.
7.27 NEWYDD	RCOG	Tîm Llywodraethu a Risgiau Mamolaeth - Darparu adnoddau ychwanegol er mwyn sicrhau (i) y gellir rheoli'r llwyth gwaith a (ii) bod Datix yn cael ei adolygu, ei raddio a'i roi ar waith mewn modd briodol ac amserol.	Gwiriwyd 23.03.20	Monitro parhaus. Bwrdd lechyd i adolygu'n chwarterol a rhannu â'r Panel.
7.66 NEWYDD	RCOG	Cofrestr risgiau - I'w ddiweddarau a'i adolygu yn rheolaidd gan y Bwrdd.	Heb ei Wirio 16.12.19 Gwiriwyd 09.03.20	Monitro parhaus gan y Bwrdd lechyd.

D.U.1. NEWYDD	Uned Esgor	Defnyddio Gwersi i Hysbysu Gwelliannau - Y broses i gael ei chynnwys mewn Trefniadau Llywodraethu newydd.	Gwiriwyd 18.02.20	Gwiriad dilynol bob 6 mis gan y Panel er mwyn sicrhau bod hynny wedi ei ymgorffori'n llawn.
D.U.2. NEWYDD	Uned Esgor	Adolygiad Clinigol - Cwblhau'r adolygiadau o'r 43 digwyddiad yn y clwstwr gan ddefnyddio methodoleg RCA, yn cynnwys adolygiad cymheiriaid o'r deilliannau clinigol.	Gwiriwyd 18.02.2020	Diddymwyd y cam oherwydd ei fod wedi ei ddisodli gan y Rhaglen ar gyfer Adolygu Clinigol.
D.U.3. NEWYDD	Uned Esgor	Prosesau Llywodraethu - Sicrhau bod prosesau Cyfarwyddiaeth Mamolaeth yn gyson â'r broses Gorfforaethol er mwyn sicrhau esgoli priodol.	Gwiriwyd 23.03.20	Gwiriad dilynol ymhen 6 mis gan y Panel er mwyn sicrhau bod hynny wedi ei ymgorffori'n llawn.

FFRWD WAITH Y PROSIECT: Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth				
7.5 NEWYDD	RCOG	Rhaglen Hyfforddi CTG - Asesu cymhwysedd yr holl staff sydd yn ymwneud â gofalu am ferched beichiog (cyn geni ac yn ystod yr enedigaeth).	Gwiriwyd 18.02.20	Cylch hyfforddiant y Bwrdd lechyd i gael ei gwblhau erbyn diwedd Mawrth 2020. Gwiriad dilynol ymhen 6 mis gan y Panel er mwyn sicrhau bod hynny wedi ei ymgorffori'n llawn.
7.6 ADOLYG U	RCOG	Rhaglen Gynefino Safonol Meddygon Ymgynghorol – Rhaid i Obstetregwyr a Gynecolegwyr Ymgynghorol ddarparu (i) rhaglen gynefino safonol i'r holl staff meddygol iau, a (ii) rhaglen gynefino safonol i bob meddyg locwm.	Gwiriwyd 16.12.19 Ailwiriwyd 18.02.20	Gwiriad dilynol ymhen 6 mis gan y Panel er mwyn gwirio rhaglenni cynefino ar ôl Awst.

7.13 NEWYDD	RCOG	Arweinydd Clinigol ar gyfer Llywodraethu - Enwi arweinydd ymgynghorol (i) sydd yn atebol am lywodraethu da a (ii) sydd yn mynychu cyfarfodydd llywodraethu gan sicrhau arweinyddiaeth ac ymgysylltu.	Gwiriwyd 18.02.20	Penderfyniad y Bwrdd lechyd.
7.24 NEWYDD	RCOG	Gwaith Amlddisgyblaethol - Arweinydd clinigol penodedig o blith uwch staff meddygol yn y gyfarwyddiaeth i gefnogi'r arweinydd llywodraethu mamolaeth presennol.	Gwiriwyd 18.02.20	Penderfyniad y Bwrdd lechyd.
7.33 NEWYDD	RCOG	Amgylchedd Hyfforddi - Mynd ati i rannu canfyddiadau adolygiad RCOG gyda Deoniaeth Cymru, a'u hannog ar frys i ailymweld â'r Bwrdd lechyd er mwyn (i) ailasesu ansawdd cynefino, hyfforddiant ac goruchwyliaeth o ran obstetreg, (ii) ceisio sicrwydd ynghylch addasrwydd y gwasanaeth ar gyfer hyfforddeion, a (ii) phenodi tiwtor Coleg RCOG penodol er mwyn cefnogi hyfforddeion ar safle RGH.	Gwiriwyd 18.02.20	Penderfyniad y Bwrdd lechyd.
7.41 NEWYDD	RCOG	Cynllun i Uno - Ystyried Effaith Cynllun i Uno unedau arweinwyr ymgynghorol yn PCH ac RGN ar ddiwylliant.	Gwiriwyd 18.02.20	Camau wedi eu diddymu. Digwyddodd yr uno 12 mis yn ôl ac ymdrinnir â diwylliant drwy amrywiaeth o gamau eraill.
7.43 NEWYDD	RCOG	Cynllun i Uno - Cynnal asesiad manwl o'r gwasanaeth wrth iddo symud i'r dyfodol gyda ffyrdd newydd o weithio a mwy o alw posibl ar y gwasanaeth. Gall hynny benderfynu ar strwythurau a chymwyseddau arweinyddiaeth a llywodraethu clinigol fydd yn cefnogi'r gwasanaeth.	Gwiriwyd 18.02.20	Camau wedi eu diddymu. Digwyddodd yr uno dros 12 mis yn ôl. Mae strwythurau newydd wedi cael eu gwella. Ymdrinnir â chamau mwy hir dymor mewn man arall yn y cynllun gwella.

7.58 NEWYDD	RCOG	Datblygiad Strategol - Ceisio cyngor mamolaeth ac obstetreg allanol arbenigol er mwyn cael cymorth o ran datblygu strategaeth mamolaeth a defnyddio'r cyfle i archwilio ffyrdd newydd o weithio.	Gwiriwyd 23.03.20	Diddymwyd y cam oherwydd ei fod wedi ei ddisodli gan y trefniadau mesurau arbennig a'r Rhaglen ar gyfer Adolygu Clinigol.
7.64 NEWYDD	RCOG	Ymwbyddiaeth y Bwrdd - Aelodau Annibynnol y Bwrdd i gael hyfforddiant ar oblygiadau Deddf Dynladdiad Corfforaethol a Lladdiad Corfforaethol 2007, er mwyn deall yn well beth yw eu rôl o ran sicrhau diogelwch y gwasanaethau a ddarperir gan y Bwrdd.	Gwiriwyd 10.03.20	Penderfyniad y Bwrdd lechyd.

FFRWD WAITH Y PROSIECT: Ansawdd Profiadau Menywod a Theuluoedd				
7.50 NEWYDD	RCOG	Ymgysylltu â'r Gymuned - Parhau i weithio gyda'r MSLC ('My Maternity, My Way' erbyn hyn) er mwyn adeiladu ar y dull o ymgysylltu yn y gymuned a awgrymir.	Gwiriwyd 26.03.20	Aelod Lleyg yn cyfranogi yn y gwaith datblygu parhaus ar y cynllun camau nesaf.
7.55 NEWYDD	RCOG	Gwasanaeth Profedigaeth - Adolygu lefel ac effeithiolrwydd y gwasanaeth a (i) sicrhau bod cymorth a chwnsela priodol ar gael i deuluoedd fel bo'r angen, a (ii) ystyried gweithredu Llwybr Gofal Profedigaeth Cenedlaethol a ddatblygwyd gan SANDS mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid yn cynnwys benywod a'u teuluoedd, RCOG a RCM.	Gwiriwyd 23.03.20	Penderfyniad y Bwrdd lechyd (Mae mwy o waith datblygu yn cael ei wneud ar hyn o bryd gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen MMMW).



Y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth

Datganiad Sefyllfa - COVID-19

Fel ymateb i'r sefyllfa COVID-19 sydd yn datblygu, mae Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth wedi adolygu ei arferion gwaith yn seiliedig ar yr angen i:-

1. ystyried canllawiau'r Llywodraeth, yn cynnwys cyfyngu ar deithio a chynghor ynghylch cyswllt cysylltiedig â gwaith;
2. sicrhau'r diogelwch gorau posibl i gleifion, yn cynnwys lleihau'r risg o ledaenu'r firws o ganlyniad i weithgareddau'r Panel;
3. sicrhau lles y Panel a'i randdeiliaid allweddol, yn cynnwys staff y Bwrdd Iechyd a swyddogion Llywodraeth Cymru;
4. lleihau'r baich gweithgareddau'r Panel ar y Bwrdd Iechyd ar adeg pan fo gwasanaethau gofal iechyd dan bwysau sylweddol.

Gan ystyried y pedwar egwyddor allweddol yma, mae'r Panel yn credu bod ei waith goruchwylio a chraffu yn parhau i fod yn allweddol ar gyfer darparu gwasanaethau mamolaeth diogel o ansawdd uchel ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, ac mae wedi dod i'r casgliad y dylid cynnal y ffocws a'r momentwm y mae'n ei ddarparu i'r broses wella. Mae hynny yn cynnwys yr angen i enwi a gweithredu ar y gwersi sydd yn ymddangos o Raglen Adolygu Clinigol y Panel ac i ymgysylltu yn effeithiol â'r benywod a'r teuluoedd yr effeithir arnynt.

Hefyd mae'n bwysig bod trefniadau wythnosol Llywodraeth Cymru sydd yn monitro staffio, gweithgaredd clinigol a deilliannau yn cael eu cynnal a'u bod yn parhau i fwydo i waith y Panel.

Ond, o ystyried y sefyllfa sydd ohoni, am y pedair wythnos nesaf, bydd y Panel yn mabwysiadu dull o weithio sydd yn gymesur a seiliedig ar risg, a bydd yn gwneud addasiadau i'w arferion gweithio yn seiliedig ar y pedwar egwyddor a nodir uchod a chynghor Llywodraeth Cymru ac Uwch Swyddog Cyfrifol y Bwrdd Iechyd.

Bydd camau cyntaf y Panel yn cynnwys lleihau teithio diangen a gwneud y mwyaf o adnoddau gweithio o bell. Bydd ffyrdd gwahanol o rannu gwybodaeth yn cael eu henwi, yn cynnwys blogio byw a dulliau ar-lein math seminar/gweithdy.

Bydd y Panel yn adolygu ei drefniadau gweithio yn wythnosol, gan ystyried y cyd-destun newidiol parhaus yn ofalus a gofynion gwasanaethau rheng flaen y GIG er mwyn cynnal sefyllfa o barodrwydd.

Mae hwn yn gyfnod heriol i holl deulu'r GIG ac mae'n hanfodol bod ansawdd a diogelwch gofal i famau, babanod a theuluoedd yn cael ei gynnal.

11 RHESTR O DERMAU

AC	Aelod Cynulliad
AaGiC	Addysg a Gwella Iechyd Cymru
AGIC	Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
AD	Adnoddau Dynol
ALI	Awdurdod Lleol
AMU	Uned gyfochrog dan arweiniad bydwagedd
Badgernet	System rheoli data cleifion yn y maes newyddenedigol
BI	Bwrdd Iechyd
BIP	Bwrdd Iechyd Prifysgol
BIPCT	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
BIPCT	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
BR+	Birthrate plus
CD	Cyfarwyddwr Clinigol
CEO	Prif Swyddog Gweithredol
CIC	Cyngor Iechyd Cymuned
CMB	Cyfarfod Bwrdd Clinigol
CMO	Prif Swyddog Meddygol
CNO	Prif Swyddog Nyrsio
COO	Prif Swyddog Gweithredol
CPD	Datblygiad proffesiynol parhaus
CSfM	Goruchwylwyr clinigol bydwagedd
CSR	Cyfraddau toriadau cesaraidd
CTG	Cardiotocograffeg
Datix	Meddalwedd diogelwch cleifion
DON	Cyfarwyddwr Nyrsio
EBC	Pob Baban yn Cyfrif

ELCS	Toriad cesaraidd dewisol
EMCS	Toriad cesaraidd dewisol brys
Euroking	System TG genedlaethol ar gyfer mamolaeth
GAP	Protocol asesu twf
Greatix	Cynllun yn seiliedig ar 'Datix' i gyfleu adborth cadarnhaol i staff
GROW	Pwysau gorau'n gysylltiedig â beichiogrwydd
HIE	Ensepalopathi isgemig hypocsaidd
HOM	Pennaeth Bydwreigiaeth
HOMAG	Penaethiaid Grwp Cyngori Bydwreigiaeth Cymru Gyfan
HSCSC	Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
HTA	Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol
ICU	Uned Gofal Dwys
IMSOP	Y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth
IOL	Prysuro'r esgor
IPAAF	Fframwaith Integredig ar gyfer Asesu Perfformiad a Sicrwydd
LIC	Llywodraeth Cymru
KPI	Dangosyddion perfformiad allweddol
LNU	Uned newyddenedigol leol
LSA MO	Swyddog bydwreigiaeth yr awdurdod goruchwyllo lleol
LSCS	Toriad cesaraidd y segment isaf
MBRRACE	Mamau a phlant: lleihau risg drwy archwiliadau ac ymholiadau cyfrinachol
MDT	Tim amlddisgyblaethol
MIB	Bwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth
MID	Cyfarwyddwr Gwella Mamolaeth
MIP	Rhaglen Gwella Mamolaeth
MITs	System Technoleg Gwybodaeth Mamolaeth (yn bwydo QlikSense)
MLC	Gofal dan arweiniad bydwragedd

MLU	Uned dan ofal bydwagedd
MPB	Bwrdd perfformiad mamolaeth
MSLC	Pwyllgor Cysylltu Gwasanaethau Mamolaeth
MVF	Fforwm Lleisiau Mamolaeth
NEWTT	System olrhain a sbarduno rhybudd newyddenedigol cynnar
NICU	Uned gofal dwys cynenedigol
NMPA	Archwiliad Mamolaeth a Chynenedigol Cenedlaethol
NNAP	Rhaglen Genedlaethol Archwilio Cynenedigol
O&G	Obstetreg a gynaecoleg
PADR	Adolygiad arfarnu a datblygu personol
PALS	Gwasanaeth Cynghori a Chydgyssylltu Cleifion
PDM	Bydwraig datblygu ymarfer
PSAG	Cipolwg ar statws cleifion
PTR	Gweithio i Wella
Q&S	Ansawdd a Digelwch
QA	Sicrwydd Ansawdd
QlikSense	Meddalwedd gwybodaeth fusnes a dadansoddi gweledol
QSR	Ansawdd, Diogelwch a Risg
RCA	Dadansoddi gwraidd y broblem
RCA	Coleg Brenhinol yr Anasthetwyr
RCM	Coleg Brenhinol y Bydwagedd
RCOG	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr
RCPCH	Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant
RGH	Ysbyty Brenhinol Morgannwg
SAC	Swyddfa Archwilio Cymru
SB	Marw-enedigaeth
SBAR	Byrfodd ar gyfer 'stillbirth, background, assessment and response' = 'marw-enedigaeth, cefndir, asesiad ac ymateb'

SCBU	Uned gofal arbenigol i fabanod
SCU	Uned gofal arbenigol
SFH	Uchder symffysis-ffwndws
SGA	Bach o ystyried oed y ffetws
SI	Digwyddiad difrifol
SM	Mesurau arbennig
SMART	Byrfodd ar gyfer 'Specific, Measurable, Achievable, Relevant and Time-Based' = 'Penodol, Mesuradwy, Cyflawnadwy, Perthnasol a Seiliedig ar Amser'
SOM	Goruchwyliwr bydwagedd
SRO	Uwch-swyddog Cyfrifol
SUI	Digwyddiad difrifol nad adroddwyd amdano
SWP	Cynllun De Cymru
TI	Ymyriad wedi'i dargedu
Trac	Cronfa ddata fawr o 'fyrddau swyddi ar gyfer y sector iechyd a'r sector cyhoeddus
UG	Uned Gyflawni GIG Cymru
USS	Sgan uwchsain
WRP	Cronfa Risg Cymru

N.B. Geirfa generig yw hon sy'n ymdrin â thermâu a ddefnyddiwyd neu a allai gael eu defnyddio yn adroddiadau'r Panel yn y dyfodol. Ni fydd pob un o'r termâu o reidrwydd wedi cael eu defnyddio yn yr adroddiad penodol hwn.

